



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Recd R. Thomas
G. J. S. Book
6/20/16

Cert 5121.2




Harvard College Library


FROM

David R. Thomas
Oval Creek, Tenn.









COFIANT A PHREGETHAU

Y

PARCH. EVAN HARRIES,

MERTHYR.

GAN Y PARCH THOMAS LIVI.

CYHOEDDWDYD YN AMERICA

GAN Y PARCH THOS. R. JONES

YN SWYDDFA Y MONITOR, ALLIANCE OHIO.

Celt. 5121.2



David W. Hughes
Com. Clerk

RHAGYMADRODD.

MAE gair o rhagymadrodd yn ofynol. Drwg genym fod y Cofiant bychan hwn am y Parch. EVAN HARRIES, wedi bod cyhyd cyn gwneyd ei ymddangosiad. Ar gais y Cyfarfod Misol, yn gystal a dymuniad y teulu, bwriadodd yr ysgrifenydd wneyd llyn o orchwyl yn ddioedi ar ol marwoliaeth Mr. Harries; ond trwy rwystrau yn cyfodu o helyntion teulnaidd, methwyd cael o hyd i'r papyrau oedd ar ei oll am tua chwe mlynedd. O'r diwedd symudwyd y rhwystr; ac ni collwyd dim amser cyn paratoi y Cofiant. Ond cyn ei ymddangosiad daeth un amgylchiad eilwaith i'w dafu yn ol am flwyddyn gyfan. Bellach, beth bynag, wele ef yn barod; ac er ei amherffeithrwydd, hyderwn yr etyb y dyben o fod yn golofn fechan o goffadwriaeth i'r gwas hwn i Grist, ac yn rhyw gymaint o foddion yn llaw Ysbryd yr Arglwydd i dynu eraill i rodio yr un llwybr.

Yn y detholiad a wnaed o'i bregethau, tybiwn y gwel y darlennydd oedd yn ei adnabod, y pregethwr yn amlwg ynddynt, ac yn enwedig yn y rhai a ysgrifenydd gan eraill wrth ei wrando. Gadawodd nifer mawr o bregethau byrion mewn ysgrifau ar ei ol, ond y rhan fwyaf o honynt yn nodiadau go gyffredin a sychlyd—esgyrn sychion, ag y byddai ef yn arfer ei gwisgo â chnawd, ac anadlu bywyd ynddynt wrth eu pregethu. Ni fu pregethau erioed yn llefain yn uwch am bresenoldeb y pregethwr.—Fel y dywedodd un am dano, gallasai ef ddweyd wrth ei bregeth fel Dafydd wrth ei gyfaill, "Aros di gyda mi, oblegyd gyda mi y byddi di gadwedig." Er hyny yr oedd yn hoff o ysgrifenu, a daliodd i ysgrifenu hyd y diwedd. Dechreuodd ysgrifenu pregeth y mis bu farw, a'r dyddiad uwch ei phen "Tachwedd '61," ar Col. ii. 19. "Ac heb gyfatal y pen, &c." Mae y llaw-ysgrifen mor grynedig fel y

mae yn rhyfeddod i edrych arni, ac yn myned yn fwy fwy felly hyd y diwedd. Y mae y frawddeg olaf a ysgrifenodd yn darawiadol, a nodweddiadol o'r dyn,—“Pa le bynag y mae y Tad wedi gosod Crist ynddo, fe'i gosododd yn Ben yno.” Ac er nad oedd y rhan fwyaf o'i bregethau fel yr ysgrifenwyd hwy ganddo ef, agos cystal ag oeddynt yn y traddodiad, eto, credwn y bydd yn dda gan filoedd gael y crynodeb hwn o honynt, a hyderwn y gwna y nefoedd hwy eto yn foddion gras i bawb a'u darllenont.

THEFORIS, EBRILL, 1869.

RHAGYMDRODD Y CYHOEDDID AMERICANAIDD.

Yr ydym yn bresenol yn cyflwyno argraphaid Americanaidd o fywgraphiad yr Hybarch Evan Harries Merthyr, yr hwn a fu yn ffyddlon weinidog Iesu Grist yn mlith y T. C. Yr oedd yn adnabyddus iawn trwy holl gymru, ac y mae miloedd yn America a gafodd hyfrydwch ac adeiladaeth wrth ei wrando. Yr oedd y gallu hwnw ynddo, tuhwnt i neb a glywsom erioed, sef argraphu yr hyn a ddywedau ar feddyliau ei wrandawyr. Y mae rhyw-beth ar ein cof hyd heddyw, braidd o bob pregeth a glwysom ganddo. Ond y mae wedi tewi, ac wedi huno yn yr angau. Ac y mae ein Hanwyl frawd Lefi wedi bod yn lloffa ychydig o'i ffraeth ddywediadau a'i bregethau, fel coffawdwriaeth o hono, ac yr ydym yn meddwl y bydd yn werthfawr gan bawb a'u hadwaenai gael cymaint a hyn o'i hanes. A phwy ac a welodd Evan Harries yn ei fywyd, na wel ef o flaen ei feddwl yn amlwg wrth ddarllen ei ddywediadau ai bregethau yn y llyfr hwn. Cymerasom yr hyfdra i'w argraphu yn y wlad hon er mwyn dwallu yr awydd sydd am dano, heb gymeryd trafferth i anfon am llyfr mor fach i gymru. Cyflwynwn ef i sylw a darlleniad y cyhoedd, gan ddymino bendith Duw ar y darlleniad. Yr eiddoch y cyhoeddidd yn America. Thos. R. Jones Alliance Ohio.

MAWRTH. 1870.

CYNWYSIAD.

Rhagymatrolid..... TU DAL. 8

PENNOD I.

EI DDYDDIAU BOREUOL.

Lle genedigol Harries—Ei rieni—Ei frawd, William Harries
—Ei argraffiadau crefyddol cyntaf—Anfanteision ei ddydd-
iau boreuol—Cyfarfodydd yr ystabl—Dyfodiad yr Ysgol Sab-
bothol—Ymadawiad a chartref—Colli ei deimladau crefyddol 9

PENNOD II.

EI HANES FEL DYN CYHOEDDUS.

Ei fraethineb—Ei briodas—Blinder bywyd—Diwygiad yn
Llanwrtyd—Ebenezer Richards—Morgan James—Gweddi
Dafydd William—Argyhoeddiad nerthol Harries—Dechreu
pregethu—Yn sefyll i'w brofi o flaen pedwar efengylwr—Y
bregeth gyntaf yn Cefn-yr-esgair—Elias Elias—Symud i'r
capel isaf—eilwaith i Aberhonddu—Ei ordeiniad—Ymsefyd-
lu yn Morganwg—Ei ddefnyddioldeb a'i boblogrwydd—Ei
graffder a'i dynerwch—Ei ddawn i gasglu arian—Ei glefyd
a'i farwolaeth—Ei ddoniau prydyddol—Englynion ar ei far-
wolaeth 14

PENNOD III.

EI NODWEDDION FEL PREGETHWYR.

Desgrifiad o'i person—Ei gymeriad cyhoeddus cyffredinol—
Harries yn y pwlpud—"A agori di dy lygaid ar y fathyma?"
—"Yr hwyl"—Ei brif nodweddion fel pregethwr—Oedfa rym-
us—Ei boblogrwydd gyda phob dosparth—Ei gydmariaeth-
au—Dirwest a'r *Maine Law*—Chwareu a geiriau—Y *Spiritual*
Railway—Y ffordd haiarn..... 28

PENNOD IV.

LLOFFION O'I SYLWADAU A'I FFRAETHINEB.

Harries a'r offeiriad, 36—Harries a Josuah Prosser, 40—Danedd
newydd, 41—Yr hen a'r ieuainc, 41—Dalen o'r Bibl am yr ym-
enyn, 41—Ty yr Arglwydd Raglaw, 42—"Y tu hwnt," 42—
Parch i henaint, 42—Rheswm am ddybenu, 43—Harries a Theo.
Jones, 43—Synwyr o flaen gras, 43—Harries a Powel, Caer-
dydd, 43—Rhy fach ole, 43—Cwestiwn am gwestiwn, 44—Estyn
lease y capel, 44—Tri i bregethu am ddau o'r gloch, 45—Ūn
galr, 45—Y plant, Crist, a'r diafol, 45—Harries a'r *policeman*,
46—Y *fiddler* yn rhydd, 46—Nid gweled y nefoedd ond byw yno,
47—Datod y seliau, 46—Y bibell, 46—Dyn yn ei le, 47—Des-
grifiad o bregethwr, 48—Moses a'r Aiphtiw, 48—Galw ar ei
dad, 48—Rhoi careg wrth yr olwyn, 49—Cynghor i wr ieuanc,
49—Harries a'r boneddwr, 49—Harries a'r siopwr, 50—Harries
a'r Bancwr, 51—Paratoad y galon oddiwrth yr Arglwydd, 51—
Cadeirydd y Gymanfa, 52—Y dwyrain a'r gorllewin, 52—Yr
hoops, 52.

vi

PREGETH I.

TU DAL.

FFORDD IACHAWDWRIAETH.

Act. xvi. 17.—“Y dynion hyn ydynt weision y Duw Goruchaf, y rhai sydd yn mynegu i chwi ffordd iachawdwriaeth”..... 54

PREGETH II.

GWAITH DUW.

Preg. iii. 14.—“Mi a wn beth bynag a wnel Duw y bydd hyny byth; ni ellir na bwrw ato na thynu oddiwrtho; ac y mae Duw yn gwneuthur hyn fel yr ofnai dynion ger ei fron ei” 61

PREGETH III.

CRMHWYSYDER I'R ETIFEDDIAETH.

Col. i. 12.—“Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni” ... 70

PREGETH IV.

GWYBOD YR YSGRTHYR LAN.

2 Tim. iii. 15.—“Ac i ti er yn fachgen wybod yr ysgrythyr lan, yr hon sydd yn abl i'w wneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd yr hon sydd yn Nghrist Iesu”..... 73

PREGETH V

FFYDDLONDEB DUW.

2 Tim. ii. 13.—“Os y'm ni heb gredu, eto y mae efe yn aros yn ffyddlawn: nis gall efe ei wadu ei hun”..... 82

PREGETH VI.

PREGETHU YR ARGWLWYDD IESU.

Actau xi. 20. 21.—“A rhai o honynt oedd wyr o Cyprus a Cyrene, y rhai wedi dyfod i Antiochia a lefarasant wrth y Groegiaid, gan pregethu yr Arglwydd Iesu. A llaw yr Arglwydd oedd gyda hwynt, a nifer mawr a gredodd, ac a drodd at yr Arglwydd” 89

PREGETH VII.

RHYDDHAD ODDIWRTH BECHOD.

Rhuf. vi. 22.—“Ac yr awrhon, wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffwrwyth yn santeiddrwydd, a'ch diwedd yn fywyd tragywyddol”..... 94

PREGETH VIII.

YR EGLWYS AR Y GRAIG.

Mat. xvi. 18.—“Ac ary graig hon yr adeiladaf fy eglwys, a phyrth uffern nis gorchfygant hi”..... 102

vii.

PREGETH IX.

TU DAL

Y CYFIAWN A'R DRYGIONUS.

Diar. x. 7.--"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig; ond enw y drygionus a bydra"..... 106

PREGETH X.

CYNGHOR AR NEILLDUAD GWEINIDOGION..... 109

PREGETH XI.

AWDWR IACHAWDWRIAETH DRAGYWYDDOL.

Heb. v. 9.--"Ac wedi ei berffeithio, efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragywyddel i'r rhai oll a ufuddhant iddo" 114

PREGETH XII.

Y GAIR YN RHEDEG A CHAEL GOGONEDD.

2 Thes. iii. 1.--"Bellach, frodyr, gweddiwch drosom ni, ar fod i air yr Arglwydd redeg a chael gogonedd, megys gyda chwithau"..... 116

PREGETH XIII.

Y FFORDD, Y GWIRIONEDD, A'R BYWYD.

Ioan xiv. 6.--"Yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd; nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi"..... 118

PREGETH XIV.

CANLYN CRIST.

Mat. xvi. 21.--"Yna y dywedodd yr Iesu wrth ei ddysgyblion, Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun, a chyfodded ei groes, a chanlyned fi"..... 121

PREGETH XV.

COFIO YR ISEL-RADD,

Salm cxxxvi. 23.--"Yr hwn yn ein hisel-radd a'n cofodd ni; o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd"..... 123

PREGETH XVI.

ADNABOD LLAW YR ARGWLWYDD,

Jos. ix. 24.--"Fel yr adnabyddo holl bobloedd y ddaear law yr Arglwydd mai nerthol yw; fel yr ofnoch yr Arglwydd eich Duw bob amser"..... 125

PREGETH XVII.

YR EFENGYL MEWN NERTH.

1 Thes. i. 5.--"Oblegyd ni bu ein hefengyl ni tuag atoch mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glan, ac mewn sicrwydd mawr"..... 128

PREGETH XVIII,
GWNEUTHUR Y PELL YN AGOS.

TU DAL

Eph. ii. 13.—“Eithr yr awrhon, yn Nghrist Iesu, chwychwi yrhai oeddech gynt yn mhell, a wnaethpwyd yn agos trwy waed Crist”..... 130

PREGETH XIX.

HELAETHION YN NGWAITH YR ARGWYDD

1 Cor. xv. 58.—“Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sier, a diymod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd”... 133

PIGION O'I YSGRIFAU.

Yr amhosibl a'r posibl, 137--Rhagluniaeth* Duw, 138--Cyfrif ein dyddiau, 140--Pob peth yn dda, 140--Ymddatodiad Paul, 141--Rhosydd Moab, 142.

COFIANT EVAN HARRIES.

PENNOD I.

EI DDYDDIAU BOREUOL.

GANWYD Evan Harries ar y 7fed o Fawrth, yn y flwyddyn 1786, mewn ty bychan a elwid Ty'n y llan, yn ymyl hen lan blwyfol Llanwrtyd, yn sir Frycheiniog. Mae y bwthyn wedi ei dynu i lawr ys blynyddau bellach, a'r heol yn myned dros ei sylfeini. Enw tad Evan oedd Henry Harries, gwr genedigol o sir Aberteifi, a saer coed wrth ei gelfyddyd. Anne Evans oedd enw morwynol ei fam, chwaer i'r Parch. Evan Evans, o'r Ffos, Llanwrtyd. Yr oedd y tad a'r fam yn aelodau gyda'r Annibynwyr, yn nghapel y Glynos. Ysgrifennodd gwrthddrych yr hanes hwn, ryw ddeng mlynedd cyn ei farw, fraslun o hanes ei fywyd o'i febed hyd at ei gychwyniad gyda gwaith y weinidogaeth. Felly y mae genym ei awdurdod ef ei hun am amgylchiadau boreuol ei oes. Dywed—

“Yr oedd fy rhieni yn arddel crefydd lawer o fflynyddoedd cyn fy ngeni i, ac yn aelodau yn yr eglwys Independaidd yn Llanwrtyd. Y Parch. Isaac Price oedd y gweinidog, yr hwn oedd wr cyfrifol mewn duwioldeb. Y mae genyf feddwl uchel am grefydd fy rhieni, a chredwyf fod yr Arglwydd wedi gwneyd trugaredd â'r ddau i fywyd tragywyddol. Gwn iddynt weddio llawer dros eu plant; ond cawsant fyned i ffordd yr holl ddaear cyn cael un arwydd fod yr Arglwydd yn gwrando eu gweddïau. Yr oeddem yn chwech o blant, tri o feibion a thair o ferched;

a myfi oedd y trydydd o honynt. Fy mrawd hynaf oedd William Harries, Trefecca, yr hwn a fu yn pregethu dros 30ain o flynyddoedd, gyda'r Trefnyddion Calфинаidd, ac a fu farw yn y flwyddyn 1825, mewn gwir ddyogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragywyddol,"

Mewn llythyr anfonwyd atom gan yr hen batriarch anwyl, y Parch. D. Williams o Droedrhiwdalar, dyddiedig Mawth 7fed, 1867, mae cyfeiriad parchus iawn am William Harries, Dywed, "Yr oedd Evan Harries flynyddau lawer yn ieuangach na mi, a darfu i mi symud o Lanwrtyd i'r lle yr wyf yn awr (Troedrhiwdalar—wyth milldir oddiyno) ac yn fuan wedi dechreu pregethu symudodd yntau i'r Sarnau ger Aberhonddu er ys agos i 62 o flynyddau. Ond am y Parch. William Harries, ei frawd, yr oeddem ni ein dau fel Jonathan a Dafydd, ac enaid y naill yn nglyn wrth y llall. Yr oeddem agos yr un oed, wedi ein magu yn ymyl ein gilydd, yn yr ysgol gyda'n gilydd, ac yn yr un wers. Buom, ar ol tyfu i fyny, yn gweithio gyda'n gilydd; cysgasom gan oedd o nosweithiau yn nghyd, a dechreuasom ein crefydd yr un diwrnod. Ymwelwyd â'r ardal a diwygiad grymus, a daeth yn wasgfa arnom ninau, ac aethom i'r gyfeillach i'r Gelynos, mis Mawth, yn y flwyddyn 1790, pan oeddem yn llog oed. Oerodd ef wedi hyny am dair neu bedair blynedd, ond daeth yn argyhoeddiad i bwrpas arno, nes dryllio ei galon, a'i wneyd yn ddyn newydd, Ymunodd â'r Methodistiaid yn y Bont, a daeth yn y blaen mewn ffafr gyda Duw a'i bobl. Daeth awydd ynom am bregethu; yr oeddem gyda'n gilydd yr amser hwn hefyd, ac wrth ein gilydd yr agorodd pob un ei gw d gyn-taf. Dechreuasom bregethu tua'r un amser. Yn fuan symudodd ef i Drefecca, a chafodd y fantais o *Swynhau llyfrgell* ragorol Howell Harries. Yr oedd

yn ddarllenwr mawr, yn dduwinydd da, yn bregethwr yn ateb pwrpas y weinidogaeth, ac yn gwybod am gymdeithasu â Duw yn y dirgel. Pe cawsai fyw buasai yn un o enwogion ei oes; ond machludodd ei haul yn gynar brydnawn. Ychydig flynyddau wedi iddo farw, breuddwydiais am dano y freuddwyd felusaf a freuddwydiais erioed, &c. Gobeithio y caf finau fyued i'r wlad hono i fyw. Na ryfeddwch, fy anwyl gyfaill, fod yma wallau; mae yr hen aw sydd yn defnyddio yr ysgrifell yn myned ar ei phedwar ugain a naw er y 27ain o Ionawr diweddfaf, a'r ddau lygad yr un oed i'r fynydd.

Yr eiddoch mewn gwir serch.

DAFYDD WILLIAMS."

Dywed Mr. Harries hefyd am ddwy chwaer iddo fuont feirw, ac a adawsant dystiolaeth ddymunol o'u crefydd ar eu hol. Wrth gyfeirio at ei argrffladau crefyddol cyntaf dywed, "Nid wyf yn cofio dim yn foreuach ar fy meddwl na theimlad dwys ar rai amserau o fawredd Duw, barn, tragywyddoldeb, nefoedd, uffern, ofn marw, &c. Byddai meddyliau am y pethau hyn yn creu dychryn mawr arnaf ar brydiau, er yn blentyn, ac yn aflonyddu yn fynych ar fy nghwsg. Buasai yn dda genyf y pryd hwnw pe na buasai byd tragywyddol yn bod."

Ychydig o fanteision addysg oedd mewn parthau gwledig o Gymru yn nyddiau boreuol Evan Harries, yn enwedig mewn ardal mor fynyddig ac annghysbell a Llanwrtyd. Mewu cyfeiriad at anfantaision ei ardal enedigol gyda golwg ar addysgiad y plant, ac esgeulusdra rhieni gyda'u magwraeth grefyddol, dywed ef yn ei hanes, "Yr oedd y plant o dan anfantais fawr y dyddiau hyny o herwydd tri pheth: yn gyntaf, nid oedd yr un Ysgol Sabbathol yn y wlad; yn ail, nid oedd rhieni crefyddol yn dwyn eu plant i fyny yn yr eglwys; yn drydydd, anaml y byddai

rnieni yn dwyn eu pant hyd y nod i'r addoliad ar y Sabbath. Fel siampl o hyn, gallaf nodi fod tri theulu yn y gymydogeaeth yn proffesu crefydd, ac yn byw gerllaw eu gilydd; byddent yn myned gyda'u gilydd, fynychaf, i'r oedfaon ar y Sabbath am llog o'r gloch, ond gyrent yr holl blant—deuddeg neu bymtheg o honom, at ein gilydd, i ddifyru'n gilydd, fel y dywedent.

“Gallwn adrodd hefyd beth fyddai ein prif ddifyr-wch ar yr adegau hyn. Elem at ein gilydd i ystabl yn ymyl y Felin; a chyda rhyw ymwybyddiaeth plentynaidd mai dydd at addoli oedd y Sabbath, byddem yn cynnal math o gyfarfod crefyddol yn yr ystabl. Byddai un yn rhoddi penill allan i ganu, ac wedi i ni oll gyduno yn y gân, byddai hwnw yn myned i weddi; a dau yn gyffredin wedi hyn yn pregethu. Elai yr hwn oedd yn gweddio i ben y preseb (*manger*); ond elai yr hwn fyddai yn pregethu yn uwch, i ben y glwyd (*rack*) oedd yn dal y gwair. Digon tebyg ein bod wedi cymeryd hynny oddiwrth ddefod y llan, yr hon oedd yn ymyl, lle yr oedd dau bwlpud, un at ddarllen y gwasanaeth, a'r llall uwch-law iddo at bregethu.

“Anghydfod mynych yn ein nysg ydoedd yr hen gwestiwn pwy oedd i gael y swyddau blaenaf gyda'r gwaith; ond y rhai hynaf yn gyffredin fynent y blaen. Un peth hynod am addolwyr ieuainc yr ystabl hon yw, i'r Arglwydd godi *pump* o honynt i'r weinidogaeth. Mae dau o honynt wedi marw a'u coffadwriaeth yn fendigedig; ac y mae tri eraill heddyw (1850) yn y filwriaeth ac arfau y llywodraeth yn eu dwylaw.”

Ychydig o fanteision addysg gafodd Evan Harries. Dechreuodd weithio gyda'i dad fel saer coed pan yn ddeuddeg oed; ond yr oedd y pryd hwnw wedi dysgu darllen ac ysgrifenu ychydig. Tua'r amser hwn y daeth yr Ysgol Sabbathol gyntaf i'r gymydogeaeth.

a phrofodd yn fantelsiol iawn iddo ef i ddysgu darlen Cymraeg. Yn mhen ychydig flynyddoedd aeth oddi-cartref i weithio, yr hyn a brofodd yn dra niweidiol i'w foesau. Fel hyn y dywed ef am dano ei hun: "Oddeutu 17eg oed, syrthiodd arnaf yr ysbryd sydd yn syrthio ar grefftwyr ieuaine yn gyffredin, sef ysbryd y *tramp*. Ymadewais a thy fy nhad, ac aethum i sir Faesyfed, lle yr arosais am tua dwy flynedd mewn cymydogoeth hollol ddigrefydd ac annuwiol. Enillais gryn dipyn yno gyda fy nghreffft' ond collais yn enbyd yn fy moesau. Nid wyf yn cofio i mi fod mewn un lle o addoliad yn ystod fy arosiad yno. Cefais brawf o wirionedd y geiriau, fod "ymddyddanion drwg yn llygru moesau da." Collais bob argraff grefyddol oddiar fy meddwl, fel yr oedd yn naturiol dysgwyl. Mae yr adgof yn gwasgu awydd ynof yn awr i rybuddio dynion ieuaine i beidio penderfynu yn fyrbwyll i symud i leoedd na byddo neb yn ofni Duw yno. Pan rhwng 19eg ac 20ain oed, dychwelais i'm hardal enedigol. Aethum i'r Ysgol Sabbathol, ac i wrando yr efengyl fel o'r blaen' ond nid oedd y gwirionedd yn cael unrhyw argraff ar fy meddwl."

Dyma gipolwg ar ei fywyd hyd ugain oed. Nid oes ynddo eto nemawr ddim hynod. Gwelwn ynddo blentyn rhieni crefyddol yn codi mewn congl anghysbell rhwng mynyddoedd gwylltion Brycheiniog, heb nemawr ddim manteision addysg na chrefydd; eto safodd awyrgylch grefyddol ar ei aelwyd gartref, a gwelwn ffrwyth hyny yn ei deimladau crefyddol plentynaid. Gwelwn hefyd ryw fath o brophwydoliaeth am ei fywyd dyfodol yn nghyfarfodydd yr ystabl. Ond yn ei symudiad oddicartref mae yr argraffadau yna yn cilio; bywyd esgeulus ac anystyriol yn eu dileu; ac yr ydym yn ei gael ar ben ugain oed yn ddyn ieuanc difater a chaled.

PENNOD II.

EI HANES FEL DYN CYHOEDDUS.

EDRYCHID ar Evan Harries fel “dyn *steady*,” ac o gymeriad uchel pan yn ddyn ieuanc, cyn iddo ymgymeryd â phroffes grefyddol. Gwelid fod ynddo gymhwysderau uwch na'i gyfoedion. Yr oedd y pryd hwnw yn *witty*, a byddai ei ffraethineb digrifol yn gwneyd ei gwmi bod amser yn dra dymunol. Y mae amgylchiadau newyddion a phwysig yn ei hanes yn awr yn dechreu canlyn eu gilydd yn brysur. Yn fuan wedi dychwelyd adref o sir Faesyfed, dywed, “Dechreuais gadw cyfeillach â Maria, trydedd ferch y Parch. Dafydd Parry o'r Gilfach, (gweinidog gyda'r Methodistiaid yn Llanwrtyd). Daeth priodi a sefydlu fy hunan yn bwnc mawr a thrafferthus. Tybiwn, pe gallaswn gyrhaedd yr hafan ddymunol hono, y buasai y gwynt yn gostegu, a'r môr yn tawelu. Ar y 15fed o Orphenaf, 1808, (y flwyddyn yr adeiladwyd hen gapel y Bont) seliwyd ein cyfamod priodasol yn hen eglwys Llanwrtyd. Serch mawr at ein gilydd oedd bron y cwbl oedd genym at ddechreu byw; ac y mae hwnw fel dillad Israel gynt yn yr anialwch, wedi dal heb dreulio dim am fwy na “deugain mlynedd” (1850, pan oedd yn ysgrifenu). Nid hir y buom cyn deall mai dim ond *troi* wnaeth y gwynt, ac nid gostegu. Daliodd i chwythu yn gryf o gyfeiriad arall. Daeth magu y plant, talu ein ffordd, a llu mawr o helyntion bywyd i'n blino. Byddai torf o honynt yn euro wrth y drws gyda'u gilyd weithiau; a buom ninau yn ymguro yn y drafferth flin sydd dan haul, ac rhwyfo rhywfodd am rai blynyddoedd heb adnabod y Llywydd; ond adwaenai ef ein ffordd ni, a chadwodd ei law yn ddirgelaidd ar y llyw, ac nid yw wedi ei thy-

nu ymaith am fwy na deugain mlynedd. Ac wrth edrych yn ol, teimlwyf nad oes neb byw heddyw a mwy o rwymau i ganu yr hen benill hwnw na ni ein dau :—

“Boed fy mywyd oll yn ddiolch,
 Dfm ond ddiolch yw fy lle,
 Ni wnaed gwardigaeth ragor.
 I greadur is y ne’;
 Gallu’r nefoedd
 Oedd a’m daliodd i i’r lan.”

Wedi i’r pâr ieuanc fyned trwy bedair blynedd o drafferthion bywyd gyda’u gilydd yn mhentref bychan Llanwrtyd, yn y flwyddyn 1812, ymwelodd yr Arglwydd â’r gymydoggaeth â diwygiad grymus, trwy yr hwn yr achubwyd ugeiniau i fywyd tragwyddol. “Torodd allan,” meddai Harries, “mor bell ag wyf yn cofio, dechreu mis Medi yn nghapel y Methodistiaid, ar nos Sabbath, pan oedd y Parch Ebenezer Richard yn pregethu. Yr oeddem ni ar y pryd yn byw yn y pentref, a chenym ddau o blant. Nid wyf yn cofio testun Mr. Richards, ond yr wyf yn cofio yn dda fod nerthoedd dyeithr yn cyd-fyned â’i weinidogaeth; ac yn ei weddi ar ol y bregeth disgynodd rhyw beth hynod ar ei deimladau ef ei hun, ac ar deimladau yr holl gynulleidfa, nes oedd pawb wedi eu meddianu gan syndod a dychryn. Ni theimlais i fy hun ddim yn nghylch fy nghyflwr yn yr oedfa, ond cefais ddychryn wrth weled cyffro dyeithr y gynulleidfa—rhai yn curo, rhai yn gwaiddi, a rhai yn neidio ac yn molianu, nes oeddwn yn teimlo fy ngwallt yn sefyll yn syth ar fy mhen, a’m dillad fel yn rhyddion am danaf. Dywedwn ynof fy hun, mae y dynion wedi myned i’r nefoedd, neu mae y nefoedd wedi dyfod i’r dynion. Trowyd o ddeuddeg i bymtheg yr oedfa hono allan o’r fyddin wedi eu clwyfo.

“Ni chafwyd oedfa fel hon am bythefnos wedi hyny, hyd nes daeth Mr. Morgan James heibio i bregethu. Yr oedd y teimlad mor nerthol y pryd hwnw fel na chafodd y gwr da dynu ‘ei gerdd o’i gòl.’ Byddai yn arferiad cyffredin yn nghapel y Bont i osod brawd i ddechreu yr oedfa o flaen y pregethwr, a byddai y gorchwyl hwnw fynychaf yn disgyn i ran Dafydd William, un o’r blaenoriaid, yr hwn oedd yn hynod o iraidd yn ei ddawn gweddi. Clywais ef yn dyweyd na theimlodd erioed gymaint o awydd dechreu oedfa a’r tro hwn yr oedd Morgan James i bregethu. Teimlai wewyr yn ei enaid am i’r ‘rhwyd gael ei thafu y tudeheu i’r llong;’ a rhedodd y rhan fwyaf o’r ffordd tua’r capel, rhag i’r rhagorfraint ddisgyn i ran rhyw frawd arall, Cyrhaeddodd Dafydd yn brydlon, ac wele ef yn ymaflyd yn y gorchwyl; a dygwyddodd iddo ef fel gyda Danial gynt, ‘yn nechreu ei weddi aeth y gorchymyn allan.’ Gyda fod Dafydd yn dechreu gweddio io, torodd rhyw ddylanwad dychrynlyd ar y dorf. Teimlai pob cydwybod mai bys Duw ydoedd.

“Cefais inau orchwyl y nos hono heblaw edrych sut agwedd oedd ar eraill. Yr oedd yr holl fynydd ger fy mron yn mygu, a chlywn lais yr Arglwydd yn llefaru o ganol y tân, ac heb un Moses rhyngof ag ef. Aeth yn gyfyngdra ar fy enaid na theimlais ei fath erioed. Bum felly am ddyddiau, heb ddim yn y golwg ond colledigaeth. Elwn yn aml i gorneli dirgel i geisio gweddio, ond nid oedd hyny ond ei gyru yn dywyllach fyth arnaf, er hyny nis gallwn beidio myned. Ond un borau wedi codi o’r gwely, pan ar fy ngliniau yn yr ystafell, llewyrchodd amryw adnodau am Grist a’r iachawdwriaeth sydd ynddo i bechadur, mor nerthol ar fy meddwl, nes i mi gael fy mywyd yn y fan. Teimlwn yn llawen fod genyf bechadur euog i’w gyflwyno i’r fath Geidwad.

Y canlyniad fu, i mi benderfynu rhoddi fy hunan i bobl yr Arglwydd yn y cyfarfod eglwysig nesaf. Cefais fy nerbyn yn gynnes, a rhoddwyd i mi gyng-horion a rhybuddion nad aethant yn anghof hyd y dydd hwn. Profais y cyfarfod eglwysig yn llawer amgenach lle nag yr oeddwn wedi arfer meddwl am dano. Ac ni fu yr Arglwydd yn hir cyn galw fy mhriod i mewn i'w dy eilwaith; ac ni chefais le i amheu hyd heddyw na chafodd hithau yr 'enw tra-gwyddol, yr hwn ni thorir ymaith."

Nid oes angen ychwanegu dim at yr hanes cyflawn a dyddorol a rydd Mr. Harries o'i ddychweliad at grefydd. Y mae yn bur debyg i hanes y rhan fwyaf o Gristionogion fyddo wedi derbyn argraffiadau crefyddol, pan yn blant. Pan dyfodd tua deunaw oed, enillodd cyfeillach a balchder y byd y llywod-raeth arno, a chollwyd ei deimladau crefyddol—neu o leiaf, aethant dan gwmwl, hyd chwech ar ugain oed, pryd y dygwyd ef eilwaith trwy ymweliad neillduol o dan argraffiadau dwysach nag erioed, ac y rhoddwyd cyfeiriad newydd i'w fywyd o hyn allan byth.

Ni fu yn proffesu ond oddeutu dwy flynedd cyn dechreu pregethu, oblegyd cawn iddo ddechreu ar waith y weinidogaeth yn y flwyddyn 1814. Fel hyn y dywed ef am ei gychwyniad:—"Yn bnr fuan (wedi ymuno â'r eglwys) teimlais duedd, yn debyg i'r wraig o Samaria, i redeg i ryw le at fy nghymydogion, a gwaeddi, 'Deuwch, gwelwch ddyn, yr hwn a fynegodd i mi yr hyn oll a wnaethum.' Gofynwyd i mi gan rai o'r hen frodyr, a oedd dim ar fy meddwl am 'ddweyd tipyn' yn gyhoeddus. Cyfaddefais ei fod. Gosodasant yr achos ger bron yr eglwys; a dygwyddodd, os dygwydd hefyd, fod yno bedwar o weinidogion yn bresenol ar y pryd, sef y Parchn. J. Humphrey, Caerwys; John Williams, Pantycelyn;

David Parry a Evan Evans, Llanwrtyd. Sefais ger bron y pedwar efengylwr, a dywedais fy nhywydd wrthynt. Gwrandawsant arnaf yn deimladwy, a chefais lawer o gynghorion a chyfarwyddiadau ganddynt fuont o wasanaeth i mi dros ystod fy mywyd. Yn y cyfarfod hwnw cefais ganiatad ac anogaeth i gynyg fy nawn yn y gwasanaeth cyhoeddus. Bu yno dipyn o ddadl pa un ai yn yr eglwys ai yn wyneb y cyhoedd y buasai oreu i mi ddechreu. Dywedodd Mr. Williams. Pantycelyn. nad oedd hyn yn ormod peth i'w adael at ddewis y gwr ieuanc; ac felly y terfynodd y ddadl.

“Ar ol i'r drafodaeth hon basio, deallwn fod awydd cryf yn mysg fy nghyfoedion crefyddol ac anghrefyddol, am glywed y pregethwr newydd, yn enwedig am y waith gyntaf; a theimlwn inau lawn cymaint o awydd am ei siomi. Beth bynag, yn mhen pythefnos, yr oedd y Parch. David Parry (ei dad yn nghyfraith), i bregethu mewn ty ffarm a elwid Cefn-yr-esgair (y chydig bellder o'r pentref).

Aethum yno heb feddwl y buasai yno nemawr o gymydogoeth y Bont. Ceisiwyd genyf ddechreu yr oedfa, a dyweyd tipyn wedi hyn, a gawn ar fy meddwl. Aethum i ben ystol, darllenais ranau o'r gwirionedd, a chefais rwyddineb a phleser wrth geisio gweddio. Ond erbyn i mi orphen, gwelwn y ty yn llawn o feibion a merched o gymydogoeth y Bont, Erbyn hyn teimlwn yn hawddach disgyn oddiar yr ystol, nag aros ar ei phen yn hwy; ond rhwystrwyd fi, a dywedwyd fod yn rhaid i mi ddyweyd tipyn. Yn nghyfyngdra fy meddwl rhoddais y penill hwnw allan—

“Pe llithrwn ddim, gan faint y lliid,
 Fe ddywedid fy ngorchfygu,
 A llawen fyddai fy holl gas,
 Dal fi o'th ras i fyny.”

Effeithiodd y penill ar y gynulleidfa, oblegyd dylwyd y rhan olaf amryw weithiau, ac yn y cyfamser, cefais inau nerth i benderfynu cynyg—nofio neu fodd. Darllenais yr adnod, ‘Pa fodd y diangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint? Heb. ii. 3. Cefais lawer o bleser y tro hwnw, yn nghanol teimladau hynod o gymysglyd, wrth geisio dangos cyflawnder a chymhwysder yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist, a’r pechod o’i hesgeuluso, a gwelodd yr Arglwydd yn dda roddi ei wenau arnom. Testun Mr. Parry ydoedd, ‘Yn siriol wynebpryd y brenin y mae bywyd,’ a rhoddodd yr Arglwydd i ni brofi gwirionedd y testun cyn diwedd yr oedfa. Amseriad yr oedfa hon ydoedd mis Medi, 1814.”

Yn y fan yma y mae yr hanes ysgrifenedd Mr. Harries am dano ei hun yn terfynu. Mewn cyfeiriad at yr oedfa uchod, ysgrifenedd Mr. Elias, diacon patriarchaidd Llanwrtyd, a brawd i’r diweddar Barch. Thos. Elias, atom bum mlynedd yn ol, “Yr wyf yn cofio,” meddai, “yr oedfa hono yn dda, pan wnaeth y cynyg cyntaf ar bregethu. Cyn dechreu yr oedfa, gofynais i Mr. Parry, ‘A fyddai ddim yn well i’ch mab yn nghyfraith ddechreu yr oedfa, a phregethu tipyn o’ch blaen?’ ‘O’r goreu,’ ebai, ar ol ychydig o ystyriaeth; ac felly y bu. Ac nid oedd neb yn proffesu crefydd yn y cyfarfod hwnw, ond y pregethwr ieuanc, y gweinidog, a minau.”

Nid oes genym ond hanes byr, syml i’w adrodd am ei fywyd oddiar ei gychwyniad gyda gwaith y weinidogaeth. Dechreuodd bregethu yn 28aid oed, a daliodd mewn llafur caled a diball o hyny hyd ei fedd. heb esgeuluso y tymhorol na’r ysbrydol. Symudodd o Llanwrtyd yn fuan wedi dechreu pregethu i’r Capel isaf, ac oddiyno i Aberhonddu yn y flwyddyn 1818, lle y bu yn cadw masnach brethynwr am ugain mlynedd. Gan nad oedd cyflog y

weinidogaeth ond prin iawn y dyddiau hyny, a'i deulu yntau yn fawr, hawdd i bawb ddeall mai dyddiau o bryder dwys ac o lafur caled iddo ef oedd yr ugain mlynedd hyny, Cafodd ei ordeinio yn Llangetho yn y flwyddyn 1826, pan yn ddeugain mlwydd oed. Ordeiniwyd pedwar eraill gydag ef yn yr un gymanfa; sef, Evan Rees, Llanon; Daniel Evans, Capel Drindod; Thomas Evans, Caerfyrddin; a Morris Davis, Llanfair-muallt, y rhai oeddent wedi ei ragflaenu ef i ffordd yr holl ddaear lawer o flynyddoedd. Maes penaf ei lafur yn y blynyddoedd hyn oedd Sir Frycheiniog, ond byddai yn gwasanaethu Sabbathau yn fynych yn y siroedd cylchynol, yn enwedig Morgangwg, ac yn rhoddi teithiau achlysurol i bregethu.

Gadawodd Aberhonddu yn y flwyddyn 1837, ac ymsefydlodd yn Dowlais, Sir Forganwg, lle y dygai yr un fasnach yn mlaen. Ond ni fu yno ond pedair blynedd. Yr oedd amryw o'i blant bellach wedi ei adael, a'r teulu wedi eu dwyn i fyny, ac felly rhoddodd y fasnach heibio; symudodd i Ferthyr i fyw, gan ymroddi yn gwbl at waith y weinidogaeth; ac yno y bu yn preswyllo am yr ugain mlynedd diweddfaf o'i oes, hyd nes iddo symud—

“I fydd sydd well i fyw.”

Yn fuan daeth Sir Forganwg yn bryf faes ei lafur, a rhoddodd yntau holl nerth ei ysgwydd dan y gwaith. Nid oedd neb yn gwneyd achos y Methodistiaid trwy y sir yn fwy o achos iddo ei hunan nag Evan Harries; a chydabyddwyd hyn gan yr holl eglwysi trwy roddi ei le iddo yn mysg eu gweinidogion blaenaf. Nid oedd neb ffyddlonach nag ef i ddylun ei gyhoeddiadau trwy bob anhawsderau, nac i ddylun y Cyfarfod Misol, a gwasanaethu y Cyfarfod Misol yn mhob achos ag y byddai galw. Anaml y

byddai cyfarfod blynyddol neu agoriad capel heb ei fod ef yn bresenol; ac enwid ef yn un o'r rhai blaenaf yn wastad i fyned i gynorthwyo eglwysi i ddewis blaenoriaid, i arholi ymgeiswyr am y weinidogaeth, neu i dawelu amrafaelion rhwng pleidiau. Yr oedd yn un o'r rhai goreu i heddychu pleidiau tramgwyddedig. Meddai ar adnabyddiaeth helaeth o'r natur ddynol, ar synwyr craff, a ffraethineb digymhar—cymhwysderau pwysig mewn dyn i fyned rhwng pleidiau terfysglyd. Byddai yn graff ei lygad a thyner ei galon hefyd gydag ymgeiswyr ieuainc am y weinidogaeth. Yr ydym yn cofio ei weled ef a gweindog arall yn myned i le i ymddyddan â glaslanc oedd am fyned i baegethu. Wedi siarad, codai ei gyfaill wrthwynebiad am nad oedd ganddo *lais* da. "Pw!" ebe Harries, "os daw pob peth hyd at *lais*. gwna yn burion. Ydych chi'n cofio Dafydd Rees o Lanfynydd? faint o' stwr a wnaeth e yn y byd, ac yr oedd ei *lais* fel cegan gwydd."

Ac heblaw ei lafur yn y cylchoedd hyn efe oedd penadeiladydd y Cyfundeb yn y sir. Pa le hynag y byddai eisiau capel newydd, neu angen cyfnewid, neu helaethu hen gapelau, byddai yn rhaid cael Mr. Harries i gydymgyngori ac i arolygu. Yr oedd hyn yn cymeryd cyfran helaeth o'i amser, ac yn ychwanegu ei lafur yn fawr. Ac y mae yn iawn dweyd nad oedd hyn yn cael difa dim ar ysbryd pregethu ynddo, nac yn pylu dim ar fin ei weinidogaeth. Yr oedd ganddo gyfansoddiad gwydn a chadarn, ac nid arbedwyd ef erioed mewn gweithio na theithio. Ac os na chafodd ddim nanteision addysg, ac nad oedd ei fyfyrgeall a'i ddarlleniad ond cyfyng, ac er ei fod yn treulio ei ugain mlynedd diweddaf yn mysg oes bur wahanol i'r hon y treuliodd ei ugain mlynedd cyntaf ynddi, eto, nid yn unig cadwodd ei *bollogrwydd* yn ddianaf, ond yr oedd yn fwy poblo-

gaidd yn mysg pob dcsbarth yn y deng mlynedd diweddaſ o'i fywyd nag erioed. Bu farw yn nghanol ei lafur, yn nghanol ei boblogrwydd, ac yn nghanol anwyldeb ei frodyr. Cafodd fyned adref i'r nefoedd cyn iddo ef fyned yn un gradd o rwystr ar ffordd yr eglwysi, na'r eglwysi yn flinder iddo yntau, er iddo gyrhaedd oedran mor fawr.

Yr un pethau ag a'i cymhwysent at lawr o orchwylion eraill, a'i cymhwysent i fod yn *gasglwr arian* digyffelyb. Nid oedd neb yn medru y ffordd i bocedau dynion yn well na Harries, na neb dynai fwy allan o honynt. Am hyny efe yn mhob cyfarfod fyddai i ddyweyd am y casgliad. Casglodd filoedd o bunau at wahanol achosion i'r Cyfundeb. Gorchwyl digon anhawdd, a champ nad yw pawb yn medru arni, yw cael gan ddynion ymadael â'u harian. Nid y pregethwr mwyaf bob amser yw y casglydd gareu, ac nid y ffordd fwyaf effeithiol i dynu arian yw gwasgu ar y bobl eu *dyledswyddau* i gyfranu. Gwyddai Mr. Harries yn dda pa dymher oedd y goreu i gyffroi y bobl i rhoddi. Gwyddai nad oedd gobaith am gasgliad da heb godi y meddwl i londer siriol; ac os medrai rhyw un gynyrchu y dymher hon, Harries oedd y gwr. Dywedai ef yn gryf yn erbyn y *tea parties* a'r darlithiau i gasglu arian at achos crefydd; fod eisiau "rhyw beth gwell na thé a choffi i droi yr hen *wheel* fawr." Yr hen greadur! yr oedd ei *wit* a'i ffraethineb ef yn fwy cynhyrfus na chwpanaid o'r coffi goreu werthodd John Cassell erioed, a dylasai gofio nad oedd yr offer hyny gan lawb.

Yr ydym yn ei gofio unwaith yn codi i fyny yn y pwlpudd, ac yn dywed, "Mae tri pheth mewn *beggar* yn help mawr iddo fod yn llwyddianus: yn gyntaf, ei fod yn hen; yn ail, ei fod yn deneu; ac yn drydydd, fod ei lais yn crynu. Mae y tri chymhwysder hyn

ynof fi; ac y mae yn bosibl mai dyna y rheswm y ceisia fy mrodyr genyf fi mor fynych i ddyfod *ifejian*. Yr wyf fi, ffordd bynag, yn ddigon hen, yn ddigon teneu, ac yn ddigon crynedig."

Ond er cadarned cyfansoddiad, ac er bywioced ysbryd, nid oes dysgwyl i ddyn bara byth. Aeth Harries at ei gyhoeddiad, dros ugain milldir o ffordd, y Sabbath olaf ond un y bu fwy, sef Tach. 11, 1861. Yr oedd wedi bwriadu hefyd myned yn ei flaen oddi-yno i'r Cyfarfod Misol; ond teimlai ei hunan yn rhy lesg boreu dydd Llun, a dychwelodd adref, heb feddwl fawr ychwaith fod y gelyn diweddaf wedi gosod ei law arno. Aeth i roi tro byr allan dydd Mawrth, a hwnw oedd yr olaf. Oddiar hyn gwaelodd yn gyflym, ac aeth ei gof i ballu. Dydd Mawrth pen yr wythnos, sef Tach. 19eg, ymaflodd Mrs. Harries yn ei law, a synwyd hi wrth ei chael mor oer. Torodd allan i wylo; ond trodd yntau olwg fywiog ati, a dywedodd, "Pw, Pw! Maria, peidiwch a bod yn blentyn! 'Dysgwyl yn ddystaw am iachawd-wriaeth yr Arglwydd." Yn fuan daeth y meddyg i mewn, a dywedodd Mr. Harries wrtho, 'Doctor! yr ydych wedi gwella llawer, ond'd ellwch chwi ddim fy ngwella i; wna dim y tro heddyw ond ffydd yn Nghrist. Gweddïwch dros of, yr wyf fi yn gweddïo dros och chwi."

Parhaodd ei gorph i wanychu, a'i ffydd gryfhau. Dywedai yn ddifloesgni ei hunan air y wraig hono, y bu yn pregethu llawer arno, "Y mae pob peth yn dda;" a bod "y gwaed wedi clirio y cwbl" iddo. "Mae yr hen Fethodistiaid yn glynu yn dda yr ochr hyn," meddai wrth frawd oedd yn eistedd wrth erchwyn y gwely, "ond," meddai, gan roddi tafliad i'w law, "beth am dani yr ochr draw? byddaf fi yno yn fuan gyda'r pedair mil a'r saith ugeinmil." Ychydig a ddywedodd ar ol hyn; a thrwy y nos dyodde-

fai yn fud a thawel, tra yr oedd angau yn prysur ddatod y cylymau agos rhwng y marwol a'r anfarwol. Boreu dranoeth, am naw o'r gloch, dydd Marcher, yr 20fed o Dachwedd, 1861, ehedodd ei ysbryd at Dduw, pan yn ei 76ain mlwydd o'i oedran.

Dydd Mawrth canlynol, am haner dydd, cymryd ei gorph o'r ty i gapel Pontmorlais. Dechreuwyd y gwasanaeth yno trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. B. Evans, a phregethodd y Parchn. J. Walters, Ydtradgynlais, a D. Howells, Abertawy. Testun y blaenaf oedd, "Y cyflawn a obeithia pan fyddo yn marw;" a thestun yr olaf, "Dos dithau hyd y diwedd; canys gorphwysi, ac a sefi yn dy ran yn niwedd y dyddiau." Yna ffurfiwyd yr orymdaith i fyned i lawr tua chapel y Graig, ryw ddwy filldir islaw Merthyr, lle y rhoddwyd ei gorph i orwedd hyd foren yr adgyfodiad. Dygwyddodd fod yn ddiwrnod hynod o wlyb ac ystormus, a chadwodd hyny lawer o ganoedd rhag dyfod i'r cladde-digaeth. Ar lan y bedd gwnaeth y Parch. R. Lumley ychydig o nodiadau hynod effeithiol oddiwrth y frawddeg, "Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno;" a gweddiodd y Parch. E. Thomas.

Er fod ganddo law-ysgrifen dlos ddigon, nad ydym yn gwybod iddo erioed ddarparu ysgrif i'r wasg. Fel y rhan fwyaf o ddynion cyhoeddus ac annghyhoedd, disgynodd ffittiau o yspryd prydyddu arno yntau ryw ddwy waith neu dair yn ystod ei oes. Y cynyg cyntaf o'i eiddo yn ol dim a gawsom ar ddeall ydoedd Galargan i Dafydd Rees, Llanfynydd. Methwyd cael ond ychydig linellau o honi; ond y mae hyny yn ddigon i ddangos ei nodwedd, ac i brofi er nad oedd yn gystal llaw ar brydyddu ag oedd ar bregethu, eto ei fod yn cynyg yn o lew:—

" 'Nawr mi glywaf alarnadu,
 O Gaergybi, Mon, i Fynwy,
 Am un o weithwyr dewr y winllan,
 Sydd wedi gorphen a myn'd allan.
 Dafydd Rees o blwyf Llanfynydd,
 Yr hwn a hunodd yn yr Aglwydd;
 Adref aeth i ben ei daeth
 I chwareu maith danau
 Y delyn fawr yn mysg y seintiau,
 O glod didrai i'r hwn fu'n dyoddau.

Ar ei daith yn mhell o gartre
 Cyfarfu Dafydd a'r glas angau;
 Yn Mhontypridd, yn sir Forganwg,
 Machludodd seren olau o'r golwg;

Llaur sydd o dd'rogan drygau,
 Pan fo'r cyflawn yn myn'd adrau;
 Sion, Sion, paid a chwynfan,
 Ar ei rwn gadaws ei gryman."

Gan i Dafydd Rees farw yn y flwyddyn 1818, pan
 nad oedd Harries ond 32ain oed, tebyg iddo gyfan-
 soddi yr uchod yn ei ddydd goreu. Aeth 36ain o
 flynyddoedd heibio ar ol cyfansoddi yr uchod cyn
 iddo wneyd y rhigwm canlynol, mewn llythyr at y
 Parch, D. Phillips, Maesteg:—

"Yr ysgrif hon sydd i hysbysu
 Fy anwyl frodyr yn y Llwyni,
 Fy mod eleni fel y llynedd,
 Ar fy nhraed yn llesg fy agwedd;
 Eto yr wyf yn meddwl dyfod,
 Mewn gobaith deuwch i'm cyfarfod,
 Fel y llynedd, felly 'leni.
 I'm dwyn o Gastellnedd i'r Llwyni.
 'Rwy'n cyflwyno hwn yn unig
 I law Golygydd gwych yr OENIG,
 Ac yn taer ddymunio arno,
 Ei hysbysu'n lle'i anngloffo."

Yr un flwyddyn, sef pan tua 70ain oed, y gyrodd i ni y canlynol, ac y mae y cyntaf o'r ddau benill yn dangos fod ganddo amcan go lew am englyn:—

„Oenig yn ddiddig a ddaeth—i'n lloni
A llawnder ei lluniaeth;

Ar gam* daw trwy'r gym'dogaeth *dan gerdded
Deuwch, Gymry! mae'n meddu maeth.

Rhowch i'r OENIG borfa iach,
F'e ddaw'r un fach yn gryfach;
Na faged fyth o dan ei chroen
Un dim o duedd aflach.”



ENGLYNION AR FARWOLAETH Y PARCH.
EVAN HARRIES.

GAN WILLIAM MORGAN, ABERDAR.

Cymry lan heddyw gana—alarnad!

Ol oernych sydd yna!
Ar y bedd er diwedd da,
Athrylith a hir wyla

Arabedd a dry heibio,—syn aethus,

Hon weithian sy'n wylu,
A chywir fryd uwch oer fro,
Y gwr anwyl geir yno!

Ond y ddwy chwaer, nid oedd i chwi,—yna

Yn unig hir sengl;
E ddaw rhai wylant ddwr heli
Yn halltach a chwrwach na chwi.

Methodistiaid, rhaid rhedeg—hyd atynt,

Eto llu'n ychwaneg
O'i gu wladwr goleudef,
A berw'n don trwy'u bron deg!

Y duwinydd da'i anian,—cu Harries,

Cerir ei orweddfan;
Lle bo'r Gymraeg loywaeg lan,
Yno hefyd cawn Ifan.

Yn gofus, enwog hefyd,—a'i genedl

Gwyna drwy yr hollfyd;
Ar bob gris taena tristyd,
Galar oer glywir o hyd!

Yn ein byw ni chawn glywed—ei ffraeth-lith

Ffrwythlawn mwy, na'i weled!
Ond ar ol hyn daw ar led
Ddawn eraill i'w ddynwared.

Un Harries i ni yrwyd,—un wnaeth Duw,

Pan wnaeth y dyn gladdwyd;
Anhoff cael un ffug gwyd
I le'r gwr a lwyr garwyd

PENNOD III.

EI NODWEDDION FEL PREGETHWYR.

A WELSOCH chwi Evan Harries yn y pulpud? Os do, diau fod darlun cywir o hono yn eich cof, a bydd eich adgof chwi yn rhyw beth tuag at gyflawni y disgrifiad a ganlyn o hono. Er ei fod yn un o'r pregethwyr cyntaf ydym yn gofio, eto yr oedd yn tynu at ei ddeugain oed cyn i ni ffurfio dim cydnabyddiaeth ag ef; ond am yr ugain mlynedd diweddaaf o'i fywyd buom gydnabyddus iawn ag ef.

Corph cyffredin o ran maintioli oedd ganddo, ond o gyfansoddiad cadarn a gwydn; daliodd dan bwysau agos i bedwar ugain mlynedd, beichiog o lafur a blinderau, heb grymu nemawr ddim. Yr oedd ei wyneb yn deneu, esgyrn ei ruddiau yn fawr ac uchel, a'i drwyn yn o fawr a Rhufeinig. Gogoniant ei wyneb oedd ei lygad—nid ei liw, na'i faint, ond ei fywiogrwydd tanlyd. Byddai llymder bywiog a digofus ei lygad weithiau yn llewyrchu ei holl wyneb nes gwneyd ei wedd yn arswydus. Gwelai llawer debygolrwydd yn ei wyneb i Dduc Wellington. Yr oedd tebygolrwydd yn ddiau yn y trwyn ac esgyrn y gruddiau, a byddai yr hen frawd yn foddllawn iawn glywed coffa hyny. Yr oedd, fel y dywedwyd, er yn blentyn o dymher lon, fraeth, digrifol.

Yr ydym yn dyfynu a ganlyn o ysgrif ragorol a ymddangosodd arno yn y *Drysorfa* am Ionawr, 1862, wedi ei hysgrifenu gan John Howell, Ysw, Pencoed:—"Mynych y gwelid ef yn sefyll yn syn yn y pwlpud, gan edrych yn graffo'i amgylch i fyny ac i lawr, yn ol ac yn mlaen, fel un yn edrych am ryw beth, ond yn methu a'i weled fel pe busai y meddwl yn beichiogi ar ryw olygiad, ond yn anadd-

fed i esgor arno. Ond ar ol iddo fel hyn enill digon o sylw ei wrandawyr, a'u parotol mewn dysgwyl- iad, deuai y drychfeddwl allan fel tân byw i fysg y dyrfa. Yr oedd bywiogrwydd ei olwg, a threidd- garwch ei edrychiad, yn hynod fanteisiol iddo gadw ei wrandawyr mewn gwedd ddefirous. Teimlid mor anhawdd meithrin cysgadurwydd dan ei weinidogaeth a neb dynion.

“Ceid yn ei ddywediadau lawer o feddyliau cyffro- us a difyr iawn, fel y byddai yn dra anhawdd i'r mwyaf sobr ei edrychiad, a phwysig ei feddwl lai na gwenu, ac i ryw rai ysgafnach eu tymher chwerthin hyd siglo, gan mor ddigrif a phert y gwisgai y syn- iad : ond medrai efe ddal heb un wên ysgafn arno pan fyddai ei wrandawyr bron ymdori o dan y cyff- road a effeithid ar eu tymherau. Nis gellid meddwl fod hyn yn amcan ganddo, neu ei fod yn parotol y pethau mwyaf tebyg i lwyddo at hyn yma, ond yn hytrach fod hyn yn ddawn naturiol ynndo a fyddai bob amser yn dyfod lawn gymaint i'r golwg yn ei ymddyddanion cyffredin.

“Yr ydoedd yn ddyn cywir, sefydlog, a penderfyn- ol ; gellid rhoi ymddiried ynndo y ceid ef y peth yr ymddangosai ei fod. Ni cheid ynndo ymchwydd hunanol, na gormod o duedd i roi pris uchel ar ei olygiadau ei hun pan yn mysg ei frodyr ; ond yn hytrach yn ystwyth i gwympo i mewn â'r dull gor- eu o gario pob peth yn mlaen, ac i gydweithredu a'i frodyr mewn parodrwydd.

“Yr oedd ei weinidogaeth yn rymus a gafaelgar, ac o duedd argyhoeddiadol a tharanllyd. Dangos- ai drefn achub pechadur yu oleu, a gafaelai ei beth- au yn ddwfn yn nghydwybodau ei wrandawyr. Dos- barthai ei faterion yn drefnus a chryno, fel y gellid meddwl fod ei wrandawyr yn dal ac yn cofio cym- aint o'i bregethau, os nid mwy, na neb o'i frodyr.

Byddai yn egniol iawn yn y gwaith pan yn traddodi, o ran ei gorph a'i ysbryd. Cai yr oll o hono wneyd ei ran yn y gwaith. Gwnai gryn ystwr yn y pwlpudd rhwng ei draed a'i ddwyllaw, a chai yr estyllen a'r Bibl brofi hyny fynychaf. Mynai selio ei ddywediadau â, i law ac â'i droed."

Darn o gynyrch naturiol brynau Brycheiniog ydoedd Evan Harries, heb gael fawr o'i gaboll erioed gan addysg yr ysgolion na'r colegau. Nid oedd yn ddyn o feddwl nac amgyffredion nerthoi iawn; ond yr oedd yn wreiddiol ac annibynol. Nid ydoedd yn bregethwr mawr; ond yr oedd yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd. Nid oedd syniadau ei bregethau yn ddwfn nac yn newydd; ond meddai ar athrylith arbenig i wisgo y syniadau mwyaf cyffredin mewn gwisg mor newydd a tharawiadol, nes y cai y dwl a'r doeth yn nghyd wledd wrth wrando arno. Yr oedd ganddo ei ffordd ei hun i drin pob pwnc, ac nid oedd perygl iddo golli sylw ei wrandawyr tra y byddai wrtho. Yr oedd ei ysbryd a'i dymher yn llawn o elfenau tanllyd; a gwelsom ei bwnc yn rhoddi ei holl enaid yn fflagl weithiau cyn pen deng mynyd ar ol darllen ei destun. Yr oedd pob gwyn o'i gorph ar dori—y chwys yn cwympo fel gwlaw, a'i lygaid yn melltenu i fyw llygaid y gynulleidfa. Fel hyn byddai ei nerth mewn perygl o losgi allan cyn diwedd y bregeth.

Os mai y dyn mawr ydyw "yr hwn y mae natur wedi ei wenyd yr hyn ydyw, a'r hwn nad yw byth yn peri i ni feddwl am neb arall," yr ydoedd Evan Harries yn ddyn mawr. Yr oedd yn ddyn gwreiddiol diorchest, ac mor hawdd iddo fod yr hyn ydoedd ag ydyw i'r halen fod yn hallt, neu siwgr yn felus. Ac, fel pob dyn, yr oedd yn gallu gwneyd ei bethau rhagoraf hawddaf. Nid o lyfrau y byddai yn cael defnyddiau ei bregethau, ond o amgylchiadau a dy-

gwyddiadau bywyd. "*Real life*" ydoedd y llyfryr astudiodd fwyaf arno, a llwyddodd i ddeall y natur ddynol yn dda. Troai bob amgylchiad a ddygwyddai yn faeth i'w weinidogaeth, fel y mae y llyisiau yn troi y clai a'r gwlybwr yn ymborth i'r anifeilaid.

Dacw ef yn codi i fyny yn y pwlpudd. Y mae golwg sarug arno. Y fath drem lem dafla ar y gynulleidfa wrth dynu ei yspectol o'i boced, a rhoi carthiad byr i'w wddf cyn rhoi penill allan. Y mae ei wyneb yn grych ae esgyrnog, ei wallt yn llwydwyn a theneu, a'i lais yn ddwfn ac isel. Rhydd y penill allan yn ofalus a chras, gan roddi ysgydwad i'w ben, fel i roddi cwlwm ar bob corfaniad yn y llinell. Byddai hwn yn benill cyffredin ganddo o flain pregeth :—

"Perffeithia, Ior, dy nerth sydd fawr,
Yn wyneb dirfawr wendid;
Rho i'r newynog tlawd a chaeth
Ysbrydol faeth a rhyddid."

Yn awr, gyda'r yspectol ar ei drwyn, dywed : "Y mae y geiriau sydd ar fy meddwl i'w darllen i'w gweled yn ysgrifenedig ym——:" a rhoddai gymaint o bwyslais ar y frawddeg uchod a dim addwyddai. Wedi darllen y testun, canlynai mynyd o ddistawrwydd hollol tra fyddai yn tynu ei yspectol yn bwylllog, yn gosod ei ail fys am y naill glust iddi, ac yn gosod ei law a hithau ar ben ei glin. Tafla olwg fud eto dros y gynulleidfa, nes y mae pob calon yn dymuno am i'r dystawrwydd gael ei dori. Ac odid fawr. pan ddaw y gair hir ddysgwylidig, na fydd yn frawddeg gynwysfawr, darawiadol, fraeth neu ddigrifol, nes taflu gwên foddhaol dros yr holl gynulleidfa. Byddai rhagymadrodd y bregeth bob amser yn ddarn pwysig o honi, ac efallai y mwyaf cywrain a difyr. Nid am y byddai ef wedi cyfan-

soddi felly, oblegyd ar ei bapyr ni fyddai ganddo yn gyffredin ond rhyw ddwsin neu ddau o linellau, yn marcio y cyfeiriad a gymerai, heb ddim ffrwyth llafur nac arbedd i'w weled ynddynt. Yn y *llanw* ar y pryd yr oedd holl ddefnydd y dyddordeb. Ni fyddai dim tarawiadol, fel rheol, yn rhaniad ei destun, ond a wnelai ef ar y pryd yn nglyn a'r rhaniad. Byddai yn sicr o ddweyd rhyw beth yn nglyn a'r rhaniad a'i gwnelai yn glywadwy a chofiadwy i bawb. Yr ydym yn wir yn cofio rhai testunau ganddo â chywreinrwydd hynod yn eu rhaniadau, fel y cawu nodi.

Biid ei chwaeth yn fynych gan y dosbarth mwyaf coethedig; ac felly y gwneir bob vmser â pherchenogion athrylith fyddont wedi eu codi rhwng y mynyddoedd, ac heb erioed eu darostwng dan gablyniad addysg a chymdeithas.

Yr ydym yn cofio ei glywed yn pregethu gyda hwyl a nerth anarferof ar y geiriau hynny—"A agori di dy lygaid ar y fath yma?" Yn fuan ar ol dechreu dywedodd, "Y mae genaf lythyr heno wedi ei ddwyn yma, a'r neges sydd genaf yw, chwilio am y gwr sydd i'w dderbyn. Gwyddoch, pan y mae y *postman* yn cael llythyr, nad ei roi i'r cyntaf gwrrddo y mae, ond ei gario i'r gwr sydd â'i enw ar ei gefn. Y mae genyf finau lythyr, a'r enw sydd ar ei gefn yw, 'fath yma;' ac yr wyf yn myned yn awr i chwilio am dano. A gewch chwi afael arno? Caf, mi w'ranta. Yu mha le? Ydyw ef ddim yn eich ty chwi? Yn awr y mae genyf bedwar marc i'w adnabod. 1. 'Dyn a aned o wraig' ydyw. Wel, y mae pawb wedi eu geni o wragedd. Na, stobwch dipyn. Fi glywais am fachgan *pert* fu yn y byd yma unwaith, tua gardd Eden acw, heb un brycheuyn arno; ond'd oedd hwnw ddim wedi ei eni o wraig. Nid dyna y "fath yma." Ond os awn yn mlaen gam, at

y cyntaf "a aned o wraig," mab ei fam bob tamaid oedd:—dyna'r "fath yma." 2. Un "byr o ddyddiau" ydyw. 3. Un "llawn o helbul" ydyw. Mae llawer o ymgais yn y byd i gadw rhag yr helbul, ond mae y gair o hyd yn para yn wir, "llawn o helbul." Mae llawer dyn yn cadw stwr o eisiau cael newid ei 'stol, er mwyn cael gwared o'i helbul, ond nid eisiau newid y 'stol sy, ond newid y gwr sy'n eistedd arni. Mae llawer yn myp'd oddiwrthym ni tuag America ac Awstralia y dyddiau hyn, gael ysgoi yr helbul, ond y maent yn myn'd yn erbyn ei dalcen. 4. "Efe a gilia fel cysgod ac ni saif." Hanes y byd hwn trwyddo yw "ni saif." Dyna ddywed un, Fi dreuliais i bum cant o bunau i godi fy mab yn 'ffeir'ad. Gwrando! ar ol dy holl gost a dy helbul, saif y 'ffeir'ad ddim! Fe dreuliais inau gymaint a feddwn i godi fy mab yn siopwr. Saif y siopwr ddim! Ydych chi'n dyweyd y tor y siop? Nac ydwyf; ond os na thor y siop, fe dor y siopwr! "Ni saif." Yr oedd y cymhariaethau a ddygai i egluro nodweddion a blinderau bywyd dyn, y pethau mwyaf digrif weithian, difrifol bryd arall, a'r cwbl mor gyffrous, fel y cadwodd fil o ddynton yn y teimlad mwyaf bywiog a brwd, am yn agos i awr o amser. Yr oedd canoedd, nid yn unig â'u llygaid a'u clustiau, ond â'u cegau hefyd yn agored, ac heb gofio cymeryd hamdden i lyncu "dwfr eu hanadl" dros ystod y bregeth. Un foment torai pwff o chwerrthin uchel dros yr holl le; pryd arall codai byrlymiad o ddagrau mewn mil o lygaid; a chyn y byddai y deigrin wedi cyrhaedd yr en, byddent yn chwerrthin yn galonog eilwaith. "Wel dyn byw," meddai gwr dyeithr yn ein hymyl, wrth edrych ar ei oriawr,— "dyna'r awr fyraf a'r ryfeddaf a dreuliais crioed."

Pan gaffai hwyl, a byddai yn lled sicr o honi, cymysgai y digrifol a'r difrifol gyda medrusrwydd ec

effeitholdeb rhyfeddol, fel y byddai gwynebau llawer yn y gynulleidfa yn cymeryd arnynt gymysgedd o ffurfiau anhawdd i'w disgrifio. Tybiwn y byddai yn chwareu ambell gast weithau i oglais yr hwyl pan fyddai yn pallu dod. Yr ydym yn cofio ei wel-ed unwaith, yn lled ddiweddar, pan oedd yr olwynion yn tueddu i droi yn hwydrwm, yn sefyll, yn syth a mud ar galon ei bregeth, gan bwysu ei ddwy-law o bob tu i'w feingefn. Safai felly am gryn amser, a'i lygaid yn syllu yn llym a thanlyd ar y bobl. Yn y man, torai ar y dystawrwydd, a dywedai;—“Y mae fy nghefn yn dost iawn!” Dystawrwydd wed'yn am rai eiliadau; yna gyda llais uwch bloeddi-ai:—“Ond phrisiwn ni fawr am fy nghefn pe cawn y gwynt o'm hochr.” Gyda y gair wele y gynulleidfa yn gwenu, ac yn bywiogi, a bywiogrwydd y bobl yn taraw yn ol ar ysbryd yr hen bregethwres oedd y bregethwr, y pregeth, a'r gynulleidfa yn nofio yn y fan.

Tybiwn mai ei brif nodweddion fel pregethwr ydoedd craffder llygad, *wit* ddifedur, gwreiddioldeb tarawiadol yn ei ddull o draddodi, a llonaid mynwes o deimlad, yr hwn, pan gynhyrſid ef, oedd yn ysgwyd ei gorph fel cedrwydden mewn corwynt, yn gwneyd i'w chwys ddiferu fel gwlaw, a'i lygaid tanbaid i wreichioni, tra v taffai ei frawddegau ffraethbert gydag ysgydiad ci ben, ergydiad ei law agored, a tharawiad ei droed, nes bydai yr holl dy yn seinio. Byddai yn cloi ei bwnc i fyny weithiau yn rymus a dymunol. Unwaith, pan yn nghanol ei hwyl oreu, pan oedd ei holl ysbryd yn berwi gan deimlad, a'r canoedd yn crogi wrth ei wefus, disgrifiai barodrwydd Duw i faddeu, a gwrthnysigrwydd y pechadur i dderbyn maddeuant. Yr oedd yr ymdoriad tanlyd yn cynyddu fwy-fwy, y brawddegau yn dyfod yn fwy cynwysfawr, byr, a tharawad-

ol, a gwedd y pregethwr yn myned yn fwy llym a digofus. Yr oedd anadl y gynulleidfa wedi sefyll, a phob wyneb yn synwelw a diysgog. Ofnid, os parhâai y cynhyrriad i gynyddu am fynydd arall, y buasai y canlyniad yn bwysig. Ond ar darwiad, dacw ef yn tewi. Arosodd yn fud am eiliad neu ddau, er fod yn hawdd deall fod y teimlad o'i fewn yn para i groni. Yr oedd y mudandod hwn yn annyoddefol. Yna gwaeddodd allan ar dop ei lais,—“Bechadur! cyfyng fydd hi arnat yn y man! *talw nis gelli, maddeuant ni fyndi, carchar ti gei!*” Yr oedd y nerth a'r dylanwad yn llewygol ar y gynulleidfa. Clywsom ef yn pregethu ganwaith; ond y tro hwn oedd y mwyaf grymus erioed.

Un peth hynod am dano ydoed iddo ddal yn ei boblogrwydd hyd ei fedd, er iddo gael byw hyd ymyl y pedwar ugain. Nid gyda un dosbarth ychwaith yr oedd yn boblogaidd; ond gyda phob dosbarth—dysgedig ac annysgedig, coeth a gwledig—

Cadwai wen siriol ar wyneb athraw y coleg, oedd â'r D. D. ar ol ei enw, wrth ei wrando, ac ar wyneb Shoni y labrwr yr un pryd. Un peth sydd yn rhoddi cyfrif am hyn yw, mai yn y dyn yr oedd yr hynodrwydd, ac nid yn ei gyfansoddiad; yn y pregethwr, yn fwy nag yn ei bregeth. Y mae yn anmhosibl cael syniad cywir am bregeth E. Harries heb gael E. Harries i'w thraddodi. Byddai yn wahanol iawn ar y papyr i'r hyn fuasai o'i enau ef. Felly yr oedd, o ran hyny, gyda Robert Hall, ac felly yr oedd gyda John Elias, ac fe allai gyda phregethwyr mwyaf poblogaidd pob gwlad ac oes. Y mae dosbarth arall i'r gwrthwyneb—yn fwy yn y llyfr nag yn y pwlpudd. Felly yr oedd Charles Caerfyrddin, ac felly John Foster. Ar y papyr y gwelwyd eu rhagoriaeth penaf hwy. Yn eu hoes eu hunain y mae mwyaf o son am y blaenaf; ond wedi iddynt farw y

mae y lluaws yn dechreu clodfori yr olaf. Perthyn i'r blaenaf oedd Mr. Harries.

Yr oedd ei gymhariaethau yn gyffredin yn ddigrifol ac yn ymylu ar y rhy isel, yr hyn a'i gwnelai yn fwy tarawiadol i'r lluaws. Nid oeddynt byth uwchlauw cyrhaedd yr holl bobl. Nid aflonyddai efe un amser ar yr haul, y lloer, y ser, y planedau, na deddfau y greadigaeth, am eu gwasanaeth i egluro ei bwnc, Os na chai yr eglurhad pwrpasol yn y Bibl, gwell ganddo ef fyned i'r aelwyd, i'r siop, i'r llaw-weithfa, neu y pwll glo, am gymhariaethau; a byddai yn sicr o ddwyn cymhariaeth a dynai sylw, os na chyffroai beirianau chwerthin pob un. Yr ydym yn cofio ei fod unwaith yn gadeirydd mewn cyfarfod lle y traddodid araeth ar y *Maine Law*, gan un o'i phrif gefnogwyr Cymreig. Dangosodd yr areithiwr fod amcan dirwest a'r *Maine Law* yr un. ond fod y llwybr i'w gyrhaedd yn wahanol. Wedi i'r areithiwr eistedd, cododd Harries ar ei draed, Edrychai yn hynod o'r *comical* ar y bobl, a dywedodd mewn cystal tòn a hwyl ag y siaradodd erioed yr hanesyn digrifol a ganlyn:—"Yr wyf yn cofio fod hen gath gan fy nhad, na fu o'i bath erioed am fwyta canwyllau. Pan yn achwyn arni wrth gymydog, cynghorwyd ef i serio trwyn y gath â haiarn poeth, os daliai hi gyda'r canwyllau drachefn. Felly treiwyd yr *experiment*. Ond welsoch chwi erioed shwd beth—yr oedd y gath yn bwyta canwyllau wedi'n cynddrwg ag erioed. 'Fe weda i ti beth raid wneyd,' ebe nhad wrth fy mam, 'os wyt ti am i'r gath beidio bwyta canwyllau—hongian hwy dan y llofft.' A'r unig ffordd gafwyd i wella y gath oedd, trwy godi y canwyllau allan o'i chyrhaedd. Yn awr, gan fod dirwest yn methu cael genych chwi adael yr hen ddioden, y mae fy mrawd am wneyd â hi yr un fath ag y gwnaeth fy mam â'r canwyllau—ei hong-

ian dan y llofft." Ni raid dyweyd wrth y ddarllen-ydd fod y gynulleidfa wedi coll pob llywodraeth ar ni ei hun, a'r chwerthin mawr wedi trydanu pob un, ond y siaradwr; yr oedd efe mor sobr a phe buasai ar ei liniau. Annghofiwyd sylwadau campus yr ar-eithiwr, ac ni chlywid son am ddim y dyddiau canlynol, i mewn nac allan, ond am gymhariaeth ddigrifol y cadeirydd.

Byddai yn fynych yn gwneyd defnydd o eiriau go newydd, neu a ddygwyd i arferiad diweddar, yn y pwlpud weithiau, fel gwatwareg ar y rhai a'u harferent, a phryd arall er cyffroi sywl ei wrandawyr. Anfynych y blinid ef â chynulleidfa gysglyd a marwaidd; a phan ddygwyddai hyny, yr oedd yn annyoddofol iddo, Byddai yn rhaid iddo feddwl am ryw lwybr dioed i gael pethau o'r cyflwr hwnw; a'i ddyfais yn fynych fyddai myned a chwæreu â gair. Bu i bob un o'r geiriau canlynol eu tymhor. "Dydd-*orol*"—"er enghraifft"—a "*champus*." Ar un o'r troion diweddar y gwelsom ef, yr oedd wedi cael ei oglais yn fawr gan y gair "*gogoniantau*," yr hwn a glywodd mewn pregeth gan frawd o enwad arall. Llauer gwaith y gwnaeth i gynulleidfa farwaidd a-gor eu llygaid a'u cegau a gwneyd gwyneb mor llon a llygad y dydd, wrth ei sylwadau digrifol ar un o'r geiriau hyn. "*Mae genyf enghraifft ar hyn*," meddai. "Doedd dim son am enghraifft ys llauer dydd; ond y mae yn rhaid cael enghraifft yn awr am bob peth. Wel, er enghraifft, ynte." Yr oedd gwedd ddigrifol ei wyneb, ysgydwadau tradanol ei ben, ac yn enwedig tòn ddyeithriol ei lais, tra yn myned dros y rhibyn yna, agos ddigon i beri i'r meinciau chwerthin.

Gwnelai gyfeiriadan at y iaith Saesneg weithiau i bwrpas cyffelyb, gan nad oedd ei hun yn rhyw lawer o Sais. Dyfynai hefyd ambell linell neu henill

Saesneg i roi clo ar ei bwnc yn ddestlus ac effeithiol iawn. Clywsom ef droion yn gwneyd defnydd o benill o'r *Spiritual Railway* yn dra llwyddianus.

"Yn awr, f'eneidiau," meddai, gan daro ei law agored allan, a chawod o chwys yn cwympo oddi wrth ei wyneb a'i wallt gyda'r ysgytiad, "mae gan Dduw ffordd i fyned â chwi i ogoniant—edifeirwch yw y *station* i fyned iddi. Yr ydych yn cael cyfleuserau mynych. Trowch i mewn heddyw rhag ofn i chwi golli y *train* :—

"Come now, poor sinner, now's the time,
In any station on the line;
If you'll repent and turn from sin,
The train will stop and take you in."

Yr oedd ei arafwch, ei bwyslais trwm, a chodiad ei lais wrth fyned dros y linell olaf, yn hynod o darawiadol. Yr ydym yn cofio dylanwad rhyfeddol un tro pan wnaeth gyfeiriad ar ei bregeth at y ffordd haiarn. Dangos effeithiolrwydd trefn gras ydoedd ar gyfer y bechadur gwaelaf ac iselaf. "Ni waeth gan y môr pa un ai y *Great Eastern* meu y cowch corwgl fyddo ar ei gefn; ni waeth gan y *train* pa un ai cloff neu ddisgloff fyddoch, pa un ai stiff ai ystwyth fyddo eich cymalau. Gwelais hen wraig gloff a llesg yn myned at y *station* y dydd o'r blaen, yn cael ei chynnal rhwng dau; ond unwaith y cyrhaeddodd y cerbyd, collodd ei chloffni. Teithiai mor hwylus a'r llanc boch-goch neu sweiier y *first class*. Mae pawb yn colli eu cloffni a'u llesgedd yn y *train*. Beth sydd yno? *Fordd y South Wales Railway Company*. Y mae gan Dduw ffordd, f'enidiau! 'ffordd iachawdwriaeth,' yn arwain 'O ganol byd i ganol nef:'—ffordd wedi ei chysegru i ni â gwaed. Yr wyf fi wedi cael commisiwn gan ei pherchen i ddyfod i'w hysbysu i chwi; i alw y cloffion, y deill-

ion, yr anafusion, a'r tlodion i ffordd iachawdwr-iaeth. Glynwch wrth y cerbyd, f'eneidiau, a chwi gollwch eich cloffni a'ch llesgedd am dragwyddoldeb. Cewch eich *bookio through*—

“O ganol byd i ganol nef.”

Yn rhad, ‘heb arian ac heb werth.’ A welsoch chwi y dyrfa yn myned? “Ehedant fel eryrod; rhedant, ac ni flinant; rhodiant ac ni ddiffygiant.”

PENNOD IV.

LLOFFION O'I SYLWADAU A'I FFRAETHINEB.

Y MAE toraeth mawr o sylwadau hynod ac atebion ffraethbert Mr. Harries ar wasgar dros y wlad; ac er ein bod wedi pysgota yn ddyfal, gwyddom na chafwyd mo'r haner. Bydd eu haddurn yn eisiau mae yn wir, am fod y gwr ei hun yn eisiau. Ni fu syniadau a ffraethineb neb erioed yn cyfranogi mwy o, u hawdwr na'r eiddo Evan Harries. Pan oedd hynodrwydd mawr y wyneb, yr edrychiad, y llais, a'r ystum, yn rhoddi cymaint o newydd-deb ar bethau cyffredin; a rhoddent awch dau-ddyblyg ar bethau oeddent wir bert a digref. I'r neb a'i clywodd yr oedd o ran ei lais, ei oslef, a'i ystum, yn un o'r rhai hawddaf i'w ddynwared.

Harries a'r Offeiriad.—Adroddai am atebiad digrifol o'i eiddo unwaith i'r Parch. Mr. Campbell, y pryd hwnw offeiriad Merthyr, ond yn awr esgob

Bangor. Yr oedd afon fechan yn ymyl Merthyr, wedi chwyddo gormod i'w chroesi ar draed, ac heb un bont yn agos. Safai Harries gan betruso beth i'w wneyd, pan ddaeth yr offeiriad yn mlaen ar gefn ei geffyl. "Aroswech, Mr. Harries," ebe'r offeiriad caredig, "gall fy nghestyl i ein cario drosodd ein dau. Cewch ddyfod ar y cyfrwy, ac mi eisteddaf finau wrth eich sgil." "Na chewch ddim eistedd wrth fy sgil i, syr,' ebai Harries, yn benderfynol; "y *pregethwr goreu yn olaf*, os gwelwch yn dda," ebai, gan neidio y tu ol i'r offeiriad ar gefn y ceffyl.

Harries a Josuah Proseer.—Yr oedd ei *wit* yn dlyfod i'r golwg gymaint yn mharodrwyd difyfyfyr ei atebion a dim. Yn amser cyffro y *Chartists* yn sir Fynwy, a rhai o weithiau Morganwg, rhybuddiwyd eglwys y Methodistiaid yn Dowlais i beidio cytuno â'r terfysgwyr; ac felly y bu. Pan glywodd Syr J. Guest, meist'r y gwaith, anfonodd lythyr caredig at yr eglwys, yn cynwys *cheque* am haner cant punt, fel cydnabyddiaeth am eu synwyr a'u crefydd.—Gosodwyd ar Mr. Harries i ddarllen y llythyr i'r eglwys, a'i gyfieithu wrth ei ddarllen. Yr oedd yr hen flaenor enwog, "Joe Prosser," wrth benelin Harries, yn gofalu bod llythyr y boneddwr yn cael chwareu teg yn y cyfieithad. Dechreuai y llythyr gyda'r geiriau "*I embrace the opportunity &c.*;" a dechreuai Harries ddarllen, "Yr wyf yn cymeryd gafael yn y cyfleusdra, &c." "Hold Harries," ebe'r hen Joe, yr hwn oedd mor sarug ei olwg, ac mor hynod yn ei ffordd ag yntau; "nid cymeryd gafael yw *embrace*, ond cofleidio." Trodd Harries edrychial llym at yr hen flaenor, a dywedodd,—"*Am pwy welsoch chwi erioed yn cofleidio, y dyn, heb gymeryd gafael!*" Yna aeth Harries yn mlaen gyda'i gyfieithu, fel buddugoliaethwr.

Danedd newydd.—Y mae yn hysbys i lawer i Mr Harries gael *set* o ddanedd newydd yn ei flynydd-oedd diweddaf. Bu yn hwyrfrydig i'w cymaryd; ond dadleuai Mr. Harries dros eu cael, gan “fod ganddo ddigon o dafod i dreulo *set* arall o ddanedd allan.” Un diwrnod, yn fuan wedi cael y danedd, cyfarfyddodd â brawd yn y weinidogaeth, yr hwn a ddyg wyneb tra difrifol, ac na chyhuddwyd erioed o ysgafnder. Gofynai y brawd hwn i Harries, “A ydych chiwi wedi cael danedd, Harries?” “Odw!” ebe yr hen wr yn fyr achras. “A ellwch chiwi gnoi â hwnt?” gofynai eilwaith. “Rhowch eich bys yn fy mhen, a chewch wybod!” ebe yr hen greadur ffraethlym.

Yr hen a'r ieuanc.—Un tro, pan oedd yn gadeirydd Cymanfa, rhoddid hanes yr achos yn y sir gan ddau frawd oedranus nad oeddynt yn cael y gair o fod yn rhy hoff o'r ieuencyd; a baich eu hadroddiad oedd cwyno ar y bobl ieuainc. Ar ol iddynt orphen, a mynyd o fudanrwydd, cododd Harries, a dywedodd: “Y mae genyf fi bedwar o wyrion bach yn byw oddeutu mildur o Ferthyr acw, ac y maent yn dyfod i Ferthyr i'r ysgol bod dydd; ond cyn myned i'r ysgol y maent yn dyfod heibio eu tadeu, i ofyn bob dydd, “Shwd y'ch chi heddy', tadeu?” “Symol “Symol, diolch i chiwi, fy 'mhlant i; shwd i chwithau?” meddwn i. “Symol thanci,” medde' nhwythau, y ffwrdd â hwy i chwareu; a bydd eu tadeu yn myn'd allan i edrych arnynt yn chwareu. Mae y rhai bach yn ffryndiau mawr i'w tadeu, e'u tadeu yu ffryndiau mawr iddynt hwythau.’ Ni wnaeth unrhyw gymhwysiad, ac nid oedd achos ychwaith. Yr oedd yr adroddwyr yn crymu dan bwys y wialen.

Dalen o'r Bibl am yr ymenyn.—Pan adroddai yr hanesyn am y wraig gafodd ddalen o'r Bibl yn Llun-

dain am geiniogwerth o ymenyn, ac a brofodd yn foddion dychweliad iddi, "dyma'r geiniogwerth fwyaf a gafodd erioed," meddai, "waith hi gafodd fara y bywyd gyda'r ymenyn, yr hwn a ddiwallodd angen eu henaid am dragywyddoldeb."

Ty yr Arglwydd Raglaw.—Pan yn pasio heibio Margam un diwrnod ar gefn ei geffyl, cyfarfyddodd â garddwr Mr. Talbot, yr aelod seneddol, ac arglwydd raglaw y sir. Y mae gan y boneddwr dy a gardd nad oes eu bath yn y wlad. Dywedodd y garddwr, "Mr. Harries, gellwch weled y ty a'r ardd heddyw, y mae yr arglwydd oddicartref." Atebodd yr hen frawd ef, "Diolch i chwi; yr wyf wedi cael gwel eu gwell, a gwr y ty gartref." "Pa le y gwel soch well hwn?" gofynai y garddwr mewn syndod "Cysegr preswylfeydd y Goruchaf, a Duw yn ei ganol," oedd yr ateb.

"*Y tu hwnt.*"—Un tro yr oedd brawd wedi pregethu yn dda, ac wedi cael oedfa hwylus o'i flaen Ar ol canu penill, cyn darllen ei destun, dywedodd. "Mae fy mrawd wedi pregethu yn dda iawn, ond yr wyf fi yn meddwl myned y tu hwnt iddo." Yna darllenodd Eph. iii. 20. "Ond i'r hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt." Yn y fan hon, cyn gorphen yr adnod, codai ei ben, a dywedai, "Pa le mae fy mrawd a'i bregeth yn awr? Dyma ni 'tu hwnt' iddo,"

Parch i henaint.—Mewn Cyfarfod Misol yn agos i ddiwedd ei oes, daeth Mr. Harries i mewn i dy y capel. Coddodd agos yr holl bobl, er mwyn rhoi lle iddo, a chafodd eistedd yn y gadair freichiau yn nesaf at y tân. Wedi eistedd dywedodd, "Mae y parch a delir i henaint *am ei lawn werth.*"

Rheswm am ddybenu.—Cwynai y pregethwr oedd yn pregethu unwaith o'i flaen fod yn rhaid iddo ddybenu am fod ei nerth yn darfod. Pan oedd Mr. Harries yn agos i ddiwedd ei bregeth, dywedai yntau, "Rhaid i minau ddybenu, nid am fod fy nerth yn darfod, ond *am fod y bregeth yn darfod.*"

Mr. Harries a Theo. Jones.—Daeth i glustiau yr hen Barch. Thoe. Jones, Tregaron, fod cymydog wedi cael swm mawr o arian ar ol perthynas iddo oedd wedi marw. Dywedodd Mr. Jones yn ei ddull cynffanus arferol, "Tai pawb yn marw, 'chawn i ddim." Atebodd Harries ef, "Tai pawb yn marw, byddai y cwbl i chwi." Atebodd Thoe. eilwaith, "Flawd iawn fyddai wedi'n, dim ond fi ac yntau,"

Synwyr o flaen gras.—Dywedai unwaith wrth ferch ieuanc, y dywedid ei bod ar newid ei sefyllfa, "Gofalwech fynu gwr yn meddu ar dipyn o *synwyr*. Gwell iddo fod heb ras nag heb synwyr; achos fe all *gael gras*, ond siawns fydd iddo *gael synwyr*,'

Harries a Powell, Caerdydd.—Dygwyddodd fod Harries a Powell, Caerdydd, yn cyd-deitho yn y *train* unwaith ar brydnawn Sadwrn, y ddau yn myned at eu cyhoeddiad erbyn y Sabbath. Ysgydwent ddwyllaw wrth ymadael, a dywedai Powell, "Ffarwel Harries bach; os ydym yn myned i gyfeiriad gwahanol, yr ydym yn myned at yr un gwaith, a gobeithio y cawn wyneb yr Argiwydd gyda ni ein dau." Atebodd Harries, "Os na chawn, *ni ddywedwn ein goreu am dano yn ei gefn.*"

Rhe fach o le.—Symudodd blaenor o eglwys fawr lle yr oedd wedi arfer troi mewn cryn rwysg ac awdurdod, i eglwys fechan lle nad oedd neb wedi ymarfer d'r cyfryw awdurdod. Parodd y peth dipyn

o anghydfod, a meddyliaf pawb y dylasai y swydd-og newydd ymostwng tipyn i lefel yr aelodau cyffredin. Dygwyddodd Harries fod yno pan ddaeth yr achos hwn ger bron. Wedi gwrando y cwynion, dywedodd, "Yr wyf yn cofio cymydog i mi unwaith yn symud o dy go fawr i dy oedd lai. Yr oedd ganddo gloc tal iawn, a bu yno helbul nid bychan am gael lle i'r cloc yn y ty bach. Gwrthodai perchen y ty genad iddo dori y lloft na thori y llawr. Gan hyny nid oedd dim i'w wneyd ond tori peth o hyd y cloc, neu ei adael allan." Deallodd pawb y wers, a derbyniodd y blaenor hi fel Cristion.

Cwestiwn am gwestiwn.—Gofynodd gwinidog y Bedyddwyr gwestiwn i Harries unwaith mewn rhyw haner cellwair: "Paham yr ydych chiwi Mr. Harries yn rhoddi dwfr ar y wyneb yn fwy nag ar ryw ran arall o'r corph wrth fedyddio?" Dywedodd Harries, "Mae plant weithiau yn ateb cwestiwn â chwestiwn: minau a ofynaf gwestiwn i chwithau: Pam ydych chiwi yn rhoi y dyn ar ei *gefn* yn y dŵr yn fwy nag ar ei *fol*?"

Estyn lease y capel.—Pan anfonid Harries gan y Cyfarfod Misol i arolgu rhyw gyfnewidiadau a wnelid ar gapel Pontneddfechan, ceisiwyd ganddo dreio y boneddwr am estyniad y *lease*. Yr oedd yn 99 o flynyddoedd ar y dechreu, ond yr oedd llawer o honynt erbyn hyn wedi treulio. Galwodd Harries gyda'r boneddwr, a gofynodd, "Pa le yr ydych chiwi am eich claddu syr?" "Wrth y capel bach, ar fy nhir fy hunan," oedd yr ateb. "Ho, felly; garech chiwi i ryw rai ddodi tatws ar eich bedd?" "Na charwn; cadwo ni! beth ydych yn feddwl, Harries?" "Wel, estynwch y *lease*, ynta." Atebodd y boneddwr, "Wel, nid oes genyf fl ddim

gwrthwynebiad." "Yn awr am dani, yntc," ebe Harries: "ellwch chwi ffigro?" "Gallaf yn weddol," ebe'r boneddwr. "Wel torwch 9 arall at y ddwy yma." "Pa ochr, Harries?" "Yr ochr a fynoch." Torodd y boneddwr ffigyr i wneyd 990. Cododd Harries y papyr gan fwmian, "Thankye! Dyna, os dodant datws ar ol hyn fyddwch chwi, n gwybod fawr oddiwrthynt, rwy'n *sposo*."

Tri i bregethu am ddau o'r gloch.—Mewn Cyfarfod Misol yn T——cyhoeddwyd ef yn un o dri i bregethu am ddau o'r gloch. Efe oedd yr olaf, ac yr oedd wedi taro pedwar cyn iddo ef gael codi ar ei draed. Pan gododd, dywedodd, "Y mae yn perthyn i'n rheolau ni na byddo i un cyfarfod bara dros awr a haner neu ddwy awr o bellaf; ac nid wyf fi yn bwriadu myned ar draws y reofo heddyw, Yr oedd y neb a gynlluniodd i dri bregethu am ddau o'r gloch yn weddol ddwl; ond pe *gwnaen* i hyny, byddwn yn ddwlach fyth—gweddiwn."

Un gair.—Yr oedd brawd yn pregethu o'i flaen mewn Cyfarfod Misol ac wedi dyweyd lawer gwaith "dim ond un gair eto," ond er hyny dywedai lawer o eiriau. Ni phregethodd Harries ar ei ol ond byr iawn, Safodd yn fud am fomont, a dywedodd, "dim ond un gair, a dyma fi yn dybenu—*Amen*."

Y plant, Christ, a'r diafol.—Wedi ddarllen y geiriau hyny yn destun, "Oblegyd hyny gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed," &c., y geiriau cyntaf a ddywedodd oedd, "Yr wyf yn hoffi y geiriau hyn yn fawr; y maent yn rhoi golwg ddy-mauol iawn ar bethau; y plant ar y top, Iesu Grist yn y canol, a'r diafol yn y gynffon."

Harries a'r policeman.—Un tro cafodd Harries ganiatad i fyned trwy barthau o sir Drefaldwyn i gasglu at gapel yn ei sir ei hun. Pan yn gosod yr achos ger bron ar ddiwedd yr oedfa, gwelai fod *policman* (yr hwn a anfonodd i ni yr hansyn) yn mysg y gynulleidfa. Tafodd lygad arno a dywedodd, “Mae y *police officers* yn ein gwlad ni yn cynieryd *beggars* i fyny, ac yn eu tafu i garchar am feagian. Ac er cynddrwg yw y *tramps* ffordd acw, welais i neb mor ddigywilydd a begian o flaen wyneb y *police* erioed. Ond dyma fi yn myned heno i feagian lle gwelo eil ygaid; a mwy na hyny, yr wyf yn *insistio* arno i ddodi rhyw beth yn yr het. Ac os bydd raid, rhoddaf fy hunan i fyny iddo ar y diwedd am droseddu y *Vagrant Act*. Ond yr wyfyn meddwl fod yn rhy dda ganddo am Iesu Grist i osod ei law arnaf, dim ond ei estyn i roi *harty shakes hands*.” Ac felly y bu.

Y fiddler yn rhydd.—Wrth gasglu yn yr oedfa olaf mewn cyfarfod pregethu, unwaith, ar ol bød wrthi yn casglu trwy y dydd, gwasgai yn daer ar y gynulleidfa, ar i *bob un* rhoddi ychydig am y tro hwnw eilwaith er mwyn gwneyd swm penodol a enwai. Gobeithiai na wnelai gymaint ag un beidio rhoi dim. Wedi poethi y bobl i dymher cyfranu, ceisiodd gan y easglyddion fyned oddiamgylch. Aeth y casglydd yn mlaenaf oll at ddrws y pwlpud, i ofyn ei rodd gan y pregethwr. “Hold!” ebe yr hen weinidog ffraeth ar darawiad, “mae y *fiddler* yn rhydd, os gwelwch yn dda.”

Datod y seliau.—“Do, fe wylodd Ioan am nad oedd neb yu deilwng i ddatod y seliau. Agor nhw dy hunan, Ioan.” “Na, nid wyf deilwng.” “Wel, mae llawer yn ceisio eu datod y dyddiau hyn nad yw mor deilwng.”

Nid gwel'd y nefoedd, ond byw yno.—Wrth son am y nefoedd fel *cartref* y Cristion, dywedai, “Yr oedd menyw yn Merthyr yn dyweyd wrthyfun diwrnod, ‘Mi fwm yn gweled Castell Crawshay.’ Atebais inau hi, ‘Do fe, druan. Mi wn wrth liw dy groen nad wyt ti ddim yn byw yno.’”

Y bibell.—Yr oedd Mr. Harries yn hoff o'r bibell a'r dybaco. Yn y blynyddoedd diweddaf yr oedd ei ddwyllaw wedi myned i grynu yn fawr, a byddai y cryndod hwnw i'w ganfod yn amlwg wrth roddi tybaco yn y bibell. Pan oedd yn gwneyd hyn unwaith, dywedodd brawd wrtho, “Mae arnaf ofn, Mr. Harries, eich bod yn smocio gormod.” Atebodd yntau, “Efallai hyny, ddigon hawdd. A fuoch chwi erioed yn smocio, syr?” “Do wir, am lawer o flynyddoedd,” ebe y brawd; “ond yr wyf wedi ei gadael er es saith mlynedd. “Ho!” ebe'r hen weinidog gan droi at y tân i danio y bibell, “yr oeddwn yn meddwl mai un o'r *sort* oeddech.” “Sut oeddech chwi'n meddwl hyny?” gofynai y brawd. Atebodd yntau, “Am mai y gwrthgiliwr sydd yn rhoi y gair gwaethaf i bob cymdeithas.”

Dro arall, mewn man yr oedd llawer o ysmocio, a rhai yn siarad yn gryf yn ei erbyn, dywedai Harries, “Os ydym ni yn treulio llawer o amser i *smoco* dybaco, yr ydych chwithau yn triulio llawer o amser i *ddadleu* dybaco. Mae wedi myn'd yu fyd go wael ar ddyn os na bydd ganddo ddim i'w roddi rhwng merni ei felin ond pib a dybaco!”

Dyn yn ei le.—Galwodd dyn yr hwn oedd wedi bod yn aelod gyda'r Methodistiaid flynyddoedd cyn hyny, gyda Mr. Harries i ddweyd fod ar ei feddwl i ddyfod yn ol. “Lle buoch chwi er pan gadawsoch y Methodistiaid?” gofynai iddo. Atebodd y

dyn iddo fod am ychydig gyda thri o'r enwadau gwahanol. "Ble yr ydych chi yn awr?" gofynai Harries eilwaith. "Nidtwyf yn *un lle* yn awr," oedd yr atebiad. "Da iawn," ebe Mr. Harries; "*yr ydych yn y man y dylech fod.*"

Desgrifiad o Bregethwr.—"Sut y pregethodd Mr. Roberts, Amlwch. yn yn y Gymanfa, Mr Harries?" gofynai cyfaill iddo wedi dyfod adref o Gymanfa, T—. "Da iawn, ond clywais ef yn cael mwy o hwyl lawer gwaith." "Sut pregethodd Mr. Hughes. Liverpool?" "Da digynyg, ond clywais yntau yn fwy llewyrchus; yr oedd pregethu y ddau fel boncyfflon mawrion, a llawer o ddefnyddiau tân ynddynt, er nad oeddynt yn fflamio llawer ar y pryd." Gofynnodd y cyfaill eilwaith, "Sut y pregethodd Mr.—?" "Wel, mi ddywedaf wrthyh; fe gym-erodd lon'd ei fraich o *shavings*, gosododd hwy yn y *grat*, taniodd y *match*, a gosododd yn y *shavings*, nes oeddent yn wenfflam. Yr oedd yno dân mawr, ond tân *shavings* oedd!"

Moses a'r Aiphtiwr.—Fe darawodd Moses yr Aiphtiwr, i amddiffyn ei frawd, ond chredaf fi byth ei fod yn meddwl ei ladd. Pe buaswn i yn eistedd ar y *cwest*, ddaethwn i byth â *willful murder* yn ei erbyn, ond *man-slaughter*. Ond y mae yma wers i ni. Os ydych am beidio lladd, peidiwch taro.

Galw ar ei dad. Un tro, pan oedd Harries a bonedwr arall yn edrych ar y gweithwyr yn gweithio ar adeilad, yn ddisymwth cwmpodd yr ysgaffaldiau, gan ollwng y dynion yn gymysg a'r ceryg a'r planciau i lawr i'r ddaear; ond hongiai un gerfydd ei ddillad wrth ben un o'r polion. Yn y wedd hon galwai y dyn yn rhyfygus ar enw yr un drwg. "A

glywch chwi y dyn rhyfygus," meddai y boneddwr, "yn rhegu yn nghanol ei berygl?" Atebodd Harries ef, "Beth sydd yn fwy naturiol iddo, druan, na galw ar ei dad?"

Rhoi careg wrth yr olwyn.—Yr oedd Harries unwaith yn holi profiad blaenor, yr hwn oedd yn un cyndyn iawn am ei ffordd ei hun, ac yn cymeryd cymaint o awdurdod i'w law fel ag i beri rhwystr mawr i ddygiad yr achos yn mlaen. Dywedai y blaenor nad oedd ef yn gallu gwneyd ond ychydig iawn gyda'r achos mawr. fod yn dda ganddo gael rhoi careg wrth y olwyn, ac mai dyna y cwbl, bron, allai wneyd. Atebodd yr hen weinidog ef gyda dehurwydd bythgofiadwy, "Pa ochr i'r olwyn ydych chi yn rhoi y gareg, frawd? Mae ambell ddyn, yn lle rhoi y gareg o'r tu ol i'r olwyn, yn eu gosod y tu blaen, i rwystro y cerbyd i fyn'd rhagddo!"

Cyngor i wr ieuanc.—Mae Agur yn dweyd mai "corddi llaeth a ddwg allan ymenyn." Mae pawb yn hoffi ymenyn, ond ychydig sydd yn hoffi corddi. Ond rhaid corddi i gael ymenyn. Os ydych chiw-thau, fy machgen, am dipyn o ymenyn gwybodaeth, rhaid i chiw gorddi. Rhaid i chiw ddarllen llawer, a myfyrio mwy; ac edrychwch beth a ddarllenwch. Ni chewch chiw fawr ymenyn ar eich bara wrth ddarllen *novels*. Darllenwch y *Bibl*, Pe byddech yn myn'd yn *member of Parliament* a bod yn dywyll yn y *Bibl*, ni fyddech ond hurtyn ffol. Ond nid oes yr un pwll tu yma i uffern na fedr y *Bibl* datlu goleuni iddo. Mae cywilydd arnaf y mynyd yma wrth weled y *Bibl* yn llyfr mor fychau, a minau mor hen, ac eto mor ddyeithr ynddo."

Harries a'r boneddwr.—Un hynod o lwyddianus oedd Harries i gael o hyd i fan tyner hyd y nod yn y dynion garwaf. Yr oedd boneddwr cyfoethog,

caled, a hollol ddibarch i grefydd, yn byw yn Y——, a'i wraig yn proffesu crefydd. Ni ddelai ef byth i wrando yr efengl, ac yr oedd bob amser yn beio ac yn difrio ei gweinidogion. Ei hoff waith oedd myned allan a'r dryll a'i gwn i saethu, ond damwain fawr oedd iddo ladd diu. Wedi bod yn pregethu yn yr ardal, boreu dranoeth galwodd Harries yn ei dy, a dechreuodd y boneddwr siarad yn sarug iawn ag ef; yr oedd yn barod i fyned allan a'i ddryll a'i gwn. "Oes dryll arall genych chwi yma" gofynai Harries iddo. "Beth ydych chwi yn wneyd ag ef?" gofynai Mr. P—— yn sarug: "I ddyfod allan gyda chwi i *ffowla*," oedd ateb y pregethwr. "A ddewch chwi ynte?" "Dof, os caf ddryll," ebe Harries. Newidiodd y boneddwr ei dda, ceisiodd y ddryll, ac allan â hwy. Yr oedd Harries yn ei arwain i'r cyfeiriad yr oedd arno ef eisiau myned. Yn y man cododd y cwn ysgafarnog, ac er nad oedd Harries erioed wedi arfer nemawr â saethu, llwyddodd i ladd yr ysgyfarnog yr ergyd cyntaf a olyn-godd o'i ddryll. Newidiodd hyn farn y boneddwr am y pregethwr ar unwaith, a daeth i edrych arno fel duw bach. O'r dydd hwnw allan elai bob amser i wrando Harries, a byddai yn rhaid iddo yn wastad ddyfod i letya i'w dy ef.

Harries a'r siopwr.—Pan yn y *train* unwaith, yn myned at ei gyhoeddiad, cyfarchwyd ef gan ddyn dyeithr iddo ef, tra golygus. "Peth da iawn yw bod yn pregethwr," meddai. "Iê, ebe Harris, "gwaith da yw, onide ni fuaswn ni yn gwneyd dim o hono." "Mae y pregethwr," ebe y gwr dyeithr, "yn cael y lle goreu a'r tamaid mwyaf danteithiol yn mhob man, ac y mae eu *busnes* hwy yn cerdded yn dda yn wastad." "Eitha gwir," ebe Harries, "ac nid ydynt byth yn tori, fel y bydd y siopwyr yma." Gwelodd Harries wyneb y cyfaill yn gwelwi gyda'r

sylw diweddaf, ac ni chafwyd gair mwy o'i enau. Pan yn disgyn ar y *station* gofynod Mr. Harries i'r gwr oedd yn dyfod i'w gyfarfod, pwv oedd yr un fu yn ymddyddan ag ef. "Siopwr o'r dref hon, sydd newydd dori ydyw," oedd ateb y brawd, er syndod mawr i Mr. Harries.

Harries ar bancwr.—Yr oedd Harries a chanddo law bwysig bob amser yn helyntion codi capelau, a'r drafodaeth arianol fyddai yn nglyn â hyny. Daeth angen sydyn unwaith am ddau cant o bunau i gyfarfod â galw penodol, a methwyd er pob ymdrech a'u cael yn yr ardal. Wedi cwbl fethu, a phan oedd pethau yn ymddangos yn dywyll, aeth Mr. Harries i'r banc yn y dref lle yr oedd yn byw, a dywedodd yr helynt, gan ychwanegu, "Yn awr Mr. E——, rhaid i mi gael benthyc dau cant o bunau genych am dri mis, heb ddim *interest*, ac heb neb i ateb am danynt ond fy hunan." Gwenodd y bancwr; ond cyn pen pum mynyd, yr oedd y ddau cant punau yn mhoced Mr. Harries, a hyny heb rhoddi unrhyw sicrwydd am danynt i'r perchenog.

Parotoad y galon oddiwrth yr Arglwydd.—"Nid oes neb yn ddigon medrus i ddwyn calon pechadur i'w lle ond Duw. Peidiwch a'i *thrusto* i law neb arall. Mae rhywbeth y mater ar y cloc, ceisiwch ei wella. Codwch ei bwysau. Yr ydym wedi gwn-eyd hyny hyd y top, ond y mae yn pallu myn'd. Siglwch y *bendilo*, oilwch ei gymalau, trowch ei fysesd; ond er bob peth yr oedd yn *pallu myn'd*. Wedi llawer o ymgais ofer, dywedodd rhyw un callach na'r lleill, "Mae y ddiffyg oddifewn; ewch ag ef at y gwr a'i gwnaeth!" Mae dy ddiffyg di bechadur oddifewn, yn y galon; cerdda â hi at y gwr a'i gwnaeth, 'canys parotoad y galon oddiwrth yr Arglwydd y mae.'"

Cadeirydd y Gymanfa.—Yn y flwyddyn 1861, yr olaf y bu byw, etholwydd ef yn llywydd Cymanfa Abergwaun. Wrth gymeryd y gadair, dywedodd, “Mi debygwn eich bod wedi fy newis i'r gadair am fy mod yn hen, ac am ei bod yn debyg mai hon yw y Gymanfa olaf i mi ar y ddaear. Ond yr wyf fi yn meddwl myned yn fuan i Gymanfa ag y mae ei Llywydd wedi ei ethol yn barod, nid am flwyddyn, ond am dragywyddoldeb—*y Brawd hynaf!*” Erbyn mis Tachwedd yr oedd wedi cyrhaedd yno.

Y dwyrain a'r gorllewin.—Yn y gymanfa uchod yr oedd y Parch. W. Pryse o'r India, a'r Parch. Howell Powell o America yn y gymanfa. O'r blaen methodd Powell a chael amser i rhoddi adroddiad o helynt yr achos yn y gorllewin, ond yr oedd y Cadeirydd yn benderfynol rhoddi amser iddo y tro hwn. “Yn y dwyrain,” ebai, “mae yr haul yn codi, ac yn y gorllewin y mae yn machlud; ond fyddai dim perygl i ni ei throï yn y gwrthwyneb i'r haul godi yn gorllewin a machlud yn y dwyrain. Yn awr, Powell, dechreuwch chwi, ac fe gaitf Pryse eich canlyn.”

Fr Hoops.—Yr olwg olaf a gawsom ar Mr. Harries, ychydig wythnosau cyn marw, oedd yn nghanol twr o foneddigesau—ei ffryndiau—yn ngerberbyd y rheilffordd yn Merthyr; yr oedd yn myned allan ar daith fer i dreulio y diwrnod. A'r gair olaf a glysom oddi ar ei wefusau oedd un o'i ffraeth-eiriau nwyfus. Y pryd hwnw yr oedd ffrasiwn yr *hoops* yn cangder eu nerth; a chan fod y rhan hono o'r cerbyd lle yr eisteddai, yn dyn o gymydogesau y gweinidog, yr oedd ef wedi ei orchuddio hyd ei ys-

gwyddau mewn sidanau. Yr oedd bywiogrwydd ei lygad yn awgrymu ei fod yn teimlo oddiwrth hynodrwydd ei sefyllfa. Gofynasom iddo yn ddystaw dros ei ysgwydd, "A yw yr *hoops* yn eich blino, Mr. Harries?" Atebodd mewn moment, gan geisio ymryddhau, "Na, nid yr *hoops* gymaint a'r *hips*, sydd yn fy m'ino."

PREGETHAU.

PREGETH I.

FFORDD IACHAWDWRIAETH.

“Y dynion hyn ydynt weision y Duw Goruchaf, y rhai sydd yn mynegu i chwi ffordd iachawdwriaeth,” Act. xvi. 17.

Ai dyna y *text* i gyd? Iê; ac yr wyf yn meddwl ei fod yn ddigon ar unwaith. Mae yn wirionedd pur, er ei fod wedi dyfod allan o enau llygredig. Perl ydyw o enau llyffant. Mae perl yn werthfawr, o ba le byanag y daw. O'r llaid y maent yn cael yr aur yn California; ei bigo o'r tomenau y maent. Aur o'r llaid yw y *text*; ond y mae yn eithaf metel. Fe ddywedwyd y gwirionedd yma gan un nad oedd yn ei gredu. Nid i amddiffyn y gwirionedd y llefarwyd ef, ond i warodwyddo a chablu y gwirionedd, eto gwirionedd yw.

Yr hon a lefarodd y *text* yma ydoedd rhyw *lances*; ac nid oes yr un enw arall yn cael ei roddi arni. Enw priodol iawn. Rhyw *lances*, yr hon oedd ag ysbryd dewiniaeh ynddi. Wn i ddim beth oedd ysbryd dewiniaeth, a wyddoch chwithau ddim hefyd, ond fi wn i ei fod yn y *lances*; ac yr oedd trwyddo yn dwyn ei busnes yn mlaen yn llwyddianus. Mae rhai yn dyweyd mai ysbryd *conjuro* ydoedd; ac eraill mai ysbryd *fortune.teller*. Beth bynag, daeth Paul a Silas ar gyhoeddiad i bregethu i Philippi, y

gymydogoeth yr oedd y *fortune-teller* yn byw; a dyma ddwy fusnes yn myned yn mlaen yno yn awr; ac fe gynhyrfodd yn y gwaethaf yn erbyn y goreu; a gwawdiaith y llances a'r ysbryd dewiniaeth ar y ddau bregethwyr yw y *text*. "Y rhai hyn ydynt weision y Duw Goruchaf," &c; Iê, ti ddywedaist y gwir dan dy ddwylo; a chei wybod hyny yn well yn y man. Dylynai hon y pregethwyr o oedfa i oedfa, gan waeddi y testun hwn ar eu hol, a hyny am "ddydbiau lawer." Elent hwy lle mynent, yr oedd y ddyhiren yma yn eu dylyn. "A Phaul yn flin ganddo:" fe fuaswn yn flin fy hunan pe buasai llances fel hon yn fy nylyn. "Dos allan," ebe Paul, "yr wyf wedi goddef digon genyt ti." Nid rhoi mis o *notice* iddo, fel yr ydych chi tua'r gweithiau yma, wnaeth Paul; ond ei droi allan yn y fan. A phan aeth y cythraul allan, fe fflatodd y fusnes. Fe fflattai llawer busnes eto tai y cythraul yn myned allan o'r bobl sydd yn eu dwyn yn mlaen.

"Yr hon oedd yn peri llawer o elw i'w meistriaid." Yr oedd *company* yn ei chyffogi, ac fe alwyd y *company* yn nghyd i gynnal *committee* ar achos gwaethygiad y fusnes. Ac wedi deall yr achos, cymerwyd Paul a Siles i fyny, a thafwyd hwynt i'r carchar. Mae y byd wedi bod yn o ganolig cyn i ni ddyfod iddo—taflu y pregethwyr i garchar am fwrw y cythraul allan! 'Does gyda fi ddim amser i fyned ar eu hol yn awr, ond darllenwch chi y bennod ar ol myned tua thre', hi aiff â chi i'r carchar ar eich cyfer. Beth ddaeth o'r llances? Duw sydd yn gwybod—chlywais i air am dani byth. Eto mae yn well gen' i feddwl, gan i un cythraul gael ei fwrw allan o honi, i bob cythraul gael eu bwrw allan.

Ond yn awr, rhaid i ni adael Paul, a gadael y carchar, a gadael y llances, a'r cythraul, a'r cwbl, a dod at wirionedd y *text*. 'Does yr un adnod, o'i

hyd a'i lled, yn well desgrifiad o natur gweinidog-aeth yr efengyl. Nid yw pregeth na darlith yn werth croesi yr heol i'w gwranddo, os nad ydynt yn mynegu ffordd iachawdwriaeth. Nid lle i ddyweyd pellder yr haul yw y pwlpud; faint gwell fyddech pe dywedwn i sawl milldir sydd o C—— yno? ni fyddech yr un cam yn nes i'r nefoedd. Ond y mae ffordd i'r nefoedd o'ch ty chwi, ac y mae y *text* yma yn eich cyfarwyddo ynddi.

Yu bresenol cymerwn lowg ar y testun fel y mae yn dynwys gwirionedd pur o'r pwys mwyaf. Yn—

I. Y GWEISION. “Y rhai hyn ydynt weision.”

II. EU GWAITH. “Mynegu ffordd iachawdwriaeth.”

I. *Y gweision*. Mae yn hyn bedair o ystyriaethau yn deilwng iawn o sylw.

1. Fod y rhagorfraint yn uchel. “Y *dynion* hyn” yn “weision y Duw goruchaf.” Dylai hyn beri i bob gwas guddio ei ben â mantell.

2. Fod y gorchwyl yn un pwysig. “Mynegu ffordd iachawdwriaeth.” Mae cyfeiliorni am y ffordd yn golli iachawdwriaeth. Nid oes ond un ffordd yn arwain at iachawdwriaeth.

3. Fod y gwas bob amser o dan lygad ei Feistr. Pan yn parotoi ei genadwri, pan yn teithio ar ei daith, a phan yn ei thraddodi: “Wele, yr wyf fi gyda thi.”

4. Fod ei gyfrifoldeb yn fawr. Mae yn rhaid wrth lafur a ffyddlondeb diball, cyn y gallwn fyned a'n cyfrif i mewn yn llawen. Peidiwch a barnu y gwas wrth faint ei ddoniau a'i athrylith; ond wrth fawrhydi yr Hwn a'i hanfonodd ef. Os yw yn was y Duw goruchaf, “edrychwch na wrthodoch yr hwn sydd yn llefaru.” A chofiwch nad i'r gwas yr ydych yn gyfrifol, ond i'r neb a'i danfonodd. Cofiwch ddameg y swper. Mae diystyru y gweision yn digio Gwr y ty.

II. *Y gwaith.* “Mynegu ffordd iachawdwriaeth.” Ni sylwn ar iachawdwriaeth, ffordd iachawdwriaeth, a mynegu y ffordd.

1. *Iachawdwriaeth.* Gair melus yw hwn. Gair wnaeth i filodd o Gymry neidio oddiwrth y ddaear dan ei swm; a bendigedig! y mae yn gwneyd i'm llestr inau adael y lan y fynydd yma. Wn i ddim am well esboniad ar y gair iachawdwriaeth, nag esboniad yr hen Theo. Jones, Tregaron: “*Peth at eich gwneyd yn iach.*” Nid yr un peth feddylir yn y Bibl bob amser wrth y gair iachawdwriaeth. (1.) Weithiau meddylir gwardigaethau Israel trwy y môr coch. Dyna Israel wedi eu cau i mewn rhwng y môr, y creigiau, a Pharaoh a'i fyddin. Dacw hwy wedi eu *blockado*, ond ddim wedi eu *bombardo*. Fe dorodd yr Arglwydd trwy eu gwrthglawdd yn y man cryfaf arno. Yr oedd dymchwelyd Pharaoh yn hawddach na hollti môr; ond agorodd Duw lwybr i'w waredigion trwy y cefnfor. “Sefwch,” medd ni Moses, “ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd.” (2.) Fynychaf golygir gwardigaeth yr eglwys o gaethiwed llygredigaeth. Byddi “yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaear.” Hyd y *Baltic*? Na, heibio i'r *Baltic*—hyd eithaf y ddaear. (3.) Gelwir Crist ei hun yn iachawdwriaeth. Mae ef yn iachawdwr, ac yn iachawdwriaeth, wedi ei wneuthur i ni felly gan Dduw. “Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo”—bydded Gymro, bydded Wyddel. (4.) Y meddwl yn y *text* yw holl drefn Duw i gadw pechadur.

2. *Ffordd iachawdwriaeth.* Dywedir llawer yn y Bibl am ffyrdd yr Arglwydd. (1.) Deallir wrthynt weithiau *weithredodd*. Uniawn yw ei ffyrdd ef. 'Does dim *inclines* ganddo; ond y mae ganddo ffordd wastad trwy bob man. Y mae ffordd Duw yn y môr. Arno oedd ffordd Napier a'i lynges;

ynldo mae ffordd Duw. Mae ef yn cerdded ei waelodion. Y mae ei ffordd yn y dyfroedd cryfion. (2.) Deallir wrth ei ffordd weithiau ei *lywodraeth* ar bob peth. “Efe a gerdda ar uchelderau y ddaear.” Beth yw hyny? Nid y Begwns—nid Cadair Idris—nid yr Wyddfa, ond mawrion y ddaear; emprwr Rwssia, emprwr China, sultan y Twrc, Bona, a'n Victoria ninau. Pobl yr uchelderau yw y rheiny. Iê, “ond y mae un sydd uwch na hwynt.” (3.) Ffordd benaf Duw yw trefn ei ras i achub pechaduriaid. Mae gan Dduw ffordd i roi gras i bechaduriaid. Yr oedd fy nhad yn arfer dyweyd mai haner y peth oedd cael pen y ffordd ato. Mae Mab Duw wedi cael pen y ffordd i'ch achub chwi, f'eneidiau: ac yr wy'n credu yn fy nghalon yr aiff e' a chanoedd eto o'r cwm yma i'r nefoedd. Fe dreiodd y ffordd ar y lleidr, ar le'r benglog, ac fe aeth ag ef i'r nefoedd cyn nos.

Gair cymhariaethol yw *ffordd*. Nid peth sydd yn cael ei chreu, ond ei gweithio, yw ffordd. Y mac llawer o gost yn myned i gynllunio ffordd. Dywedwyd wrthyf fod cymaint o drual wedi myned i fesur a chynllunio rheilffordd trwy y cwm yma ag a aethai i wneuthur ei haner. Mae cost fawr yn myned i wneyd rheilffordd, ond un-iawn yw hi ar ol ei chael; yr ydych yn myned drosti fel tai chwi yn *slido* dros iâ. Yr oeddwn y dydd o'r blaen yn aros y *train* mewn *station* yn y sir yma, pan welwn hen greadures efrydd yn cael ei helpu gan ei chyfeillion i'r *station*. Fedari hi, druan, wneyd fawr o *shift* drosti ei hun; ond wedi ei rhoi yn y cerbyd, ar y ffordd, yr oedd yn teithio mor gyflym a'r *first class gentleman*. Mae ffordd iachawdwriaeth wedi ei gorphen, wedi ei hagog, ac wedi ei phasio. Hi gostiodd yn ddrud. Yr oedd rhystrau ar y ffordd nad allai neb *ond Daw en symud*. (1.) Un rhwstr mawr oedd

cael yr euog yn gyfiawn. Mae gan y frenines ffordd i ryddhau y troseddwr; ond heb ei gyfiawnhau. “Duw yw yr hwn sydd yr cyfiawnhau.” “Go-beithio yr âf i'r nefoedd ryw ffordd.” Nid ryw ffordd yr âi os âi hefyd, ond ar hyd *y ffordd*; yn *ffront* deddf a chyfiawnder, a gorseddfaine y Barnwr. “A ni wedi ein cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prunedigaeth sydd yn Nghrist Iesu.” Dyna y ffordd—*gwaed* acw—*rhad* yma. (2.) Rhwystr arall oedd *gwneyd y marw yn fwy*. Nid ei ddoctora rhag marw, ond wedi marw. ‘Dyw doctor yn cyffwrdd dim â marw; a'r byw y mae a fyno ef. Mae y Cymry yn gyffredin yn cyfaddef i ni gael cwmp tost tua a Eden, ond ddim yn credu ein bod wedi marw. Fe welais unwaith doctor yn myned i edrych am y claf, ac yn cyfarfod â chymydog, yr hwn a ddywedodd wrtho, “Y mae wedi marw, doctor!” a dyna'r doctor yn troi pen y ceffyl yn ol i fyned i chwilio am ryw un byw i fyned ato. Ond wedi i ni farw y daeth ein Doctor ni o gartref. “Myfi a ddaethum fel y caent fywyd.” (3.) *Gwneyd yr aflan yn lân*. “Yr wyf yn ofni nad âf fi byth i'r nef. oedd.” Ai yn gynt nag wyt ti yn meddwl, os wyt yn credu yn Mab Duw. “Ië, ond yr wyf mor aflan; ac nid â dim aflan i mewn yno.” Nac aiff; ond y mae ffordd gan Dduw i lanhau. Mae “ffynon wedi ei hagoryd i bechod ac aflendid.” “Pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wyned a'r eira.” “Myfi a lân buraf dy sothach.” Mae ganddo ffordd i'ch gosod i fyny yn eglwys iddo ei hun, heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw.” (4.) *Gwneyd gelyn yn gyfaill*. Y pell yn agos, etifedd colledigaeth yn etifedd bywyd tragwyddol.

Cofiwch mai *ffordd* ydyw, bobl. Peidiwch tori dros y caeau, cedwch ar y ffordd. Mae rhai yn

ceisio gwella y ffordd, ac fel Cristion Bunyan, wedi ei cholli wrth geisio ei byrhau. Cedwch ar y ffordd, waith chwi biau hono. Pan oeddwn i yn cadw ceffyl, byddai y bobl yn dyweyd wrthaf weithiau, "Gellwch fyned dros *dram-road* y cwmpeini." "Diolch i chwi," meddwn inau, "well gen i gadw ar y ffordd." Yr wyf yn teimlo yn fwy cofn a rhydd ar y ffordd fawr, nag un man ond ar aelwyd gartref. 'Does un man ond gartref ag y mae genyf fwy o *right* ynddo. Dygwyddodd i mi yn ddiweddar weled boneddwr yn ei gerbyd o bedwar, a'r arian yu dysglirio yn nhaclau'r ceffylau, yn dyfod i gyfarfod y *donkey cart* ar y ffordd fawr. Yr oeddwn yn disgwyl gwel'd y gwr a'r *donkey* yn crynu, ac yn ymwasgu i'r clawdd. Na, nid oedd arno ddim mwy o ofn y boneddwr nag oedd ar y boneddwr o'i ofn yntau. Yr oedd yn cadw haner y ffordd heb symud *peg*. Rhoddwch y *whip* ar war gwr y *donkey*. Na, onide mi gaf fi *whip* y llywodraeth ar fy ngwar. Y mae y ffordd yn rhydd iddo ef fel i finau. Diolch am *ffordd* iachawdwriaeth! Brysia, bechadur, rhed i'r ffordd: dianc am dy einioes. Cyfrifwn ef yn fraint uchel, wedi dyfod yma trwy lawer o rwystrau, i gael sefyll i fyny yn *ddirecting post* i gyfarwyddo rhyw un i ffordd iachawdwriaeth.

3. *Hysbysu y ffordd*. Peidwch, chwi bregethwyr, a chymeryd arnoch fwy nag y mae Duw wedi ei roddi arnoch. Beth yw hyny? Hysbysu y ffordd. Ei *schemo*? Nage; mae hi wedi ei *schemo* cyn i chwi fyned i'r pwlpudd. Fe allai fod llawer o honoch chwi, y bobl ieuanc yma, yn llygadu tua'r pwlpudd. Ac ni waeth genyf, o ran hyny, tai chwi ynddo cyn nos yfory. Ond os na ddewch chwi yma i gyhoeddi ffordd iachawdwriaeth, ewch i dori glo. Dyma fusnes pregethwr. Ac ni waeth gen i roi tri phen i chwi i bregethu arnynt am y ffordd hon, os

byddwch byth yn myned at hyny. Yn gyntaf,—Hysbyswch i bawb fod arnynt angen y ffordd yma. Yn ail,—Hysbyswch i bawb ragoroldeb y ffordd yma. Ac yn drdydd,—Hysbyswch i bawb y perygl o aros yn swm ei chyhoeddiad, heb fod arni. Dyged Daw y gynulleidfa yma oll i afael ffordd iachawlwriaeth. Amen.

PREGETH II.

GWAITH DUW.

“Mi a wn beth bynag a wnel Duw y bydd hyny byth; ni ellir na bwrw ato, na thynu oddiwrtho; ac y mae Duw yn gwneuthur hyn fel yr ofnai dynion ger ei fron ef,” Preg. iii. 14.

Fr ddichon nad yw y geiriau a ddarllênwyd mor sathredig i amryw o honom a llawer o ysgrythyrau yn ngair Duw: ond o'm rhan i, byddaf o'r farn fod arnom gymaint o eisiau bod yn gyfarwydd â'r pethau a gynwysir yn yr adnod hon ag un adnod yn y dyddiau presenol. Geiriau mawreddig iawn ydynt; nid pawb sydd yn gallu siarad fel hyn: “Mi a wn beth bynag a wnel Duw, y bydd hyny byth.” Gwnaiff Duw heb neb, ac er neb; a bydd hyny byth, heb i neb allu ei atal na'i gynorthwyo. Pe gellid ei atal neu ei gynorthwyo, ni allai fod yn hollalluog. Ac nid yn unig ni ellir ei gynorthwyo, ond ni ellir cyfnewid dim a wnaeth efe. “Ni ellir na bwrw ato na thynu oddiwrtho.”

Yn y testun cynwysir tri pheth—gwaith Duw, perffeithrwydd y gwaith, a dyben y gwaith. Mae yma ddau air, y naill yn dangos y peth cyntaf, a'r llall y peth olaf, a thri gair yn dangos y peth canol—“Beth bynag a wnel Duw;” dyna y gwaith. “Bydd hyn byth;” dyna berffeithrwydd y gwaith. “Ni ellir bwrw ato;” dyna berffeithrwydd arall. “Na thynu dim oddiwrtho;” dyna berffeithrwydd eto. Pob peth a wnaeth Duw nid oes *amendment* i fod arno. “Fel yr ofnai dynion ger frou ef;” dyna ddyben y cwbl.

Y mae dau beth yn gorwedd yn y testun, sef dianwadalwch cynghor Duw, a helaethrwydd ei lywodraeth; ac y mae mawr angen arnom am gadw hyn yn y golwg bob amser. Mae llywodraeth Jehofah yn cyrhaedd at bob peth. Y mae nid yn unig ar bob dyn, ond ar *bob peth pob dyn*; a phe caem ni iawn ystyriaeth o hyn, byddai yn help mawr i ni fyned trwy y byd. Y mae llywodraeth Duw nid yn cyrhaedd ein personau, ond ein hamser a'n holl amgylchiadau—adfyd a hawddfyd. Mae y gwr doeth yn dechreu y bennod hon gyda dangos y cysylltiad sydd rhwng cybghor Duw a holl amgylchiadau dynion: “Y mae amser i bob peth, ac amser i bob amcan dan y nefoedd. Amser i eni, ac amser i farw.” Mae pawb, meddwch, yn cael eu geni ryw bryd; na, nid felly; ond amser Duw ydyw. Y mae pob bachgen yn y wlad yn barod i ddweyd, “Byddwn farw ryw bryd;” na, y mae *amser* i farw wedi ei osod. “A gosod o honot ei derfynau, fel nad él drostynt.” Ti âi *hyd at y* terfyn, ond ni elli fyned *drosto*.

Nid yw fod cynghor yr Arglwydd yn sefyll byth, a'i holl ewyllys yn dyfod i ben, yn cyffwrdd dim a dyledswydd dyn; ac nid yw bod dyledswydd i ddyn wedi ei gosod gan Dduw, yn cynylu dim ar gyng-

hor Duw. Y mae ei le priodol i fod i bob peth yn ngweinidogaeth yr efengyl. Gellir pregethu fod holl gynghor Duw yn sefyll, heb roi un cwmwl ar ddyledswydd dyn : a phregethu dyledswydd dyn heb roi un cwmwl ar gynhor Duw. Os na allwn ni wneyd hyn, gwell i ni roi lle i'r sawl allo.

Mae yn amhosibl fod yr *ail* achos byth yn llywodraethu yr achos cyntaf; ac y mae mor amhosibl a hynny fod yr achos cyntaf heb effeithio ar yr ail achos. Ni all y ffrwd effeithio dim ar y ffynon; ond y mae y ffynon yn rhwym o effeithio ar y ffrwd, Yr achos cyntaf o bob peth yw Duw; gan hynny ni all dyn, na dyledswydd dyn, effeithio dim ar gynghor Duw, yr hwn oedd cyn pob peth.—Nid oes un angel yn y nefoedd, na dyn ar y ddaear, yn nghyflawniad dyledswydd yn ddim uwch na'r arf yn llaw y crefftwr.

Gallwn sylwi ar dri pheth am waith Duw : y mae ganddo gynghor *am* bob gweithred, rheol *at* bob gweithred, a dyben *i* bob gweithred.

1. *Cynghor am bob gweithred.* Ni bu yr un saeth ar fwa Jehofah erioed heb nod iddi; ni ollyngodd yr un *random shot* erioed; in osododd gareg erioed mewn gwaith heb *blan*. Yr oedd yr Arglwydd, "cyn bod y byd," wedi rhag-ordeinio pa fodd i wneyd y cwbl oll. "Yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun." Y peth cyntaf a gawsom ni oedd cynghor yr ewyllys, y peth nesaf, gwaith y'r ewyllys.

2. *Rheol at bob gweithred*—pa un bynag fyddo ai barn ai trugaredd. Yn Esay xxviii, cawn weled fod gweithredoedd yr Arglwydd i gyd yn ol rheol. "Mi a osodaf farn wrth liny, a chyfiwnder wrth bwys." Peth *noble* yw gweled dynion yn gweithio wrth liny; ac yr ydym yn ceisio son am Dduw yr hwn sydd yn gwneyd pob peth wrth liny, wrth

hwys. Pa ffordd y mae barnau yn cyrhaedd gwlad ? Pa ffordd y daeth y *cholera* i'n mysg ? Wrth liny'n ! Fe edrych Duw fod y cwbl yn uniawn. "A chyffawnder wrth bwys." *Plummet*, yn ol y Saesneg. Nid plygu y llinyn at y pant wna Duw, ond naddu y cam at y cymhwys ! Mae Duw yn gwneyd hyn gyda chenedloedd y ddaear ; yr ydym ni yn barod i feddwl y goddef Duw fwy genym ni nag eraill ; ond fe allai fod mwy o eisiau ein sgwario nag ydym yn feddwl. Gwelwch fel y gwnaeth Duw â Pharaoh er ys talm. "Yr Arglwydd nid edwyn," ebe y gwr balch. Ti gai ei nabod, Pharaoh, cyn nos yfory ! "Israel nis gollyngaf." Yr wyt yn camgymeryd, Pharaoh ; ti colli nhw rhwng dy ddwylo !

2. *Dyben i bod gweithred.* Mae dau nod gan Dduw, sef (1.) Ato ei hnn, sef ei ogoniant mynegol ei hun. (2.) Atom ninau. Y mae llesâd ei bobl mewn golwg yn y cwbl. Efe a wna i bob peth gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn ei garu. Gorwedd tair blynedd a haner yn y gwely ? Iâ, pob peth !

Sylwn yn awr yn fwy neillduol am waith Duw—
1. Yn nghreadigaeth y byd. 2. Yn cynall a llywodraethu y byd. 3. Yn achubiaeth dynion.

1. *Gwaith Duw yn y greadigaeth.* Gallwn fyned yn mbell, a bod ar galon y mater yr un pryd ; dechreu yn uchder y nefoedd, neu yn nyfnder y môr ; a dyfod yn ol i'r ddaear i orphen— Gwaith ar ei ben ei hun oedd creu—gwaith nad allodd neb erioed ei ddynward. Ni wnaeth efe ddim erioed ond peth nad allai neb ond Duwdod ei gyflawni ; ac y mae argraff y Gweithiwr ar y gwaith. Mae dynion yn gallu gwneyd llawer o bethau ; gallant dynu llun y glôb ; ond nis gall y cywreiniaf o honynt greu cymaint a gwibedyn. Gellwch chwi dynu *picture* y peth, ond Duw yn unig all wneyd y peth. *Creu*—peth rhyfedd oedd hyn, galw i fod y peth nad oedd

yn bod, na dim arwydd am ei fod, na dim defnydd at ei fod. Mae arnaf ofn, meddai un, na welaf dro ar yr achos, oblegyd 'does dim argoel am hyny. Nid wrth dy argoel di mae Duw yn gweithio; ac ni ryfeddwn i pe bai yn achub mwy na'ch haner eto, oblegyd y mae efe yn medru creu. "A'r Arglwydd a grea ar bob trigfa o fynydd Sïon, ac ar ei holl gymanfaoedd, gwmaw! a mwg y dydd, a llewyrch tân fflamlyd y nos; canys ar yr koll ogoniant y bydd amddiffyn," Essay iv. 5.

Mae y creaduriaid a wnaeth Duw yn gynwysedig o dair rhan, sef ysbrydol, dynol, ac anifeiliaid; ac yr ydym ni yn y canol. Fe'n gwnaethpwyd ni ychydig is na'r angylion, y diwrnod goreu, fu arnom, ond llawer uwch n'ar anifeiliaid. Ond nid wyf yn meddwl y digia neb o'r angylion wrth-ylf am ddweyd, Os ydym ychydig yn is na'r angylion yn yr Adda cyntaf, y byddwn ychydig yn uwch na hwy yn Adda'r ail. Nid oblegyd y bydd ein natur ni, fel natur, yn uwch na natur yr angylion, ond am i Fab Duw briodi ein natur. "Ni chymerodd efe naturiaeth angylion, eithr had Abraham a gymerodd efe." Yn y briodas y codwyd ni i gymaint bri; a chan i Fab y Brenin briodi ein natur, ni chaiff neb hyth fyned rhyngddo a ni. Dyma fel y dywed yn y dydd mawr a ddaw, "Wele fi, a'r plant a roddes Duw i mi."

Y mae dynion wedi dweyd, o bob creadur a wnaeth Duw mae dyn yw y rhyfeddaf; ond wrth ddweyd hyn y maent yn mentro dweyd mwy nag a barodd Duw iddynt, oblegyd ni wyddom ni eto beth yw natur angel. Ond hyn a allwn ddweyd, Y mae dyn yn un *od* iawn. "Rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaed." Ac o bob llestr ddaeth o ddwyllaw y crochenydd, dyma y llestr y bu mwyaf o drafodaeth arno. Gwnaeth Duw ef yn *ddyn*; "ar ei dddeir ei hun y creodd

efe ef." Ac erbyn i Dduw orphen y *monument* ardderchog, dyna'r diafol yn ymaflyd ynddo, ac yn ei wneyd yn bechadur, lle gwelai Duw; a Duw yn ymaflyd ynddo eilwaith a'i wneyd yn sant, lle gwelai y diafol. Dyma ddyn wedi ei wneyd, ei ddadwneyd, a'r wneyd drachefn! Yr oedd pob gris yn nghread-igaeth dyn yn myned uwch, uwch. Cam rhyfeddol oedd y cyntaf—g wneyd pridd o ddim; yna gwneyd dyn o bridd; ac wedi hyny gwneyd gwraig o ddyn heb yn wybod iddo. A phwy a all roddi ato, neu gyfnewid ei waith ef? Os ydym am geisio gwneyd *reform* ar waith Duw, dechreuwch lle y mae ef ei hun yn gofyn—treiwch flew eich pen. "Nid ellwch wneuthur un blewyn yn wyn neu yn ddu." Llauer bachgen sydd yn gweled ei hunan dipyn yn rhy fyr, a llauer merch heb fod o'r *shape* a'r wedd & ddy-mnuai; ond "Pwy o honoch gan ofalu a ddichon ychwanegu un enfydd at ei faintioli?"

2. *Gwaith Duw yn cynal ac yn llywodraethu y byd.* Byddai yn dda pe byddai mwy o arwyddion credu hyn yn ein gwlad—mae "yr Arglwydd sydd yn teyrnasu." Gellid meddwl, wrth glywed dynion yn siarad, fod Duw wedi ymddiried haner y gwaith i ni. Mawr yw y *mostur* y dyddiau hyn, am gael hwn a'r llall i mewn i'r senedd. Rhodded Duw gymhorth i ni i edrych yn mhellach na Llundain, ac yn uwch na'r senedd. Mae y gair a ddywedodd Solomon yn deilwng o'n sylw ar y mater hwn: "Os gweli dreisio y tlawd, a thraws-wyro barn a chy. flawnder mewn gwlad, na ryfedda o achos hyn; canys y mae yr hwn sydd uwch na'r uchafyn gwyl-ied, ac y mae un *sgdd* uwch na hwynt." Nid oes neb wyr pwy fydd an frenin yn Ffrainc, neu yn swyddogion llywodraeth Lloegr, yn mhen y flwydd-*yn*; ond gwyddom pwy fydd Ben!

Duw sydd yn gosod lle ein preswylfod, ac yn trefnu ein sefyllfaoedd yn y byd; i.e., y mae holl anifiliaid y ddacar, ehediaid yr awyr, a physgod y môr yn wrthddrychau ei lywydraeth a'i afal manwl ef. "Y rhai hyn oll a ddysgwyliant wrihyt am rodidi iddynt eu bwyd yn ei bryd. A roddech iddynt a gasglant," &c. Pe bai'r Arglwydd yn rhwygo'r llen, diau yr âi llawar adref dan ganu wrth weled mai ein Brawd sydd yn teyrnasu. Ar ei ben y byddo'r goron. Yn ei law y byddo'r awenau.

3. *Gwaith Duw yn achub y byd.* Dyma waith ag y mae llawer o gablu a gwadu arno, ond efe a fydd byth. Iê, dyma waith rydd *eclipse* ar y cwbl a wnaeth Duw erioed. Mae'r nefoedd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwyllaw, ond mae y boreu bron gwawrio pan fydd y son am y pethau yna wedi darfod, a'r dwfr wedi myned oddiar yr olwyn am byth. Pan ddaw merch yr Amoriad adref, wedi ei pherffeithio ar ddelw ei phriod, bydd rhaid i'r holl greadigaeth sefyll yn y rear; a phe dywedid y diwrnod hwnw wrth yr haul, "Haul! cerdd yn mlaen, datgan ogoniant dy Wneuthurwr fel o'r blaen," fe atebai, "Rhaid tewi mwy; Clywaf rai wedi cael o hyd i dòn mwy peraid na dim fedrais i erioed gyrhaedd!"

Onid sylwn ar waith Duw yn iachawdwriaeth ei eglwys gyda golwg ar yr hyn a wnaeth efe er mwyn a thros yr eglwys, a'r hyn y mae efe yn ei wneyd, ac a wna efe i'r eglwys, ac yn yr eglwys.

(1.) Y peth cyntaf a wnaeth oedd *gwneyd cyfamod*; a "bydd hyny byth." Os darfu i'r Duwdod *setlo* pa fodd y mae pethau i fod, fe ddaw y cwbl i ben. Cododd y diafol lawer un i gablu cyfamod Duw, ond y mae heb ei chwalu eto. in chwelir mo hono byth. Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau." Gelli sentro dy fywyd ar

gyfamod Duw. Dyma lle yr aeth Dafydd pan oedd yr holl ffrydiau wedi sychu o gympas y palas breninol. "Er nad yw fy nhy i felly gyda Duw, er nad yw yn peri iddo flaguro;" wel, i bale yr edrychi am gysur, Dafydd? Beth sydd rhyngot a'r gwaelod? Cofio i ti ladd y cawr Goliah, &c. Na, rhaid cael rhyw beth cadarnach na hyny: "Cyfamod tragyddol a wnaeth efe â mi," &c. "Y mynyddoedd giliant, a'r bryniau a symudant," meddai Duw. Yr ydym yn cael esboniad ar hyn eleni; mae'r mynyddoedd yn siglo yn rhyfedd yn awr; gorseddau a breniniaethau y ddaear yn crynu, ac yn cilio. Ni welsom ni y fath beth erioed o'r blaen, ua'n tadau chwaith. Wel, fe aiff y cwbl dros eu gilydd! Na, stopwch; "Eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt." Nid yw yr holl chwythu sydd yn y senedd yn nghylch *reform*, yn cyflwrdd dim â'r hen drefn. Bendigedig am *drefn* i bwysu arni pan aiff Llundain ar dân.

(2) Y peth wnaeth efe *dros* yr eglwys. Deallodd y prophwyd Daniel hyn yn dda. "Y Mesciah a leddir, ond nid o'i achos ei hun; efe a ddybena gam, wedd, ac a ddyg gyfiawnder tragwyddol i mewn." Diolch! am fod yma rai yn yr un dillad heddyw ag y byddant ynddynt byth; mantell ei gyfiawnder ef!

(3.) Yr hyn a wna efe *i'r* eglwys. "Os y Mab a'ch rhyddha, rhyddion fyddwch yn wir." Ni chollir mo honoch mwy. Os rhoddes y Brenin eich penau yn rhydd, pwy a'ch damnia? Bu Balaam a Barac yn ceisio rhegu Israel Duw, ond pa le y maent hwy heddyw? "Pe bai hwn brophwyd," meddai Simon y Pharisead, "efe a wybuasai pwy a pha fath wraig yw hod sydd yn cyffwrdd ag ef." O, y mae yn gwybod yn well na thi, Simon. Iê, pechadures yw hi; a gwaeth eto, un *fawr* ydyw. Ah! ni waeth *beth a fu*; "Maddenwyd ei haml bechodau hi!"

(4.) Yr hyn y mae yn ei wnied yn ei eglwys, "bydd hyn byth.,' Lle bynag y gwelwch ein Harglwydd ni yn cyneu tân ar yr aelwyd, ni ddiffydd y tân byth. Ni welais i neb, meddai rhyw un, yn y fan yma, yn fawr gwell na llin yn mygu, neu gorsen wedi ei hysigo. Wel, gâd i hyn fod. "Corsen vsig nis tyr, a llin yn mygu ni ddiffydd, hyd oni ddygo allan farn i fuddugoliaeth." "Y dwfr a roddwyf fi iddo a fydd ynddo yn ffynon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol." Gadewch i mi ofyn, a gawsoch chwi grefydd a tharddu ynddi, bobl? Cysur mawr yw gweled llawer merch yn myned o Gymru i drefydd mawrion anuuwiol Lloegr, heb golli eu crefydd, ond fel y ferch fach hono o wlad Israel yn nhy Naaman y Syriad, 2 Bren. v., ac Abia, yr hwn y cafwyd peth daioni ynddo tuag ât Arglwydd Dduw Israel, yn nhy Jeroboam! Os ydych chwithau am grefydd a ddeil yn wyneb profedigaethau tanllyd y byd, dymunwch grefydd a Duw yn ddechreu iddi. "Gan fod yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da, ei orphen hyd ddydd Iesu Grist." Bydd yn braf weled y gwaith wedi ei orphen. "Dwylaw Zorobabel a sylfaenasant y ty hwn, a dwylaw Zorobabel a'i gorphen! Efe a ddyg allan y maen penaf, gan waeddi, Rhad, rhad iddo."

"Fel yr ofnai dynion ger ei fron ef." Dyma ddyben yr holl waith. Mae'n gwestiwn genyf a oes un genedl ar wyneb y ddaear, a gafodd fwy o rybuddion ar gost dynion eraill na ni. Os na fyddant o dan fendith i'th gael at draed Duw, fe ddisgyn y gawod ar dy gopa dy hun!

PREGETH III.

CYMHWYSDER I'R ETIFEDDIAETH.

“Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'u gwnaeth ni yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y golcuni,” Col. i. 12.

YR OEDD yr apostol yn y carchar, yn y carchar yn Rhufain pan yn ysgrifenu y llythyr hwn. Nid oedd wedi gweled wyneb neb o'r Colossiaid yn y cnawd. Mae yn debygol fod yr eglwys hon wedi ei henill i'r ffydd trwy weinidogaeth Epaphras; eto yr oedd Paul yn eu cyfarch gyda'r un anwydeb a phe buasent wedi eu galw trwy ei weinidogaeth ef ei hun. Mae hyn yn profi fod Paul yn caru llwddiant ei frodyr yn y weinidogaeth. Dyma wir ysbryd yr efengyl. Yn yr adnodau blaenorol mae yr apostol yn dangos ei fod ef yn ddibaid yn diolch drostynt, am y grasusau yr oeddynt wedi dderbyn gan yr Arglwydd yn barod, ac yn gweddio ar fod iddynt gynyddu yn ngwybodaeth am Dduw. Ac yn yr adnod ddarllenwyd, y mae yn syrthio ar un o brif ddyledswyddau ein crefydd, sef diolchgarwch. Mae esgeulusdra mawr ar y ddyledswydd resymol hon. Dylem gymysgu ein diolchgarwch yn fwy a phob ymarferiadau crefyddol. “Gan ddiolch yn wastad,” &c. Sylwn oddiwrth yr adnod ar dri pheth:—

I. Y ddyledswydd—diolch i'r Arglwydd.

II. Testun y diolchgarwch; gwneyd yn gymhwys.

III. Yr etifeddiaeth y cymhwysir iddi.

I. *Y ddyledswydd.* “Gan ddiolch i'r Tad.” Mae diolchgarwch yn codi o deimlad o rwymedigaeth. Byddai yn dda fod mwy o'r teimlad hwn rhwng dynion a'u gilydd. Ond diolchgarwch y Cristion i'r Arglwydd fel Awdwr ei iachawdwriaeth yw y testun. Mae Duw fel ein Creawdwr yn deilwng iawn o'n diolchgarwch, oblegyd efe sydd yn ein diwallu

â phob daioni. Ond y mae ein dyled yn ddwbl yn ffordd ei ras mewn iachawdwriaeth.

Dylem ystyried tri pheth er cynyrchu ynom ddiolchgarwch i'r Arglwydd. 1. Nad oes gan ddyn ddim ond a dderbynia o ddwylo arall. "A roddech iddynt a gasglant," a dim ond hyny. Nis gellir cloddio drwodd i drysorau yr Arglwydd, a lladrata. Nid yw Gwr y ty hwn byth yn cysgu, ond yn wastad ar ei wylwadwriaeth. 2. Nid oes dim yn y pechadur yn haedu. Mae wedi codi gwrthryfel yn erbyn Duw. "Megais a meithrinais feibion, a hwy a wrthryfelasant i'm herbyn." 3- Er nad yw dyn yn meddu, nac yn haeddu, y mae yn drbyn llawer yn barhaus. "Bob boreu y deuant o newydd; mawr yw dy ffyddlondeb." Ni chododd yr haul un bore-gwaith er y dydd y ganed ni, heb ryw "feddyginiaeth yn ei esgyll" i bob un o honom. O na fyddai i'r ystyriaethau hyn gynyrchu ynom ni ysbryd cyffelyb i eiddo y gwr hwn a ddywedai, "Phiol iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf.

II. *Testun y diolchgarwch* yw, am ein gwneyd yn gymhwys i'r etifeddiaeth. Mae pawb sydd yn cael rhan yn etifeddiaeth y saint, yn cael eu gwneyd yn gymhwys cyn ei hetifeddu. Gwneyd yr etifedd a'r etifeddiaeth yn gymhwys i'w gilydd. Dyma yw gwneyd yn gymhwys' gwneyd y naill i ateb y llall. Weithiau, rhaid gwneyd yn gam i wneyd yn gymhwys. Rhaid gwneyd y bedol yn gam i wneyd yn gymhwys i'r droed. Rhaid gwneyd y reilen yn gam i fod yn gymhwys i'r *curve*.

Pa uchaf fyddo y sefyllfa, mwyaf o waith cymhwyso sydd. Nid y diwrnod y coronwyd Victoria y gwnaed hi yn gymhwys i wisgo coron; ond bu yn cael ei chymhwyso at hyn o'r cawell i fyny. Dinystyr pob sefyllfa yw fod dynion yn myned iddynt heb fod yn gymhwys. Ond chodir neb byth i'r etifeddiaeth hon heb fod yn gymhwys.

Craffwch, eneidiau! Nid bod yn "well na llawer:" nid bod "dipyn yn well nag y buoch," wna'r tro, ond bod yn *gymhwys*. Mae rhai yn barnu y bydd rhai o'r saint yn fwy na'r lleill yn y nefoedd. Wn i ddim beth yw'r gwayw sydd arnynt am fod yn fwyaf yno. Ond so bydd, ni bydd yno neb yn fwy cymhwys na'u gilydd. Bydd yr un lleiaf mor gymhwys a'r mwyaf. Os ydych am yr etifeddiaeth, f'eneidiau, llefwch am fod yn gymhwys, onide welwch chwi byth mo honi! Mae yr Arglwydd yn gwneyd pob peth yn gymhwys; y pysgodyn i'r môr, yr aderyn i'r awyr, yr ymlusgiaid a'r pedwar carnolion i'r ddaear a'r maesydd. Gwnaeth Adda yn gymhwys i'r ardd, a'r ardd yn gymhwys i Adda. Ond ni welir gogoniant Duw yn dyfod i'r golwg yn fwy mewn un cymhwysder na chymwysder y testun hwn: gwneyd dyn yn gymhwys i'r etifeddiaeth yn y goleuni. Bydd y cymhwysder yn gynwysedig—1. Mewn hawl. 2. Egwyddor. 3. Agwedd.

Natur yr etifeddiaeth. Mae yn myned dan ainyw gydmariaethau yn a Bibl, megys, gorphwysfa y saint, ty nid o waith llaw, llawenydd ein Harglwydd, a thrigfanau tragywyddol. Dywed Pedr ei bod yn tra rhagori ar bob etifeddiaeth,—yn "etifeddiaeth anllygredig, dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd."

Etifeddiaeth yn y goleuni yw. Nid oes dim tywyllwch arni. Mae tywyllwch ar wyneb etifeddiaethau y byd yma yn barhaus; awydd am iddynt gynyddu, neu ofn rhag eu colli. Ond dyma etifeddiaeth heb dywyllwch arni. Mae ei Duw hi yn trigo yn y goleuni; mae ei hetifeddion yn blant y goleuni. Ac y mae yn rhy uchel i'r diafol godi cwmwl arni yn dragywyddol. Etifeddiaeth yn y goleuni. Gwnated Duw ni oll yn etifeddion cymhwys iddi. Amen.

PREGETH IV.

GWYBOD YR YSGRIFYR LAN.*

“Ac i ti er yn fachgen wybod yr ysgrythyr lan, yr hon sydd yn abl i'th wneuthur yn ddoeth i iach-awdwriaeth, trwy y ffydd yr hon sydd yn Nghrist Iesu,” 2 Tim. iii. 15.

Y FARN gyffredin yw, o'r holl lythyrâu a ysgrifennodd Paul mai hwn oedd yr olaf. Darllenwch y llythyr hwn drwyddo, ac edrychwch iddo wrth ei ddarllen, a chwi a ganfyddwch fod yr apostol yn gwneyd ei beth olaf. Peth difrifol yw gweled dyn yn gwneyd ei beth olaf. Mae y Saeson yn galw y llythyr hwn weithiau yn “*Paul's last will and testament*.” Yr oedd, mewn ystyr, yn gwneyd ei ewyllys, a hyny yn y carchar. Y mae yn trefnu sut oedd pethau i fod ar ol ei ymadawiad, Gwyr pob dyn sydd wedi gwneyd ei ewyllys mai peth difrifol ydyw; ac os oes yma rai heb wneyd hyny, cynghorwn chwi i'w wneyd gyda brys. “Trefna dy dy, canys marw fyddai, ac ni byddi byw.”

Yn y bennod nesaf dywed yr apostol, “Myfi yr awr hon a aberthir, ac amser fy ymddatodiad a nes-aodd.” Yr wyf yn myned i selio yr athrawiaeth a bregethais, ac a ysgrifennai, â'm gwaed, Wrth fod yr apostol yn edrych yn mlaen yr oedd yn oleu arno; nid oedd mor oleu o'i ol. Os bydd yn dywyll ryw ffordd wrth farw, gwell iddi fod yn dywyll yn ol. Sut y mae yn mlaen, Paul? “Coron cyfiawn-

*Cymerwyd nodiadau o'r bregeth hon gan “R. J.” wrth ei gwrando yn ysgoldy York Terrace, Liverpool, yn 1858, a chyhoeddwyd hwynt yn y *Drysorfa* am Ionawr, 1863. Yr ydym wedi cyferbynu y bregeth fel yr ysgrifennwyd hi gan yr awdwr (yn 1858) a'r nodiadau yn y *Drysorfa*, a gwneyd rhai cyfnewidiadau.

der yn nghadw i mi." Y mae yn gallu edrych yn nlaen heb ddyrsu; ond wrth edrych yn ol ar yr arch yn disgyn l ddwyllaw rhai tebyg i chwi a min. au, yr oedd yn fwy tywyll arno. "Canys daw amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf," &c. Y mae yn rhybuddio Timothy yn herwydd gau athrawon a ymlusgent i'r eglwysi, "a chanddynt rith duwioldeb ond wedi gwadu ei grym hi." Darpara di, Timothy erbyn y tywydd garw; fe ddaw "amseroedd enbyd." Beth fydd yn eu gwneyd mor enbyd? "Bydd dynion a'u serch arnynt eu hunain."

Darllenwch yr adnodau yn nechreu y testun, a chwi gewch weled fod Paul yn nodi dau ar bymtheg o bechodau ydynt yn tarddu oddiar 'y gwreiddyn hwn. Beth ydyw? "*Serch arnynt eu hunain.*", Serch ar *number one*. Nid oes eisiau i chwi feddwi, fy eneidiau, neu dyngu a rhegu, i fyned i uffern; y mae serch arnoch eich hunain yn ddigon i'ch *sinko* byth! Nid oes dim a gwyd ddyn uwchlaw hunan ond duwioldeb. Y mae Paul yn cynghori Timotheus, "Bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus." Gochel y *system* newydd, Timothy; dal at yr hen *system*, "yr hon a glywaist genyf fi, yn y ffydd a'r cariad sydd yn Nghrist Iesu." Yn yr adnod o flaen y *text* dywed, "Aros di yn y pethau a ddysgaist, ac yr ymddiriedwyd i ti am danynt, gan wybod gan bwy y dysgaist," neu, gan gofio gan bwy y dysgaist; yr hen egwyddorion a ddysgodd dy fam a'th famgu i ti. Yr oedd y ddwy hen wraig yn berchen y "ffydd ddiffuant." Dal di, Timothy at hen egwyddorion aelwyd dy fam, a phaid myned ymaith gyda phob awel dysgeidiaeth—a gâd y canlyniad i'r Arglwydd.

Yr wyf yn credu fod yma yn fy ngwrndo yn awr ugeiniau wedi cael eu dwyn i fyny fel Thimotheus, yn grefyddol, ac y gallaf fi fentro dweyd, Os ced-

wch at gynghorion eich mam, ewch yn *safe* trwy y glyn. Yr un egwyddorion ddysgais inau i ti, meddai yr apostol, fel tad ei blentyn; aros ynddynt byth. Ac yn awr yn y *text* mae yn rhoddi desgrifiad o chwaeth y bachgen: "Ac i ti, er yn fachgen, wybod yr ysgrythyr lân," &c. Mae dros ddeunaw cant o flynyddoedd er pan oedd y bachgen hwn yn byw; ond cododd duwioldeb ei garitor mor uchel, fel y mae yn aroglu yn esmwyth yn y *school-room* yma heno. Gallaf ddweyd wrthy ch, fy ngwrandawyr, i mi ddyfod yma atoch heno oddiar fy nghliniau—wn i ddim sut y daethoch chwi; ond gwn y byddai ein cyfarfodydd yn llawer gwell pe delai pawb iddynt oddiar eu gliniau.

Yn awr cymerwn olwg ar rai o'r pethau a nodir yn ngharictor y dyn hwn gan yr apostol, i fod yn destun sylw am ychydig amser.

I. Yr YSGRYTHYR LAN. Diolch i Dduw am ryw beth glân mewn byd ag y mae cymaint o aflendid ynddo.

II. TIMOTHEUS WEDI DYFOD I WYBOD YR YSGRYTHYR LAN. Nid ei *glywed*. Achuba ef byth o honoch heb ei *wybod*; ac yr oedd y gwybod hwn yn gwn-eyd Timotheus yn ddoeth i iachawdwrieth.

III. Y TYMHOR Y DAETH TIMOTHEUS I'R WYBODAETH YMA—"er yn fachgen." Yn ol y Saesneg "*from a child*." Dyna fachgen *beautiful*. Ond yn—

I. Yr YSGRYTHYR LAN. Wrth yr ysgrythyr yn y fan yma y mae i ni ddeall yn benaf ysgrifeniadau yr Hen Destament, oblegyd nid oedd ond ychydig neu ddim o'r Testament Newydd mewn ysgrifen pan oedd Timotheus yn fachgen. Mae hyny yn dangos ar unwaith fod y Testament, yr Hen yn gystal a'r Newydd, yn wir air Duw, onide ni fuasai yn cael ei alw yn ysgrythyr lân yn y testun. Trwy ysgrythyrau yr Hen Destament y daeth y bachgen hwn o

hyd i'r wybodaeth a'i gwnaeth ef yn ddoeth i iach-
awdwriaeth. Gelwir y datguddiad dwyfol yn ys-
grythyr lân i'w ddynodi oddiwrth bob ysgrifeniad-
au eraill. Y Bibl, yr holl Bibl, a dim ond y Bibl;
dyma yr ysgrythyrau. Mae dynion yn prynu llyfr-
au da, a rhai llyfrau canolig; ond nid oes dim o'r
"ysgrythyr" i'w chael ond yn y Bibl. Mae wedi
bod mewn llawer o ddwyllaw digon canolig; ond y
mae hi yn lân wedi'r cwbl.

1. Y mae yn lân oblegyd oi Hawdwr—yr Ysbryd
Glân. "Yr holl ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi
trwy ysbrydoliaeth Duw. Dynion santaid Duw a
lefarasant mgys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ys-
bryd Glân." Mae y Bibl yn mhob rhan o hono
yn profi ei Awdwr. Yr oedd llaw yr ysgrifenydd
yn llaw yr Ysbryd wrth ei ysgrifenu. Nis gall fod
arno ond argraff ddwyfol.

2. Ysgrythyr lân, oblegyd purdeb ei egwyddor-
ion. Holl air Duw sydd bur. "Cyfraith yr Arg-
lwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid: tystiolaeth
yr Arglwydd sydd sicr, ac yn gwneuthur y gwir-
ion yn ddoeth. Deddfau yr Arglwydd sydd un-
iawn, yn llawenhau y galon; gorchymyn yr Arg-
lwydd sydd bur, yn goleuo y llygad. Ofn yr Arg-
lwydd sydd lân, yn parhau yn dragywydd; barnau
yr Arglwydd ydynt wirionedd, cyflawn ydynt igyd."
Gelli di, bechadur, fentro dy enaid ar bob llinell o
air Duw.

3. Ysgrythyr lân yn ei heffeithiau. Dyma yr
unig foddion at olchi pechadur oddiwrth ei lygred-
igaeth. Yr "olchfa ddwfr trwy y gair" sydd yn
puro y saint oddiwrth eu haffendid. Os byth y
glanheir chwi oddiwrth eich pechodau, rhaid i hyny
gymeryd lle trwy air Crist. "Yr ydych chwi yn
lân trwy y gair a leferais i wrthyh."

II. GWYBOD yr ysgrythyr lân. Y caffael mwyaf a gafodd y byd erioed yw caffael gair Dnw, a'r caffael nesaf at hyny yw ei wybod; canys hwn yn unig a wna ddyn "yn ddoeth i iachawdwriaeth."— Mae llawer yn gwybod ai ddarllen heb ei wybod i iachawdwriaeth. Mae llawer yn gwybod ei bregethu, heb wybod dim am ei rinwedd. Nid gwybod ei ddarllen yw y cwbl. "Y mae ef yn ddarllenwr da, ac yn gwybod cadw y *stops*." Fe allai; ond a yw ef yn cadw y *stops* mae Duw wedi eu rhoddi yn ei air at ei gadw ef rhag pechu? A wyr ef pa bryd i *stopio* rhag pechu? Ni chymerwn mo'r byd am ddweyd yn erbyn gwybodaethau eraill; ond mentraf ddweyd nad oes yr un wybodaeth ond "gwybod yr ysgrythyr lân" a'ch gwna yn ddoeth i iachawdwriaeth." Gelli fod yn *mechanic*, heb wybod dim am Fibl. Gelli fod yn gapten llong, a hwylio llong oddiyma i'r India ac yn ol yn *safe*, heb wybod dim am yr ysgrythyr. Ond nid ai i'r nefoedd byth heb yr ysgrythyr, ac heb ei *gwybod*. O bob gwybodaeth dyma yr uchaf—gwybod yr ysgrythyr. Yr wyf yn ystyried fy mod yn siarad wrth lawer yma heno sydd yn gwybod yr ysgrythyr mewn llawer ffordd, ac eto mae arnaf ofn na wnaeth hi erioed mo honynt "yn ddoeth i iachawdwriaeth." Hwyrach fy mod i yn camsynied; ond os ydwyf, camgymeriad diniwed iawn ydyw. Byddaf yn barnu nad oes yr un genedl dan haul yn gwybod cymaint o'r ysgrythyr a'r Cymry. Yr ydym o flaen y Saeson yn hyn, ac o flaen y Gwyddelod yn sicr; ni wyddant hwy, druain, fawr am dani. Ond y mae canoedd yn ein gwlad, er hyny, heb wybod digon i'w gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth. Gofynwch gwestiynau iddynt am hanes y greadigaeth. Ho, y mae pawb yn gwybod hyny. Gofynwch wedi hyny iddynt hanes y cwmp. Oh,

y mae plant bach yn gwybod hyny; fel y dywed y penill—

“Yn Eden cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwylith,” &c.

Ond nid ydynt yn ystyried dim wrth ganu y penill, Maent yn ei ganu dan chwâreu. Gofynwch paham daeth yr Arglwydd allan yn ei anfoddlonrwydd yn erbyn byd pechadurus, gan ei ysgubo i ddystryw; mae yn gwestiwn rhy *simple*—mae pawb yn gwybod hyny. Pe gofynid am dynged dinasoedd y gwastadedd—am Corah, Dathan, ac Abiram,—am luaws o farnau Duw ar annuwiolion, am enedigaeth Bethlehem, am fywyd, dyoddefiadau, marwolaeth boenus, adgyfodiad ac esgyniad yr Arglwydd Iesu, ac am ei ddyfodiad yr ail waith ar gymylau y nef i farnu y byw a'r meirw; mae pawb o honom, chwi ddywedwch, yn gwybod yr holl bethau yna. Peth rhyfedd, ynte, na baech yn teimlo o'u herwydd. Yr oedd gwybod Timotheus yn llawer mwy na hyn—gwybod i fod “yn ddoeth i iachawdwriaeth.”

Mi enwaf dri pheth sydd yn gynwysedig mewn gwybod yr ysgrythyr lân, tuag at gael y ddoethineb hon:—

1. Gwybod y Bibl trwy ei *gredu*. Ydych chwi yn cofio yr hyn ddywedodd Iesu Grist wrth y Pharisaid? “Ond chredwch chwi mai myfi yw efe chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau.” A gair anwyl ddywedodd Paul a Silas wrth y *jailor* Philppi: Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi.” Ni ddoi dithau, enaid, byth i afael iachawdwriaeth heb gredu.

2. Gwybod y Bibl trwy ei *garu*. Nid fel ymerawdwr China yn ddiweddar; yr oedd hwnw yn *signo* y cytundeb â'r galluoedd unol am ei fod yn cael *ei orfodi*. Ond y mae trefn Duw yn enill y serch-

iadau. "O'i wir ewyllys yr enillodd efe nynti." Mae Paul yn ysgrifenu at y Corinthiaid, "Pe byddai genyf brophwydoliaeth, a gwbod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth, ac heb gariad genyf, nid wyf fi ddim." Wyt ti ddim *llawer* Paul? "Nid wyf fi ddim," Dyma y dynion fydd yn siomedig yn y diwedd, y rhai sydd yn meddwl eu bod yn gwybod y cwbl, a hwythau heb wybod dim.

3. Gwybod y Bibl trwy *ymostwng i'w awdurdod*. Wedi credu y Bibl, nid oedd yn bosibl peidio ei garu; ac nid oes modd i'w garu, heb gwmpo i mewn a'i reolau. Beth barodd i Daniel ddewis ffau y llewod, yn hytrach na rhoi fyny gweddio? Awdurdod y Bibl. Beth barodd i Shadrach, Mesach, ac Abed. gnegu, ddewis y ffwrn dân yn hytrach nag ymostwng i ddelw aur y brenhin Nebuchodonosor? Brenhiniaeth yr ysgrythyrau. Cofio oeddent yr hen eiriau, 'Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethu.' Beth gadwodd Joseph yn awr y brofedigaeth? Awdurdod gorchymyn Duw: "Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw!"

III. YR AMSER y daeth Timothy i wybod yr ysgrythyr: "er yn fachgen." Fe ddaeth i'r ysgol hon yn ei ieuentyd. Y mae tri pheth yn codi o'r pwnc hwn mor naturiol a'r haul yn codi y boreu o'r dwyrain. 1. Ieuentyd yw yr amser mwyaf manteisiol.

2' Yr amser mwyaf tebygol. 3. Yr amser y rhaid i fwy na'ch haner i gael y wybodaeth hon, neu ei cholli am byth.

1. Dyma yr amser mwyaf *manteisiol*. O Arglwydd, helpa fi i ddweyd nes i'r bechgyn yma deimlo! Welwch chwi noswaith byth mor fanteisiol a heno i gofleidio crefydd. "Ié," meddech chwi, "y mae dynion yn cael crefydd yn hen." Oes, ambell un; ond yr wyf yn credu am bob un y mae yr Arg-

Iwydd yn achub yn hen, ei fod yn achub *deg* mewn ieuencyd. Os oes yma rhyw un heno wedi ei achub ar ol myned yn hen, gwn mai ei ofid penaf yw, iddo fod cyhyd yn ngwasanaeth y cnawd. Chwi glysoch ganwaith o'r pwlpudd mai trugaredd nad allasai neb ond Duw ei gwneyd, oedd achub y lleidr ar groesbren Golgotha. Iê, ond trugaredd fwy fuasai iddo gael ei achub cyn gwneyd gwerth ei groeshoelio. Trugaredd anmhrisiadwy oedd i Rahab y butain gael yr edau goch i gadw ei bywyd; ond trugaredd fwy fuasai iddi gael ei chadw cyn ei throchi yn mhydewau y cnawd. Ieuencyd! chwi addefwch fod eisiau cael crefydd ryw bryd cyn marw. A wyddoch chwi beth? y mae yn werth cael crefydd pe baech chwi heb farw byth. Diolch i medd rhai o honoch heno, am gael bod o dan faner Iesu yn foreu. Oh! pa sawl mab a merch fagwyd yn swyn yr efengyl, mewn teuluoedd crefyddol, ond a dorasant dros ben pob rheolau cyfraith y ty? Llithrasant gyda themtasiynau, fe'u hudwyd gan chwantau llygredig yr oes, ac y maent erbyn heno wedi ymgaledu yn eu pechodau. Pa sawl merch ieuanc a godwyd ar aelwyd gweddi, ond a ymollyngodd i lygredigaethau yr oes, ac a gollodd ei charitor cyn ei bod yn ugain oed? Arglwydd, achub yr ieuencyd hyn yn foreu!

2. Dyma yr amser mwyaf *tebygol*. Mae yn natur pechod galedu y pechadur. Rhegwch unwaith a chwi regwch yr ail waith yn rhwyddach: rhegwch ganwaith, a chwi ewch i regu wedi'n heb wybod i chwi eich hunain. Wedi meddwi unwaith, chwi feldwch y tro nesaf yn rhwyddaech o lawer. Cal-edu sydd yn natur pechod. Yr wyf yn nabod dyn sydd yn awr yn ddeugain oed, wedi ei ddwyn i fyny ar aelwyd grefyddol, a'i godi i fyny fachgen bach yn yr Ysgol Sul. Tystiau iddo deimlo cymbelliad-

au crefyddol lawer tro yn leuanc, "ond," meddai, "yn lle eu mhagu, mi a'u mhogais â fy chawantau; ac nid wyf yn teimlo dim yn awr wrth wrando pregeth, nac wrth ddarllen y Bibl. Mae Duw wedi fy rhol i fyny!"

Bobl, dyma chwi, ugeiniau o honoch, yn cael baint na chafodd ugeiniau o'ch cyd-ddynion erioed mo honi—cael mwynhau gweinidogaeth yr efengyl.

A chofiwch, os na dderbyniwch y gair yn yr amser cymeradwy, y bydd raid i chwi ddyoddef i'r Barnwr ddywedyd ryw ddiwrnod, "Yn gymaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried; ond dystdrasoch fy holl gynhor I, ac ni fynoch ddim o'm cerydd! minnu hefyd a chwaddaf yn eich dialedd chwi," &c.

Ooh! y pechadur yn galw, a Duw yn chwerrhin! Beth soniwch chwi am gael diacon, neu weinidog i weddio drosoch, pan fydd Duw yn gwawdio uwch ben eich ing! Pob dyn sydd ag *interest* yn y nefoedd, gweddled na byddo i neb a ddaeth i'r ysgoldy yma heno gael ei flingo gan y gyllell hono,—“Ephraim a ymgysylltodd ag eilunod; gâd iddo!” Gâd iddo, gynghor ei fam; gâd iddo, weddi ei dad; gâd iddo, drugaredd! I ba le yr â hwnw wedi'n? I dy-wyllwch tragwyddol! Ond diolch i'r nefoedd nid oes neb o honoch chwi wedi cael eich cyfarch yn y gelriau yna hyd heno. Yr wyf fi yma dros Dduw i gyhoeddi wrthyhych, “Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na ehaledwch eich calonau.” Ac os na wrandewch, edrychwch ati; rhaid i chwi fyned dan y cyfrifoldeb!

PREGETH V.

FFYDDLONDEB DUW,

“Os y'm ni heb gredu, eto y mae efe yn aros yn ffyddlaw: nis gall efe wadu ei hun,” 2 Tim. ii, 13.

Yr hwn a ysgrifennodd y geiriau hyn, oedd yr apostol Paul; a'r hwn yr ysgrifennwyd hwynt ato oedd Timotheus. Darllenwch amgylchiadau y geiriau, a chewch weled fod Paul wedi rhoddi gorchymyn pendant i Timotheus i adrodd y pethau a gynwysir yn gyhoeddus, i glywedigaeth y bobl. Nid rhyw beth i fod rhwng Paul a Timotheus yw y *text*, ond peth i fod rhwng y ddau a'r gynulleidfa. Ac os oedd y *text* hwn yn werth myned ag ef i wyneb cynulleidfa yn amser Paul, mae yr un gwerth ynddo i ddyfod i'ch gwyneb chwithau heno. Mae yma luaws o honoch yn nghyd, ond y mae'r *text* yn ddigon i bawb. Beth oedd siars Paul i Timotheus i'w ddyweyd wrth y dyrfa? Os oeddent heb gredu, eto fod Duw yn aros yn ffyddlon, ac nas gallai efe wadu ei hun.

Mae yn ddigon tebyg fod yma rai heb gredu; peidiwch a'u claddu yn fyw; mae genyf fi *dext* heno i'r rhai sydd *heb gredu*. “Mae efe yn aros yn ffyddlon; nis gall efe wadu ei hun.” Os cyfarfyddwch â dyn heb fyned i uffern, chwi gwrddwch â digon iddo yn y *text* hwn. Mae y Bibl yn debyg i siop y *jeweller*; ewch yno, a chewch fodrwy i ffitio bysedd pawb. Felly yr ysgrythyrau, cewch yma ddigon yn cyfateb angen pawb. Bydd yn hoff iawn genyf fi cael cyfarch cynulleidfaoedd ar *dext* na byddo dim *ods* pwy fo'r gwrandawyr. “Os y'm ni heb gredu.” Beth am hynny? 'Dyw hi ddim yn rhy ddiweddar. Nac ydyw, nac yn rhy gynar chwaitli.

Mae y *text* yn dal cysylltiad a'r adnod flaenorol: “Os dyoddefwn, ni a deyrnaswn gydag ef; os gwad-

wn ef, yntau hefyd a'n gwad ninau. Os y'm ni heb gredu' eto.mae efe yn ffdlon." Caffed y tri "os" yma le yn eich meddwl. "Os dyoddefwn, ni deyrnaswn." Os gwadwn ef," fe'n gwedir ninau. "Os heb gredu, y mae efe yn aros yn ffyddlon." Ysbryd Duw wnelo le i'r pethau hyn yn eich meddyliau!

Tybia rhai fod yr "eto" yn y testun i'w olygu fel hyn: "Os y'm ni heb gredu, eto y mae efe yn aros yn ffyddlon;" hyny yw fod yr Arglwydd yn aros yn ffyddlon i'w fygythion ar bawb sydd heb gredu. Mae hyna yn wir, ond pa un ai y gwir syd yn a testun yw, sydd gwestiwn. Nid oes dim yn fwy sicr na chyflawniad pob rhan o lyfr Duw.— "Nid â yr un iod na'r un tipyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblheir oll." Mae yn wirionedd diamheuol y cyflawna yr Arglwydd ei fygythion ar bawb fydd byw a marw yn anngheredinwyr.

Mae eraill yn esbonio y geiriau fel hyn,—fod yr Arglwydd Iesu yn aros yn ffyddlon yn nghanadwri yr efengyl i alw pechaduriaid i edifeirwch, cyhyd ag y byddo lamp eu bywyd heb losgi. Yn awr, nid ydym yn myned i wasgu y naill esboniad ar eich meddwl na'r llall; dewiswch yr un a fynoch neu gwnwch well esboniad eich hunain, os gellwch.

Ond wrth ystyried y gair "ffyddlawn." yn ol yr arferiad cyffredin o hono, mi feddylw'n ei fod yn fwy priodol i gael ei gysylltu â thrugaredd nag â barn; ac y mae yn gwestiwn genyf a ffeindiwch chwi y gair ffyddlawn, wedi ei gysylltu â barnedi-gaethau yr Arglwydd yn yr holl Fibl; ond y mae wedi ei gysylltu a'i drugaredd lawer gwaith, megys yn y geiriau, "ffyddlawn yw yr hwn a addawodd, yr hwn hefyd a,i gwna."

Ond nid awn i geisio penderfynn beth oedd meddwl pendant yr apostol yn y geiriau, ond gallwn

dyny y casgliad hwn oddiwrth gorph yr ysgrythyr heb wneyd dim cam â hwynt, sef, fod Crist yn ngweinidogaeth yr efengyl, yn aros yn ffyddlawn i wahodd pechaduriaid yn nydd gras i edifeirwch, megys yn y geiriau hyny, "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear." Wrth bwy y mae yn llefaru? Wrth bawb sydd ar y ddaear. "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddliau." I ba le yr â efe? "Dychweled at yr Arglwydd."—Sut fydd hi wedi'n? "Efe a gymer drugaredd arno."

Yn awr. sylwn ar FFYDDLONDEB DUW: "Eto y mae efe yn aros yn ffyddlawn."

Bu llawer yn ffyddlawn unwaith, ond nid ydynt yn aros yn ffyddlon. Un ffyddlawn oedd dy fam; ond pa le y mae yn awr? Yn y bedd! Un ffyddlawn oedd tad dy blant; ond nid yw yntau wedi aros.—Ond dyma Un yn aros, ac yn aros yn ffyddlawn—Mae rhai o, ch hen gyfeillion yn aros, ond nid ydynt yn aros yn ffyddlawn. Yr wyf yn cofio y dydd pan oeddwn yn fachgen bach yn myned gyd'm rhieni i'r cyfarfodydd, ac yn cefio clywed yr hen bregethwyr yn dyweyd am Grist yr adeg hono, ei fod yn galw pechaduriaid ato, ac yn dyweyd, "Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Mae ef yr un yn awr: "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Mae yn aros yn ffyddlawn. Cewch ambell un yn barod i gyflawni ei addewid, ond nis gall; cewch arall a all, ond ni wna: ond dyma Un y gallwn fentro dyweyd am dano,—*fe all, ac fe wna* hefyd.

Edrychwn ar y briodoledd o *ffyddlondeb yn Nuw* yn ei chysylltiad â threfn fawr iachawdwriaeth. Mae y naill briodoledd yn yr hanfod ddwyfol yn tasfu goleuni ar briodoledd arall. Mae ffyddlondeb yn y Jehofa yn tasfu dysgleirdeb ar holl briodol-

iaethau eraill ei natur. Fuasai doethineb i drefnu yn werth dim heb ffyddlondeb i gyflawni. Nid yw gallu i wneyd yn werth son am dano, os na fydd ffyddlondeb i'w ddwyn i ben. Os oes y fath beth wedi bod a chyfamod rhwng y Drindod yn achos iachawdwriaeth pechaduriad, mae ffyddlondeb Duw at amodau y cyfamod hwnw, yn sail i ddysgwyl y gwelir ni gartref yn ddyogel ryw ddiwrnod. Os oes y fath beth a chyfamod y prynedigaeth, a Christ yn peidio rhoi iawn dros y rhai y meichniodd yn eu lle, buasai anffyddlondeb yn y Meichiau yn gwneyd y cyfamod yn ddiwerth. Pa brofion sydd genych na bu felly? Geiriau Duw. "Gollwng ef yn rhydd, mi a gefais iawn!" Beth ddaeth a'r euog yn rhydd? Iawn. Pe na byddai i'r Ysbryd Glân gymhwyso doniau y brynedigaeth at y prynedigion, buasai anffyddlondeb y trydydd Person i'r Tad a'r Mab yn rhwystr cyflawniad y cyfamod. "O lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir ef." Dyna'r hen *system* i arwain dynion i benrhyddid. Nage. Yr wyf yn sier mai y dynion godwyd uchaf i olwg cadernid a sierwydd y drefn, yw y dynion sydd yn byw lwyraf i'r Gwr a'i dyfeisiodd.

Edrychwn ar FFYDDLONDEB CRIST, oblegyd ato ef yn benaf y cyfeirir yn y testun. Ydych chi yn cofio y geiriau hyny, "A Chyfryngwr nid yw i un?" I bwy y mae ynte? I ddau. "Eithr Duw sydd un." A oes mwy nag un Cyfryngwr. Nac oes; ond nid i un y mae efe, ond i ddau. Ystyr y gair Cyfryngwr yw, cyd-rhwng—un yn y canol. Un i ddau yw ef—i'w Dad, ac i ninau. A gellwch ysgrifenu hwn yn ddwbl uwch ei ben, i'r ddwy blaid, "Mae efe yn aros yn ffyddlon."

Mae Crist fe! Cyfryngwr wedi ei eneinio i dair o swyddau—prophwyd, offeiriad, a brenin. Mae yn y tair swydd yna yn awr, ac yn "aros yn ffyddlon"

yuddynt. Beth mae yn wneuthur i'r eglwys fel prophwyd? Dysgu rhai ffol yn ddoeth i iechawd-wriaeth. Beth y mae yn wneuthur yn ei eglwys fel brenin? Teyrnasu—bod yn Ben ar ei gorlan. 'Does dim *Jacobites** yn codi yn ei deyrnas ef byth. Mae yn argraffu ei gyfraith ar galonau ei ddeiliaid. Mae fel brenin yn ymlid y gelynyon o'i flaen. Trwy gynorthwy byddinoedd y mae breninoedd y ddaear yn amddiffyn eu deillaid; ond nid fel hyny y bu yma, pan oedd ein Pen Cadben ni yn wynebu y frwydr: "Ac o, r bobl nid oedd neb gydag ef.", "Edrychais," meddai, "ac nid oedd gynorthwywr; yna fy mraich fy hun a'm hachubodd, a'm lliidiagrwydd a'm cynaliodd." Y goron fo ar ei ben!

Mae yr Hollalluog wedi ein gwneyd ni yn greaduriaid *handy iawn*. Yr ydym yn gyflymach na'r *telegraph*, yn gynt nag *electricity*. Edrychwch ar gynulleidfa meibion Israel wrth y Mòr Coch—y mòr o'u blaen, Pihiroth a Baalsephon un o bob ochr iddynt, a Pharaoh o'r tu ol. Maent wedi eu *block-adio*. Pe buasech yn gofyn iddynt,—Israel, pa le mae y Gwr mawr a'th ddygodd o'r Aipht? Dyna hi wedi cau yn *round about* i ti! Na, y mae yn rhydd eto i'r top. Sion, pa le mae dy Frenin heddyw? Mae "yn aros yn ffyddlon." Dyro dy wialen ar y mòr, Moses. Nid anfon cerub a wnaeth i hollti y mòr, ond dweyd wrth Moses, Dyro dy wailen ar y mòr, Moses, gael i Dduw ddod i'r golwg. Mae ef "yn aros yn ffyddlon."

Dacw Jonah yn mol y mortil; fe dyr ddanedd y pysgodyn cyn y collir Jonah; y mae yn aros yn ffyddlon. "Nis gall efe wadu ei hun." *Wnaiff e ddim?* 'Dall e ddim! Mi dybiais i mi ddarllen yn fy Mibl y gall Duw bob peth. Mae hyny yn fy

**Hereticiad*, neu wrthryfelwyr yn orbyn y llowodraeth.

Mibl inau hefyd. Wel, os gall ef *bob peth*, pa'm nad all ef wadu ei hun? Ho, mi ddywedaf wrthyf; amherffeithwydd yn gyffredin mewn dynion yw yr achos o'u hanallu, oud perffeithrwydd Crist yw yr achos o'i anallu ef. Amherffeithrwydd Abraham barodd iddo wadu Sarah—mae hyny yn *blot* ar ei gymeriad byth. Yr oedd yn dda gan Abraham am Sarah; oedd, ond yr oedd yn well ganddo am dano ei hun. Paham y gwadodd Abraham Sarah? Am nad oedd ddigon perffaith. Ond am Grist, wad ef byth mo Sarah—y mae yn berffaith. Amherffeithrwydd Pedr barodd lldo regu wrth y tân glo a dweyd nad adwaenai mo'i Feistr. Paham y gwadodd Pedr ei Feistr? Am ei fod yn amherffaith. Wada ef byth ond hyny mo hono. Ond am fod Crist yn berffaith, wadodd ef ddim o Pedr. Gan ei fod yn aros yn ffyddlawn, ac nas gall ei wadu ei hun, dos ato heno, a dywed, Mi glywais yn yr oedfa dy fod yn derbyn y penaf o bechaduriaid, ac mi glywais na wedi mo honot dy hun; dyma finau ar lawr. Cei weled na thery efe byth mo honynt ar wlar.

Nid wyf fi erioed wedi gallu gweled arfaeth, a chyfamod y prynedigaeth, a ffyadlondeb y pleidiau i'r cyfamod, a gwahoddiad cyffredinol yr efengyl, yn cydsefyll, meddai rhywun. Beth, er hyny, os ydynt? Os wyf wedi fy ethol, mi ddenaf at grefydd ryw bryd, ond os heb hyny, ar ol y byddaf. Y cythraul ddysgodd y stori yna gyntaf erioed i ddyn. Os heb gredu, y mae yn anmhosibl i chwi wybod pa un a etholwyd chwi ai peidio. Nid neidio i dop yr ysgol y mae y Cristion, ond ei dringo bob yn ffon. Beth yw y peth cyntaf? Wnebu fel pechadur, ar dystiolaeth y gair am Fab Duw, a dringo i fyny bob yn dipyn.

Pan oedd Joseph yn yr Aipht, beth gododd ei frodyr i fyned o Gannan yno? Gwybod a gawsant

fod Joseph yn llywydd ar y wlad? Na, ni wyddent ddim. Onid anfonwyd gair atynt fod perthynas iddynt yn *managio* yr yd yn yr Aipht? Naddo. Beth a'u cododd yno, ynte? Mi ddywedaf wrthyeh; teimlo chwant bwyd yn wlad lle yr oeddynt yn byw, chlywed fod yd i'w gael yn ngwlad yr Aipht, a myned yno ar *fenter*. Felly y pechadur; y mae yn myned at Dduw ar *fenter*. Fe ddaeth newyn i'r wlad, a dacw y bechgyn yn myned i'r Aipht i brynu lluniaeth. Maent yn dod yn ol, ac yn gwybod pwy yw llywydd y wlad? Nac ydynt; ni wyddent pwy ydoedd. Fuasai waeth iddynt heb fyned yno, ynte? O na, fe dalodd y daith yn glyfer iddynt — cawsant fwyd i'w cadw yn fyw. A wyddent hwy pwy oedd y llaw a'i rhoddodd iddynt? Ona wyddent; ond gwyddent fod y bwyd yn dda. Pe gofynoch i lawer Cristion, I ba ddyben yr wyt ti yn myned ar dy /liniau? A gefnist ti ddatguddiad foddy Brynwr yn fyw? Naddo. Felly y mae y cwbl yn *labour in vain*? Nac ydyw, mi gefais fwyd i fyned yn mlaen.

A wyddoch ehwi, fe ddaeth perthynas Joseyh a'i frodyr i'r golwg wrth *ddelio* ag ef; a boreu hynod oedd boreu y datguddio. Trowch yr Aiphtiaid allan bob un, meddal Joseph. Yr oedd yr Aiphtiaid yn dy weled yn rhanu yr yd a'r arian, Joseph. Gwir, ond y mae peth llawer mwy na hyny yn myned yn mlaen yn awr. Beth yw hyny? Y berthynas yn ei datguddio. Wedi gyru yr Aiphtiaid allan, dacw fachgon y siaced fraith yn dyweyd, "Myfi yw Joseph eich brawd ehwi." Pam mae y dagrau yn treiglo dros y gruddiau? Cofio yr hen ddygwyddiaidau y maent. Os ydyeh am gael y berthynas i'r golwg, rhaid cael yr Aiphtiaid o'r ty bob un. Pan elo yr Aiphtiaid o'r ty, fe dlaw Joseph i'r golwg, nes y gorfoloddwn wrth o'trych arno. Dellwch gyda'r bwyd, fe dlaw eich Brawd a'r berthynas i'r

golwg yn y man. Ewch ato bawb o honoch, yn unigol. Beth ddywedaf wrtho? Dywed, Mi glwais yn yr oedfa heno dy fod yn derbyn y penaf o bechaduriaid, ac mi glywais nas gelli wadu dy hun; dyma'r tywyllaf a'r gwaelaf erioed o'th flaen; derbyn fi. Ni ddigia byth wrthyt am ofyn hyn,

Y rhai sydd wedi ymddiried ynddo er ys llawer dydd, meddylwch am yr addewidion sydd fel rhaffau yn cyrhaedd o'r nefoedd i'r ddaear, ac ni wâl efe mo honynt. Os dywedodd, "Yn ol dy ddydd y bydd dy nerth," wâl efe byth mo hyny. Os dywedodd, "Myfi a fyddaf gyda thi," wâl efe byth mo hyny. Os dywedodd yr arosai yn yr afon hyd nes delai y gwanaf adref, wâl efe byth mo hyny. Fe erys yr Arch-offeiriad yn yr afon nes delai y gloff a'r lesg fyny; ac os erys hyd hyny, peidwch synu os gwelwch yr hen bregethwr yn ddyogel adref. Pwyswch ar ei ffyddlondeb ef, a chiwi gyrhaeddwch adref yn *safe*. Ffarwel. Amen.

PREGETH VI.

PREGETHU YR ARGLWYDD IESU.

"A rhai o honynt oedd wyr o Cyprus a Cyrene, y rhai wedi dytold i Antiochia, a lefarasant wrth y Groegiaid, gan bregethu yr Arglwydd Iesu. A llaw yr Arglwydd oedd gyda hwynt, a nifer mawr a gredodd ac a drodd at yr Arglwydd," Actau xi. 20, 21.

Mae yr hanes a geir yma yn hen, ond nid yn rhy hen i fod yn wir, nac yn rhy hen i gael bendith arni; ac y mae yn hanes un o'r pethau y mae arnom swyaf o'i eisiau o bob peth. Beth yw hyny? Diwy-

giad. Dyma y diwygiad Cristionogol cyntaf fu y Ahtiochia. Pa fodd y cafwyd ef yno? Trwy wait y dysgyblion yn pregethu yr Arglwydd Iesu i Groegiaid, ac fe'i dylynwyd gan law yr Arglwydd. Ac y mae yn anhawdd genyf feddwl y cawn nina ddiwygiad byth oni chawn ef wrth bregethu yr Arglwydd Iesu.

Wrth ddarllen y chwechfed a'r seithfed benno o'r llyfr hwn, cawn hanes y cythrwfi a gododd y Iuddewon yn amser Stephan. Nid oes genych y un warant i gredu, os bydd erledigaeth yn ymoso ar achos Mab Duw yn rhyw le, mai eglwys yn cysgu oedd yn y fan hono. Nid eglwys yn cysgu oedd hon y pryd hwnw. Na, nid oedd yr eglwys yn cysgu, na'r cythraul yn cysgu ychwaith. Safodd Stephan i fyny ger bron y sanhedrim. Nid gerbro capel, nac eglwys, na mynachlog, ond gerbron *court* o ddynion oedd yn trefnu materion mewn dadl y Jerusalem. Mae Henry yn dweyd eu bod yn caen gwneyd i fyny o bigion pum coleg. Gerbron rhai hyn y safodd Stephan, a dywedir ei fod y llawn o'r Ysbryd Glân, a bod ei wyneb yn dysgelrio fel wyneb angel. Mae ysbryd dyn yn dyfo i'r wyneb. Rhoddodd Stephan ddarlith i'r sanhedrim ar y grefydd Gristionogol. Fe ddechreuodd gyda Abraham, ac a ddaeth heibo i Moses a'r prophwyd a thrwy y Salmau, gan olrhain achau Mab y forwy i lawr i Bethlehem, a chan dystio yn wyneb y cynhor ddarfod iddynt ladd y Messiah. Gallasec ddysgwyl, ar ol iddo weuthur araeth mor rhagor i ryw un gynyg diolchgarwch iddo am dani. On yr oedd y rhagfarn mor fawr yn ei erbyn, fel gwnaed pen arno yn hytrach trwy gawod o geryg.

Gallesid meddwl erbyn hyn fod y tân efengyaid wedi ei ddiffodd o bob canwyll yn Jerusalem ond yn lle hynny bu hyn yn foddion i dynu i'r golw

lawer o ganwyllau oedd yn guddiedig o dan lestr, nes peri iddynt oleuo i bawb oedd yn ty. Fe oruwch-lywodraethodd Duw yr erledigaeth i beri i'r dysgyblion fyned ar hyd y wlad, gan bregethu yr efengyl i'r rhai oedd heb wybod dim am dani o'r blaen. Aethant allan fel llwynogod Samson, a'r tân rhwng eu cynffonau. Dywedir iddynt fod tua phum mis a haner cyn cyhaedd Antiochia. Nid wyf fi yn gwybod hyd na lled eu cyhoeddiad; ond gwn mai i'r Iuddewon yn unig y pregethent. Pwy oedd yn eu herlid? Yr Iuddewon. I bwy y maent yn pregethu? I'r hen genedl oedd yn eu herlid.

Onid pan ddaethant i Antiochia fe dreiwyd yr ergydion ar gastell Groeg. Nid oedd neb o'r apostolion yn Antiochia y pryd hwnw; dysgyblion cyffredin yn unig oedd y pregethwr; ond yr oeddent yn ofalus i ddylyn yr apostylion, fel yr oedd yr apostolion yn dylun Crist. Yr oeddynt wedi clywed i Pedr fod yn llwyddianus gyda'r Cenedloedd tua thy Cornelius, a beth fyddai i minau dreio ar gastell paganiaeth Groeg? Dyma lle yr oedd y ddysgeidiaeth fwyaf, a dyna lle yr oedd y beirdd penaf, gweithiau pa rai a fawrygir hyd heddyw. Pan a dysgyblion Crist at y Groegiaid, mynant *concert* da gyda'r cerddorion, neu *eisteddfod* gyda'r beirdd. Nage! pregethant waed y grôes nes dadymchwel hen gastell mawr paganiaeth yr oesoedd.

Sylwn yn I. AR Y MODDION A ARFERWYD—"pregethu."

Yr hen *system* oedd ganddyn' nhw—*pregethu*. 'Dwyf fi ddim heb ofni fod llawer yn myn'd i edrych yn isel ar bregethu. Beth yw y dyn? O, dim ond pregethwr! Felly yn wir; a wyddoch chwi am orchwyl mwy goruchel na phregethu yr efengyl? Darlith ar Saul o Tarsis, *one shilling a ticket?* Na, darlith ar hen Calfaria, "heb arian ac heb worth."

Mae pregethu yn osodiad Duw er achub y byd. Ac os bydd i rhyw beth yn myned â lle pregethu, y mae yn myned i le na ddylai fod. Mae "yr efengyl hon am y deyrnas", i gael ei *phregethu* trwy yr holl fyd.

II. GWRTHEDDRYCH Y BREGETH—"yr Arglwydd Iesu." Pa fodd y dylid pregethu yr Arglwydd Iesu?

1, Pregethu mawredd ei Berson. Dyna lle y dylid dechreu; nid yn Bethlehem; na, rhaid dechreu nes yn ol. Byddwn yn arfer gofyn, Pwy oedd ei fam? Un o'r gwlad ni oehd hi; ac yn arfer gofyn, Pa le y ganwyd ef, ac i ba bwrpas? Mae hyn yn burion, ond dylem fyned yn ol cyn hyn. "Yr hwn æ efe yn ffurf Duw," &c Cymerodd hwnw agwedd gwas. Mawredd ei Berson cymhwysodd ef i fod yn Waredwr i ni. Nid wyf yn barnu i'r un o'i swyddau ychwanegu dim at ei fawredd, ond ei fawredd gwnæth ef yn llon'd ei holl swyddau. Beth oedd prif gymeriad Crist fel Gwaredwr? Machniydd dros bechaduriaid i'w Dad.

Yn awr, beth sydd yn cymhwyso dyn i fod yn Fachniydd addas? A *leiciech* chwi iddo fod yn siardwr teg, neu yn gwisgo dillad gwychion? Na, 'does fawr *ods* am hyn. Beth garech chwi fod ganddo? *Digon o fodd i dalu*, os daw yn daro. Dyma oedd cymhwysder Crist at ei waith, digon o fodd i dalu. Pe gofynech i mi faint yw y ddyled, nis gallwn ddweyd; ac y mae yn gwestiwn o ddeuwn i wybod byth. Ond mi wn i hyn—mae digon a fodd gan fy Meichiau i dalu. "Chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd." Dyna'r ddau yn awr yn dlawd. Yr oeddynt hwy yn dlawd o'r blaen, a dyna'r Arglwydd Iesu wedi myned yn dlawd atynt. Ond nid yr un ffordd yr aethant yn dlawd. Pa fodd yr aethom ni yn dlawd?

Trwy wastraffu y pethau oedd genym. Ond aeth Crist yn dlawd heb wastraffu dim. Aeth yn dlawd heb werthu yr ystâd. Aeth i Bethlehem a Chalfaria a'r ystâd yn ei law. Aeth o Galfaria, a'r ddyled wedi ei thalu, a'r ystâd heb *sinko*. Bendigedig!

2. Dylid pregeth ei annhraethol ddarostyngiad. Dyma sydd yn syndod i nefoedd a ddaear. I Galfaria a Bethlehem y mae y nefoedd yn dyfod am ryfeddodau. Mae yr holl fyd a'i lygad ar Lundain y dyddiau hyn (1851, blwyddyn yr *Exhibiton*); ond dewch gyda mi i Bethlehem, a dangosaf fwy i chwi mewn pum mynyd nag y gall Llundain ddangos i chwi byth—Duwdod yn y dyn! Mi *leiciwn* yn fawr i chwi gael *trip* gyda'r bugeiliaid yno—“Awn hyd Bethlehem, fel y gwelom y peth hyn.” “Mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd;” ac y mae y dirgelwch yn myned fwyfwy pan fyddoch uwch ei ben.

3. Dylid pregethu rhinweddau ei aberth.

4. Pregethu ei eiriolaeth lwyddianus.

5. Pregethu ei ail ddyfodiad ar gymylau y nef, i farnu y bpw a'r meirw.

III. Y RHESWM AM EFFEITHIOLRWYDD Y PREGETHU YN ANTIOCHIA—“llaw yr Arglwydd oedd gyda hwynt.’ Nis gallwn fod yn ddigon diolchgar am y fath gapel a hwn, a'r fath gynulleidfa barchus ac astud ynddo; ond er y cwbl nis gallwn fyned ddim yn mlaen heb i law yr Arglwydd heri llwyddiant. Trwy Dduw, ac nid trwy neb arall, y mae arfau ein milwriaeth ni yn nerthol.

IV. YR AMCAN A GYRHAEDDWYD,—“y bobl “yn credu, ac yn troi at yr Arglwydd.” Nid myn'd at y Methodistiaid yw credu; ond peth mawr am fywyd i bob pechadur. “Nifer mawr a gredodd, ac a drodd at yr Arglwydd.” Mae llawer o droi y dyddiau hyn: troi oddiwrth y naill sect at y llall. Mae

rhai yn troi o'r Eglwys Wladol i Eglwys Rhufain, a rhai yn troi oddiwrth yr Ymneillduwyr i'r Eglwys Wladol. Ond waeth i ba le y trowch chwi, fy eneidiau, os na throwch chwi at yr Arglwydd. Beth sydd yn dwyn dynion i droi at yr Arglwydd? Credu! Credu yr ymadrodd am Grist. Dyma y dysgyblion yn pregethu yn *simple* fod un wedi marw yr y groes dros bechaduriaid, a'r bobl wrth wrando yn credu, ac yn muned trwyddo at y Tad. Dyma y drefn eto: "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi."

PREGETH VII.

RHYDDHAD ODDIWETH BECHOD.*

"Ac yr awr hon, wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn santeiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol," Rhuf. vi. 22.

Y FFORDD sicraf i adnobod pob peth yw wrth ei *ddiwedd*; a ydyw ei ddiwedd yn dda? Y mae llawer o bethau yn ymddangos yn deg yn eu dechreuad, ond diwedd go dlawd sydd iddynt. Mae'r *text* hwn yn son am ddiwedd da: "a'r diwedd yn fywyd tragywyddol." Mi dybygwn y gallaf gymeryd yn gan-iatol am yr holl gynulleidfa sydd yn fy ngwrando

*Yr ydym wedi cymeryd y bregeth hon ogofnodau a ysgrifenyd wrth ei gwrando yn nghapel Mulberry street, Liverpool, nos Lun, Mehefin 1, 1846, gan y Parch. Roger Edwards, ac a gyhoeddwyd yn y *Drysorfa* am Ionawr, 1856.

yn awr, eu bod oll yn hoffi y diwedd hwn. Os rhaid cwrdd â thipyn o ystormydd ar y ffordd, gwneir o'r goreu ond cael y diwedd yn dda. "A'r diwedd yn fywyd tragywyddol." Pe bawn i yn gwybod fod yma ryw rai—ond o ran hyny nid wyf yn meddwl fod yma neb—nad ydynt yn hoffi y diwedd yn y testun hwn, mi a ofynwn iddynt, Pa ddiwedd yr ydych chi yn ei hoffi? Nid oes ond un o ddau ddiwedd i fod; naill ai byw byth, neu farw byth.—Nid oes yma ddim tir canol. Mae y cwbl i ddybenu yn un o ddwy etifeddiaeth fawr: bywyd tragywyddol neu farwolaeth dragywyddol. Ond tybygwn i eich bod yn un-llais yn hoffi y diwedd yn y testun: "A'r diwedd yn fywyd tragywyddol."

Mae yn anmhosibl i ni ddweyd fod diwedd i ddim ond i beth sydd wedi dechreu. "A'r diwedd." Iê, ond diwedd pa beth? Nid diwedd pob peth, ac nid diwedd rhyw beth, ac nid diwedd dim, ond diwedd y dechreu sydd yn y testun yw "hywyd tragywyddol." Nid allwn byth gyrhaedd diwedd peth heb gyrhaedd dechreu y peth hwnw. Ac y mae y dechreu yn gystal a'r diwedd yn y *text* hwn. Mae y geiriau yn cynwys crefydd, a dim ond crefydd, a chrefydd i gyd. Mae y testun hwn yn gyfanwaith, heb ddim yn eisiau, na dim yn ormod; nid oes dim yn y *text* yn chwang na chrefydd, na dim ynddo yn llai na chrefydd. Mae yn un cylch cyfan—Fe aiff y byd yn ddarnau, cyn y chwala yr un sill o'r *text* hwn oddiwrth eu gilydd. Os cewch chi afael ar y naill ben o'r testun, yr ydych yn rhwym o gael gafael yn y llall. "Yr wyf fi yn hoffi diwedd eich *text*," meddi. A wyt yn hoffi ei dechreu? Beth yw'r dechreu? "Eich rhyddhau oddiwrth bechod." Dyna yr unig beth sydd yn dybenu mewn bywyd. Y mae y byd hwn yn gwneuthur busnes ar ddwy *system*—yr *wholesale* a'r *retail*. Ond nid yw Duw yn ffordd iachawd-

wriaeth yn gwneyd busnes ar ddim ond un *system*. Am y rhai sydd yn arfer *system* y *retail*, cewch ganddynt *pound* o'r *case*, a gadael y gweddill ar ol; cewch lathen o'r *piece*, ac yna ei gadw yn ol yn ei le; cewch brynu un o ddeuddeg, a gadael yn ol yr un ar ddeg. Ond am fasnachdai yr *wholesale*, rhaid i chwi yno gymeryd y *piece* i gyd, neu fyned ymaith heb ddim. Dyna fel y gwneir yn y *text* hwn. Rhaid i chwi gymeryd yr oll sydd yma yn *wholesale*, onide ni chewch ddim sydd ynddo. Mae yr anfarwol William Gurnal—coffa da am dano!—yn dweyd yn rhyw le, “Pe buasai yr Arglwydd yn delio yn uhrefn gras ar y *retail system*, buasai ganddo lawer mwy o *customers* yn ei *shop*.” Yr wyf yn coelio iddo ddweyd yn iawn. Ond nid felly y mae yn gwn-*ent*hur. Mae rhai dynion fydd yn myned i siopau—gwn inau ryw beth am fasnachu—yn hoff iawn o ofyn, A oes dim *remnants* genych? Nid y *customers* goreu yn gyffredin yw y rhai hyn. Mae mwy o'r *customers* hyn yn dyfod i siob yr efengyl nag y gwyr neb; am *remnants* y maent byth a hefyd.—Dacw un o'r *customers* hyn: “Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau.” Cymer yr oll o hono. Na, nid oes arnaf eisiau dim ond *remnant*; cymered a fynd y *piece* i gyd. Ond nid felly; rhaid eymeryd y cyfan neu ddim.

Galwaf eich sylw at y pedwar peth sydd yn y testun. Nid oes yma dim gwaith rhanu; mae y testun ynddo ei hun fel yr afon yn Eden, yn myned allan yn bedwar pen.

I. Y peth cyntaf yn y testun hwn yw y peth cyntaf mewn crefydd. Yr wyf yn ofni nad ydym ni oll wedi bod yn ddigon *particular* yn nghylch y peth cyntaf mewn crefydd. “Ac yr awrhon wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod.” Dyna y cam cyntaf.

“Yr awr hon,” i.e. yr *awr hon*. Nid dyfodol yw crefydd i gyd. Mae pethau mawr iawn i ddyfod mewn crefydd. Oes, ac y mae pethau gwych mewn crefydd heno. Mae y rhai sydd yn ei meddu hi “wedi eu rhyddhau oddiwrth bechod.” Pa fodd y mae arnoch chwi gyda y pwnc cyntaf yma? Ofni yr wyf fod dynion yn edrych llawer mwy sut yr ydym ni yn pregethu, na pha sut y maent hwy eu hunain yn wynebu y pregethau. Dyna y peth cyntaf; beth yw yr ail beth? meddwch. Paham y gofyrwch am yr ail cyn *setlo* y peth cyntaf? Ewch yn inlaen. Nac âf dipyn. Paham? Am fy mod yn ofni eich bod eto heb gyrhaedd y peth cyntaf hwn: “Wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod.”

Nid rhydd oddiwrth bechu; canys “os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a’r gwirionedd nid yw ynom.” Mae rhai dynion—pobl y *new light*—yn dweyd eu bod hwy wedi cyrhaedd perffeithrwydd dibechod. Ond nid felly yr oedd Paul. “Nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisoes, neu fod eisoes wedi fy mherffeithio. Ys truan o ddyn wyf fi; pwy a’mgwared i oddiwrth gorph y farwolaeth hon?” Ac mi a goelias Paul o’u blaen hwy. “Nid oes dyn cyflawn ar y ddaear a wna ddaioni, ac ni phecha.” Ac eto y mae miloedd ar y ddaear yn rhydd oddiwrth bechod, er eu bod yn pechu.

Enwaf bedair o ystyriaethau am y rhyddhau hwn oddiwrth bechod. Ac y mae pob Cristion yn rhydd heno mewn tair o’r ystyriaethau hyn; a chyn y gwelwn ni ein gilydd nesaf, bydd llawer yn rhydd yn yr ystyriaeth olaf.

1. Bod yn rhydd *oddiwrth arglwyddiaeth pechod*. Ni wn i faint a feddylasoch chwi am hyn. Wrth natur yr ydym nid yn unig wedi dysgu pechu—nid yn unig y mae ynom duedd bechod—ond

llywodraeth pechod arnom; yr ydym dan lywodraeth pechod, ac y mae hono yn llywodraeth gref iawn. Ond y mae gras yn rhyddhau odditan ei arglwyddiaeth. A ydyw pechod yn y ty? Ydyw; ond nid efe biau y ty; hen *lodger* yw. Ac fe geir troi y *lodger* allan cyn hir. Pe baech yn myned i amod priodasol ag un, rhaid dwyn y penyd "hyd pan gwahano angau;" ond os *lodger* sydd yn y ty, y mae cam-ymddygiad yn rhoddi i chwi *right* i'w droi ef allan. Mae pechod yn y saint; hen *lodger* yn *lurko* yna yw; ond nid efe yw y meist. Pa fodd yr aed â'r arglwyddiaeth oddiarno? Trwy goncwest. Nid wedi *ymrhyddhau* a ddywedir yma, ond "wedi *eich* rhyddhau." Pa fodd y rhyddhawyd? Trwy oruchafiaeth ar y gormeswr. "Pan fyddo un cryf-arfog yn cadw ei neuadd, y mae yr hyn sydd ganddo mewn heddwch." Hyd pa bryd? Hyd oni "ddel un cryfach arno," a dim yn hwy. Beth a wna hwnw iddo? "Ei orchfygu." Nid aros i ddysgwyl iddo fyned ryw bryd oddicartref, a chymeryd *possession* y pryd hyny. Nage, ond dyfod arno yn y ty, a'i orchfygu, a dwyn ymaith ei arfogaeth, a rhanu ei anrhaith ef.

2. Bod yn rhydd *oddiwrth euogrwydd pechod*. Byddaf yn ystyried mai euogrydd pechod ydyw rhwymedigaeth i gosp am bechod. Ond y mae credinwyr wedi eu rhyddhau yn yr ystyr yma eto. "Dim damnedigaeth." Ai trwy goncwest y caed hyna? Nage; trwy daliad. Taliad a'n rhyddhaodd oddiwrth yr euogrwydd. Yr wyf fi yn wahanol iawn fy marn i'r Pabydd a grogwyd er ys tro yn ol yn Llundain, amladd merch o St. Giles. Fe *stabodd* y ferch, a ac adawodd y gyllell ynddi. Ac ugain myned cyn ei grogi, fe gyfaddefodd iddo fod yn euog o gymeryd bywyd y greadures dlawd, ac a ddywedodd ei fod yn cydnabod y ddeddf yn gyflawn yn cymeryd *ymaith ei fywyd* yntau, a'i fod yn gobeithio y buas-

ai y Jehofah trugarog yn derbyn ei edifeirwch, er diweddared oedd, yn iawn dros ei bechod. Ffarwel i ti! nid ar hyd y ffordd hyna yr âf fi i chwilio am ryddhad oddiwrth euogrydd pechod. Iawn mawr y groes am glirio yr euog!

3. Rhydd *oddiwrth ymlyniad at bechod*, neu *bleser* ynddo. Mae pechod wedi myned yn beth diflas iawn i'r dyn duwiol. "Yr hyn sydd gas genyf." Nid oes bosibl i neb garu iachawdwriaeth Duw, a a charu pechod yr un pryd. Ni chredaf byth nad yw dracht o rinwedd yr efengyl yn rhoi arnom ddinod at bechu yn erbyn Duw.

4. Rhydd *oddiwrth y bod o bechod yn y man*. Dyma yw amcan mawr y prynedigaeth: "Fel y gosodai efe hi yn ogoneddus iddo ei hun, yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, ond fel y byddai yn santaidd ac yn ddifeius." Os diengi di yn nghafael rhinwedd iachawdwriaeth, nid all neb yn y dydd hwnw, wrth dy weled, ddeall i ti bechu erioed; ond ti gyfaddeff di dy hun i ti fod yn bechadur, ac mai dy lanhau a gefaist trwy waed Iesu Grist ei Fab ef oddiwrth bob pechod. Nid oes un Cristion gwirioneddol, er byred ei gam, heb gyrhaedd y marc hwn mewn dymuniad—

"O am ddyddiau
Pan ddarfyddo pechu'n lan!"

II. Yr ail beth yn y testun yw ein gwneuthur yn weision i Dduw." Wedi dyfod yn rhydd oddiwrth bechod, mae y dyn yn myned o'i fodd yn rhwym i Dduw.

Beth sydd yn gynwysedig mewn bod yn weision i Dduw?

1. *Gwirfoddol ymroddiad*. Ai nid ydych yn cymysgu? Nac wyf. Ni chredaf byth amgen na bod iachawdwriaeth dyn yn hollol o'r Arglwydd. "Y

rhai trwy allu Duw ydych yn gadwedig." Ond nid gallu yn gorfodogi yw y gallu sydd yn cadw. "Dy bobl a fyddant ewyllysgar." Beth ddaeth â hwy i'r fan hon? Ai grym rhesymeg? Mae hynny yn rhywan. Maent yn dod. Ydynt, a hynny yn ewyllysgar. Pa fodd y daethant? "Dydd dy nerth."—Nerth Duw a'u toddodd, a'r nerth a'u plygodd. "O Arglwydd, yn ddiau dy was di ydwyf fi, dy was di ydwyf fi, mab dy wasanaethwraig." Ai bod dy fam o'th flaen yn y gwasanaeth yw y rheswm mawr dy fod yn gwasanaeth heddyw? Na, rhyw beth a ges i fy hun yw y prif dyniad. "Datoddaist fy rhwymau." Peidiwch ag ysgipio hyna. Bendiŷe iŷig am y boreu yr aeth y rhwymau yn rhyddion!

2. *Llwy'r benderfyniad.* Hyn, dybygid, sydd yn cael ei ddangos yn Llyfr Isaiah: "Hwn a ddywed, Eiddo yr Arglwydd ydwyf fi; a'r llall a'i geilw ei hun ar enw Jacob; ac arall a ysgrifena â'i lyw. Eiddo yr Arglwydd ydwyf, ac a ymgyfenwa ar enw Isreal." Dyna lawnodi yr ardystiad. A gaf fi ofyn i gynulleidfa *respectable* fel hon, A ydych chi wedi *signio y pledge*? Beth yw hwnw? "Eiddo yr Arglwydd ydwyf." Doed a ddelo, mae yma rai wedi ei lawn arwyddo. "Y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd. Ar ol yr Arglwydd yr awn." Yr wyf fi yn *leicio* crefydd y wraig hono: "Af i mewn at y brenin." A oes genyt amcan sut y try pethau yno? Nac oes, ond y mae genyf amcan sut y try onid âf. "Af i mewn at y brenin—ac o derfydd am danaf, darfydded." Os marw raid, mi a fyddaf farw lle gwelo llygad y neb sydd yn cadw yn fwy. Mi benderfynaf finau, os rhaid marw, y byddaf farw wrth draed yr Un a ddaeth i'r byd i achub. Cwmpa wrth ei draed, fy enaid, a byw fyddi.

3. *Hollol ymddibyniad*, sef ymddibyniad am y *cwbl sydd yn angenrheidiol*, ar y Duw yr aed i'w *wasanaeth*. Mae y *working class*, wedi cael myned

dan rai o'r *companies* mawrion, yn myned i edrych i *office* y cwmni am gyflenwi eu holl eisiau. A oes eisiau gwisgoedd ac esgidiau, neu fodd i dalu y rhent? Maent yn tynu ar y cwmni am y cyfan.— Dyna fel y mae Cristionogion: maent yn myned i *office* eu Harglwydd am bob peth sydd yn angen arnynt. “Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant.” Mae gweision milwriaeth y frenines yn byw yn gwbl ar y llywodraeth; un diofal yw y *soldier* am y gwair a'r gwenith; nid yw ef yn hau nac yn medi; ond rhaid i'r llywodraeth fyned yn yfflon cyn y bydd y milwr heb ei damaid. Pa faint sydd rhwng gwas y goron a myned i'r *poor-house*? Hyny o allu a dylanwad ag a fedd y goron ei hun. Mae golwg siriol ar blant y grefydd; ni bydd eisiau arnynt.— Mae digon rhyngyddynt a'r gwaethaf; mae *power* yr hwn sydd d'i freniniaeth yn llywodraethu ar bob peth o'u plaid.

III. Beth nesaf? “Y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd.” Caiff y teulu hyn eu *spario* rhag myned i bob simne gan y cythraul. “Y ffrwyth yn sancteiddrwydd.” Beth yw hyny? “Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros. cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest; yn erbyn y cyfryw nid oes deddf.” Nid *smuggling goods* yw dim o'r pethau hyn. Dyma ffrwyth prydferth, a ffrwyth hyfryd, Mae yn ddiâu genyf, pe bai y nefoedd ar ben yfory, mae nyni a'u piau o ddigon. Ai peth i Dduw yw bod ein ffrwyth yn sancteiddrwydd? Nage, ond peth i ni. “Y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd.” Yr *enw* i Dduw, a'r *ffrwyth* i ni.

IV. Beth wedi hyny? “A'r diwedd yn fywyd tragywyddol.” Fe allai na chyrhaeddir mo hono. Gwneir! ffordd *direct* i fywyd yw ffordd y *text*. Mae ganddynt ryw beth yn ein gwlad ni—bro y meteloedd—y maent yn eu galw y *wythien farw*.

Y mae yn argoeli yn dda ar y cwmpeini os ydynt wedi taro ar y wythien fawr. Dyma ninau yn y testun wedi cyffwrdd â'r wythien farw—digon i fyw yn foneddigion byth “Bywyd tragwyddol.”—Nid allaf ddweyd nemawr ddim am hwn. Nid oes genyf *dape* i fesur i waelod y môr yma, ond yr wyf yn credu weithiau y caf ei noflo byth. Mae y bywyd hwn y fywyd *trwy* Grist, yn fywyd *ar* Grist, yn fywyd *i* Grist, ac yn fywyd *gyda* Christ,

Ffarwel, fy nghyfeillion; os ydych am grefydd, mynwch grefydd y *text*; y rhyddhau, y gwasanaethu, a'r ffrwytho; anmhosibl fydd i chwi wedi'n fyned i uffern. Dyma bethau yn nglyn wrth iachwedwriaeth, o herwydd eu pen draw yw bywyd tragwyddol. Os ydych am yr iachawdwriaeth hon, ewch at Dduw am dani. “Iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd.”

PREGETH VIII.

YR EGLWYS AR Y GRAIG.

“Ac ar y graig hon yr adaeladaf fy eglwys, a phyrth uffern nis gorchfygant hi,” Mat. xvi. 18.

CAWN y dysgyblion yn fynych yn gofyn cwestiwn i'w Hathraw; ond yn y *paragraph* hwn y mae yr Athraw yn gofyn cwestiwn i'r dysgyblion. Nid gofyn er ei fwyn ei hun, ond gofyn i'w tynu hwy allan, er mwyn eu dysgu yn fanylach. Y cwestiwn a ofyna yw, “Pwy y mae dynion yn dyweyd fy mod i, Mab y dyn?” Atebasant, “Y mae llawer o wahanol farnau am danat; rhai yn dweyd mai Ioan.

rhai mai Elias, a rhai mai Jeremias ydwyf.” Yna y mae yn troi y cwestiwn at y dysgyblion eu hunain, “Ond pwy meddwch chwi ydwyf?” Ebe Simon mab Jonah, “Ti yw Crist, Mab y Duw byw.’, Mae yr atebiad yn un penderfynol, heb betrusder nac ambeuaeth. Yr Iesu a ddywedodd wrtho, “Gwyn dy fyd di Simon; nid cig a gwaed datguddiodd hyn i ti.” Nid dy ddarganfyddiad dy hunan yw hwna, Simon. Nid oddiwrth y *philosopher* y daeth. Ti fyddi yn nyled fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd am y datguddiad yna i dragywyddoldeb. “Yr wyf finau yn dyeyd i ti mai ti yw Pedr; ac ar y graig hon yr adelladaf fy eglwys.” Gallwn feddwl i'r atebiad foddio yr Iesu; ac y mae yn ei gadarnhau trwy ddangos perthynas bwysig ac annatodol Crist a'i bobl.

Y ddau ymadrodd nesaf i'w gilydd yn y testun yw, “Ti Pedr—ac ar y graig hon.” Mae llawer o ddadleu wedi bod yn nghylch pwy feddylir wrth “y graig hon.” Myn rhai mai Pedr, eraill mai tystiolaeth Pedr, ac eraill mai y person yr oedd Pedr yn son am dano. Os caniateir mai yr eglwys yw yr adaeladaeth, rhaid caniatáu mai Crist yw y graig. Nid oes yr un golygiaid arall yn cydsefyll â'r ysgrythrau canlynol: “Sylfaen arall nis gall neb ei gosod,” &c. “Wele fi yn sylfaenu maen yn Sion,” &c. “Wedi elch goruwchadaeladu ar sail yr apostolion a'r prophwydi,” &c. Nid ar yr apostolion a'r prophwydi, ond ar eu “sail,” sef Crist.

Mae yn y testun hwn ddwy gydmariaeth. yn gosod allan undeb Crist a'i eglwys—“craig,” ac “adaeladaeth.” Sylwn yn—

I. AR BRIODOLDEB Y GRAIG I OSOD ALLAN GRIST.

1. Yn ei *chdernid*. Nerth penaf y greadigaeth yw nerth y graig; fedr neb ei gyfrif na'i fesur. Er yr holl demlau, y tyrau, a'r cestyll sydd wedi eu gosod ar y graig trwy yr holl oesau, nid ydynt wedi

gallu datguddio nerth y graig. Mae dynion yn mesur nerth y peirianau cryfaf a wnaed—cymaint a chymaint o *horse power*. Ond thâl eu *horse power* ddim i ddangos nerth y graig. Mae nerth y graig yn anfesuroi i bawb ond y Gwr sydd yn pwysu y mynyddoedd mewn pwysau, a'i bryniau mewn clorianau. Felly mae cadernid y graig yn briodol i osod allan gadernid Crist fel sylfaen ei eglwys.—“Crist gallu Duw.” Dyma ‘sylfaen safadwy’ i chwi. Pwyswch arno, fy eneidau, ac yna chwi sefwch pan fydd y mynyddoedd y ffael sefyll.

2. Yn ei *pharhad*. Un sefydlog iawn yw y graig. Mae amser wedi go'chi Babilon farw ymaith oddi ar ei sylfeini, fel nad ydys yn gwybod yn bersenol yn mha le yr oedd yn sefyll. Ond y mae y graig oedd dani heb symud eto. Chwyrndaflodd Cromwell gestyll Cymru oddiar eu sylfeini; ond nid oes dim o ôl Cromwell i'w weled ar y creigiau. Mae ystormydd a thymhestloedd wedi dryllio y llongau, ò chodi cedrwydd o'r gwraidd, ond y maent yn methu siglo y graig. Y mae hi yn ddiysgogo oes i oes, ac o ganrif i ganrif. Trowch eich golwg ar Grist, craig ei eglwys. “Iesu Grist ddøe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.” Fe ddwg ei holl amcanion i ben.—Mae yn ddigyfnewid yn ei fwriadau, yn ei dystiolaethau, ac yn ei ffyddlondeb.

3. Fel *cysgod*. Cysgod gwerthfawr yw cysgod craig, rhag blinderau a pheryglon. “Y mynyddoedd sydd noddfa a'r creigiau i'r cwingod. Y cwn ingod nid ydynt bobl nerthol, eto hwy a wnant eu tai yn y graig.” Pan ddaw y ci i'r golwg, ffwrdd â'r wningen i'w chastell—castell y ereigiau. Mae y creaduriaid bychain hyn yn bur hawdd eu lladd; ond nid mor hawdd wedi cyrhaedd y graig. Crist yw craig noddfa pechadur. Rhedwch, bobl, am eich bywyd at Grist; oe os cyrhaeddwch y Mab, dyna'ch bywyd yn ddyogel am byth. “Twr cadarn

yw enw yr Arglwydd; ato y rhed y cyfiawn, ac y mae yn ddyogel.”

II. Cydmariaeth arall yn y testun yw YR ADEIL-ADAETH SYDD I FOD AR Y GRAIG.

Pan fyddo doethineb yn myned i adeiladu ei thy, y peth cyntaf yw penderfynu y man i fod. Dyma y fan—“ar y graig hon.” Nid oes iachawdwriaeth yn nebarall” Y peth nesaf yw rhagolygu defnyddiau at yr adeilad. Mae hyn wedi bod dan sylw yn foreu. “Gwael yw dy fod yn was i mi, i gyfodi llwythau Jacob,” &c. “Gofyn i mi, rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti,” &c. Dyma'r defnyddiau. Dyma waith cyntaf yr efengyl, casglu defnyddiau yr adaeladaeth; eu cloddio o hen chwarel annuwiol y byd. Mae y Tad yn tynu. Mae deddf Yspryd y bywyd yn rhyddhau o afaelion deddf pechod; fe fynir yr holl feini i'r adaelad. Ni thrig careg yn ol. Gwelais ambell faen yn syrthio o'r llwyth ar y ffordd, rhwng y chwarel a'r adaelad; ond gwelais y perchenog yn dyfod heibio cyn gorphen yr adaelad, ac yn gorchymyn ei godi o'r llaid, a'i ddwyn eilwaith i'w rod-di yn y gwaith. Yr oedd wedi costio gormod i'w adael ar ol. Yr oedd y *royalty* wedi ei dalu am dano cyn ei godi o'r chwarel. Eneidiau gwerthfawr! “er gwerth y'ch prynwyd—gwerthfawr waed Crist.” Yr ydych wedi eich apwyntio i le pwysig yn adaeladaeth Sion Duw.—Ni adewir chwi mwy i orwedd yn llwch a llaid y byd.

Peth arall yw cymhwyso y defnyddiau i'r adeilad. Yma mae triniaeth y meini i gael ei dwyn yn mlaen, oblegyd ni chlywir swn morthwylion yno. Duw yr adaelad i ben er gwaethaf gwrthwynebrwydd pwrth uffern. “Dwylaw Zorobabel a'i gorphenant.” Dygir y maen olaf ryw ddiwrnod, gan waeddi “Rhad, rhad iddo.” Yn feini bywiol yn yr adaelaeth ysbrydol hon gwneled Duw ni oll.

PREGETH IX.

Y CYFLAWN A'R DRYGIONUS.

“Coffadwriaeth y cyflawn sydd fendigedig; ond enw y drygionus a bydra,” Diar. x. 7.

Y PETH cyntaf ydych yn ddysgwyl ar ol darllen testun yw cael rhyw gyfarchiad oddiwrtho. Y cyfarchiad cyntaf wyf fi yn ei wneyd oddiwrth y *text* hwn yw gofyn i chwi a wyddoch chwi yn mha ben iddo yr ydych yn sefyll? Dau ben sydd i hwn, heb un canol. Mae y cyflawn yn un pen, a'r drygionus yn y pen arall, a neb yn y caonl. Y mae pob un sydd yma yn y naill ben neu y llall. Byddai hwn yn gwrdd i pwrpas, pe caech chwi fyned oddiyna i gyd wedi gwybod yn mha ben i'r *text* ydych. Mae enwau y “cyflawn” a'r “drygionus” o fewn chwarter modfedd i'w gilydd yn yr adnod, ond y mae mwy o bellder rhyngddynt nag sydd rhwng y seraph fry a'r prifyn ar y domen.

Ni alwn eich sylw yn gyntaf am ychydig at y cyntaf yn y *text*—y cyflawn.

Cyflawn. Nid un ar y ffordd yn dyfod, ond un wedi dyfod. Hawddach dweyd y gair na desgrifio y cymeriad. Gair bach, ond cynwys mawr sydd yn ei groth. Wn i ddim a ydwyf yn camsynied ai peidio wrth ddweyd nad oes un cymeriad yn codi dyn mor agos i gymeriad Duw ei hun. Bod yn gyflawn yw bod y peth ddylem fod, a dim ond hyny. Bod yn ysgwâr hollol. Troweh ef ffordd y mynoch, y mae yn sefyll, y mae yn ffitio i drwch y blewyn. Rhowch ef yn y glorian, mae yn ei throï; rhowch y llathen arno, mae yn dal.

I weled cyflawnder dyn rhaid i chwi edrych arno yn ei wahanol berthynasau. Peth perthynasol *rhwng* personau a'u gilydd yw cyflawnder. Gwel-

ir ef yn eich perthynas a Duw. Ydych chi yn troi eich golwg y ffordd hyn weithiau? Gydag edrych sut y mae rhyngoch a llyfr y siop, ydych chi yn edrych sut y mae rhyngoch a Duw? Hefyd, yn eich perthynas a chi eich hunain. Mae perthynas bwysig rhynoch a *number one*. A hefyd yn eich perthynas a'ch cydreadur.

1. Perthynas y creadur a'r Creawdwr yw y gyn-
taf, y gryfaf, a'r hwyaf. Cafodd hon ei chyfansoddi
gyda bodolaeth y dyn, ac nid yw i newid byth.—
"Dyw y *cwympo* na'r *codi* yn newid dim arni; hi bwr
byth. "Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn." Beth
oedd hyn? Ei wneyd yn gyfiawn. Gwnaeth ef
ar ei ddelw ei hun mewn cyfiawnder. Ond dyn
mewn anrhydedd nid arosodd. I ba le yr aeth? Ni
gawn weled yn awr. Edrychodd Duw i lawr o'r
nefoddd i weled a oedd un cyfiawn ar y ddaear.—
Sut y bu? Fe ffaelodd ffeindio un. "Nac oes un!"
A oes neb yn gwneyd dim? Oes, ond neb yn gwn-
eyd daioni. Dystryw ac aflwydd sydd yn eu ffyrdd.
Y maent yn llygru y ffordd y cerddant. B'le yr awn
ni nesaf? I lyfr Job rhag blaen. "Pa fodd y cy-
fiawnheir dyn gyda Duw?" Nid oes ond un ffordd:
trwy gyfrifiad o gyfiawnder y Duwddyn. Dyma
godial nas gellir codi yn uwch.

2. Perthynas y dyn ag ef ei hun. Mae dyn trwy
y *cwmp* nid yn unig wedi dyrysu pethau rhyngddo
a Duw, ond rhyngddo ag ef ei hun hefyd. "O Is-
real, ti a'th ddinystriaist dy hun." "Yr hwn a becho
yn fy erbyn a wna gam a'i enaid ei hun." Mae
bywyd o anghyfiawnder yn drais ar dy enaid.—
Ond pan fyddo pechadwr yn cael ei gyfiawnhau ger-
bron Duw yn nghyfiawnder Crist, y mae yn cael
"ei greu o'r newydd yn Nghrist Iesu," yn ddyn
priodol i Dduw, yn awyddus i werthredoedd da.
"Yr hen bethau a aethant heibio, wele gwnaeth-
pwyd pob peth o newydd." Yn y greadigaeth hon

mae pechadur yn cael ei wneyd yn gyfranog o egwyddor gyfiawn—egwyddor sydd dros wneyd cyfiawnder ag enaid, a dwyn yr enaid i ysgogi mewn cyfiawnder tuag at bawb.

Mae y cyfiawnder yma yn driphlyg:—1. Cyfrifol. 2. Egwyddorol. 3. Ymarferol. Yn y ddau gyntaf y mae y Criston yn sefyll c'uwch heddyw ag y bydd byth; ond gwaith graddol areo yw yr olaf, fel y byddo yr Ysbryd Glân yn dwyn gwaith sancteiddhad yn mlaen arno' Oblegyd yn y fuchedd hon "nid oes neb cyfiawn, ac ni phecha." "Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llythro." "Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom." Eto mae arno syched am gyfiawnder. Er methu cyrhaedd, y mae "yn cyrchu at y nod."

Wrth "goffadwriaeth y cyfiawn," y mae i ni ddeall ei gymeriad, neu ei garitor. Yr argraff mae dyn wedi ei adael ar ei ol wrth fwy a marw yw ei gymeriad. Pan fyddis yn ymofyn, am gymeryd rhyw un; fe edrychir am dano lle byddo y dyn wedi bod yn byw, ac yn mysg y rhai a'i hadwaenant oreu. Yn awr, er mwyn cael allan gymeriad y cyfiawn, ni apeliwn at dri man. I b'le yr ewch ehwi gyntaf i holi?

1. At Duw, Barnwr pawb. Beth ddywed y Barnwr am dano? Fod ei lygad ef ar y cyfiawn bob amser. Dywed y bydd ef byth mewn coffadwriaeth. Dywed fod ei enw wedi ei ysgrifennu yn llyfr coffadwriaeth Duw—llyfr bywyd yr Oen, yr hwn a laddwyd er seiliad y byd. Pa bryd yr ysgrifenyd ei enw ar y llyfr, pan godwyd ef o'i gwymp? Nege, cyn y codwm:—

"Cyn bod Eden ardd na chodwm."

Diolch! mae teyrnas wedi ei pharotol i'r cyfiawn "er cyn seiliad y byd." I b'le yr ewch chwi eto i holi am garitor y cyfiawn?

2. At dystiolaeth gair Duw. Mae cymeriad y cyfiawn yn sefyll yn uchel yn yr hen lyfr. Rhowch dro heibio enwogion yr Hen Destament; gelwch gydag Abel, ac Enoch, a Noah, Abraham, Isaac, a Jacob; Joseph yn y pydew, Danial yn y ffau, a'r tri bachgen yn y ffwrn. Ië, gallaf finau ddyeyd fel Paul, ar ol nodi pennod hir o honynt, Yr amser a balla i mi fynegu am y cwmwl mawr, o dystion sydd wedi eu gosod o'n hamgylch yn yr Hen Destament a'r Newydd y rhai fydd â'u coffadwriaeth byth yn fendigedig. Gwneled Duw chwi a minau o'u nifr.

PREGETH X.

CONGHOR AR NEILLDUAD GWEINIDGION.

(A draddodwyd ar neillduad Mr. Abel Thomas a Mr. Thos. John, o Sir Benfro, yn Nghymdeithasfa Aberteifi, Awst, 1856.)

ANWYL FRODYR,—Yr ydym yn cymeryd yn ganiataol nid ydych wedi eich galw i'r fan hon heddyw heb eich hod cyn heddyw wedi eich galw gan yr Arglwydd trwy ras, o feddiant y tywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef, ac o feddiant satan i deyrnas Crist. Yr ydym yn eich cymeryd chwi eich dau fel rhai wedi eich heddychu â Duw, trwy farwolaeth ei Fab. Ond er credu fod y pethau hyn wedi cymeryd lle, hwyrach y bydd raid i chwi eto fyned drostynt lawer gwaith yn ystod eich bywyd; a goreu pa amlaf, oblegyd gwybyddwch nas gellwch fod yn oleu iawn am eich swyddau a bod mewn tywyllwch am eich cyflyrau.

Diamheu na ddylwn i, na neb arall chwaith, wrth gymeryd arnaf y gorchwyl presenol, o'ch cyngbori yn nghylch cyfiawni gwaith y weinidogaeth yn briodol—ni ddylwn, meddaf, fyned i chwilio am gynghorion newydd, na chyfansoddi rheolau newydd, yn amgen na'r hyn a gynwysir yn y gyfrol sanctaidd. Byddai hyny yn rhyfyg ynof fi, ac yn drosedd ar urddas yr ysgrythyrau. Gan hyny, amcanaf alw eich ystyriaethau, a chyfeirio eich meddyliau, at y rheol ysbrydoledig, yr hon sydd berffaith yn ei chynghorion, heb na rboddi ati, nathynu oddiwrthi. Dechreuwn gyda chynghor Paul i Timotheus:—

“Bydd ddyfal i'th osod dy hun yn brofedig gan Dduw; yn weithiwr difeff, yn iawn gyfranau gair y gwirionedd,” 2 Tim. ii. 15.

Nid oedd un amheuaeth yn meddwl Paul am gyflwr Timotheus, nac am ei alwad i'r weinidogaeth; oblygd dywed “fod yn ddiamheu ganddo” ei fod yn feddianol ar y ffydd ddiffuant; a dywed ei fod yn ddefnyddol i'r weinidogaeth. Yn yr adnod hon rhydd gynghorion iddo fel gweinidog yr efengyl; a diau fod y cynghorion hyn yn perthyn i holl weinidogion y gair trwy holl oesoedd y byd, ac felly yn perthyn i chwithau eich dan.

1. Y cynghor cyntaf yw *gosod eich hunain yn brofedig gan Dduw*. Bydded eich gwasanaeth yn gyfryw ag y byddo Duw yn ei gymeradwyo. Beth gwell fyddwch chwi na minau fod ambell un yn canmol ein pregethau, a'r Arglwydd heb fod yn dwyn tystiolaeth iddynt? At Dduw ei hun yr oedd Paul yn apelio am ei gymeradwyaeth. “Eithr i Dduw y'n gwnaed yn hysbys; ac yr ydwyf yn go-beithio ddarfod ein gwneuthur yn hysbys yn eich cydwybodau chwithau hefyd.” Mae *stamp* y llywodraeth yn profi gwerth y llestr aur ac arian, i ba *ddwyllaw* bynag yr elont. Mynwch chwithau *stamp*

y llywodraeth yn amlwg arnoch—yr argraff o fod yn brofedig gan Dduw, a bod yr Arglwydd yn dwyn tystiolaeth i'ch gweinidogaeth. Myn hyny air da i chwi gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun.

2. Y cynghor nesaf yw *bod yn weithwyr difest*. Mae pob pregethwr i fod yn weithiwr; nid yn siaradwr, nac yn ddadleuwr, nac yn drafaeliwr, ond yn *weithwr*. Nid yw yr Arglwydd yn gosod neb yn y weinidogaeth, heb roddi ysbryd ynddo at waith y weinidogaeth. Am y rhai hyn y gorchymynir i'r eglwysi wneuthur cyfrif mawr o honynt, "er mwyn eu gwaith;" sef "y rhai sydd yn ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth." Rheol y Bibl yw "i'r neb na fyddo weithio, na chaffo fwyta chwaith." Nid yw pregethwr heb fod yn weithiwr yn werth ei fwyd.

"Yn mhob llafur y mae elw." Nid oes yr un llafur yn gymaint ei elw a llafur gweinidogaeth. Ac ar y llaw arall, nid oes yr un fasnach yn fwy diffwrwyth na gweinidogaeth heb lafur. Gellwch fentro rhoddi allan holl egni eich ysbryd gyda gwaith y weinidogaeth, fe ddychwel i chwi gyda llog. Fe allai cewch lafurio am dro heb weled llwyddiant; ond peidwch digaloni. "Yn ddiau corddi llaeth a ddwg allan ymenyn; a gwasgu ffroenau a dyn allan waed." Er poeni, nid wyf fi yn gweled fawr elw. Cordda di. 'Does dim gwaed. Gwasga di. Gwybyddwch "na fydd eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd.

Yn gyntaf,—Gweithwch lawer trwy *fyfyrddau*. Glynwch wrth ddarllen, a myfyriwch yn y pethau ddarllensoch. Aros wch ynddynt, "fel y byddo eich cynydd yn eglur i bawb." Cartrefwch yn yr ysgrythyrau; a bydded "ffurf yr ymadroddion iachus" ar eich holl bregethau.

Yn nesaf,—Gweithwch lawer mewn *gweddiau*. Iesu Grist, y pregethwr mwyaf erioed, oedd y gweddiwr mwyaf. Mae mwy o gyfeiriadau at weddïau Crist yn y Bibl nag at ei bregethau. Byddai yn

tynu o'r neilldu yn aml i wyddo. Daliai wrthi i weddio trwy y nos. Byddai yn gweddio ddyfalach, dyfalach. Cymerwch Iesu Grist yn esiampl gyda gweddio, a bydd i'ch Tad, "yr hwn a wel yn y dirgel, eich talu yn yr amlwg."

Yn olaf,—Gweithiwch trwy *siamplau*. "Gwnewch lwybrau uniawn i'ch traed, fel na throer y cloff allan o'r ffordd." Gwyliwch ha fyddo dim yn eich siamplau i wrthweithio eich pregethau. Bydded eich traed yn weddaid ar y mynyddoedd wrth efengylu tangnefedd. Cofiwch y bydd dynion yn talu cymaint o sylw i'ch traed ag i'ch pregethau; am hyny bydded eich pregethau a'ch siamplau yn cyd-gordeddu.

3. Y cyngor olaf a rydd yr apostol yw, *iawn gyfranau gair y gwirionedd*.

Gwelwn yn gyntaf,—Nad oes dim i fod yn ddefnydd gweinidogaeth ond y gair. "Pregetha y gair."

Yn nesaf. Y dylai y gair wrth ei bregethu gael ei *iawn gyfranau*. Gofalwch gymhwysu pob rhan o'r gwirionedd at y gwrthddrychau y perthyna iddynt. Peidiwch rhoddi bara y pant i'r cwn, na thafu gemau o flaen moch. Mae lyma bethau i'r cwn, a'r moch; ond nid bara y plant yw. Gofalwch am y nod cywir cyn gollwng eich saethau. Rhoddwch bob llythur i law yr hwn y byddo yr Ysbryd Glân wedi ei *ddirectio* iddo. Gochelwch fod yn euog o waeddi heddwch lle na bydd heddwch. Dywedwch wrth yr annuwiol mai "drwg fydd iddo." Dywedwch wrtho mai "ar yr annuwiol y gwlawia Duw faglau tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus;" ac mai hyny fydd "rhan eu phiol hwynt." Ond dywedwch wrth y cyflawn mai "da fydd iddo." Dywedwch mai "yn ol ei ddydd y bydd ei nerth." Dywedwch wrtho, pan el trwy y dyfroedd y bydd Duw *gydag ef.*" Iê, dywedwch befyd wrth y penaf o

bechaduriad fod Duw yn cyfiawnhau yr annuwiol; a dywedwch, pwy bynag gredo yn yr Arglwydd Iesu, mai "cadwedig fydd."

Gair yn mhellach am weinyddiad yr ordinhadau. Peidwch byth cymeryd y sacramentau yn destunau i ddadleu arnynt. Nid i'r dybeu hwnw y rhoddwyd hwynt. Arweiniwch feddwl y bobl at yr hyn y maent yn ddysgu, yn fwy nag at y dull o'u gweinyddu. Cedwch y prif wirionedd sydd ynddynt o hyd yn y golwg. Nid oes dim esyd yr urddas briodol ar weinidogaeth yr efengyl uwchben y sacramentau ond dylanwad arswyd a mawrhydi yr Hwn a'n hordeiniodd.

Y gair olaf. Os dygwydd i'r un gwynt chwythu arnoch chwi ag sydd yn chwythu y dyddiau hyn ar lawer o'ch cyfoedion yn y weinidogaeth, sef edrych allan am y lle esmwythaf, ac am y gyflog fwyaf, trowch at yr ugeinfed bennod yn llyfr yr Actau, a sylwch ar yr hyn ddywed Paul yno pan oedd yn rhwym i Jerusalem: "Nid wyf yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw. O herwydd paham yr ydwyf yn tystio i chwi y dydd heddyw, fy mod i yn lân oddiwrth waed pawb oll; canys nid ymateliais rhag mynegu i chwi holl gynghor Duw." Pwy bynag sydd yn cyfranogi o'r cyfryw ysbryd yn ei fywyd, a gyfranoga hefyd o'r cyfryw wobwr wrth farw. Gall ddweyd gada'r apostol, "Mi a ymdrechais ymdrech deg; mi a orphenais fy ngyrfa; mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi; ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef."

PREGETH XI.

AWDWR IACHAWDWRIAETH DRAGYWYDDOL.

“Ac wedi ei berffeitho, efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo,' Heb. v. 9.

SONIR yma am waith, ac am Awdwr y gwaith. Y gwaith yw iachawdwriaeth dragwyddol, yr Awdwr yw Crist. Perffeithio y perffaith oedd perffeithio Crist, oblegyd “y peth sanctaidd” ydoedd. Yr oedd iachawdwriaeth yn cael ei dangos dan yr hen oruchwyliaeth; ond ni pherffeithiodd y gyfraith ddim. Pan berffeithiwyd Crist yn Awdwr iachawdwriaeth, fe berffeithiodd yntau iachawdwriaeth; a thrwy yr iachawdwriaeth fe berffeithir yr holl saint i ddedwyddwch perffaith a thragywyddol.

Mae yr iachawdwriaeth ag y mae Crist yn Awdwr iddi, yn (1.) Yn berffaith yn ei natur. Mae yn rhoi eu lle priodol i Dduw ac i ddyn; yn rhoi gol-euni ar ddyn heb roi tywyllwch ar Dduw. Mae yn rhoi y dyledwr yn rhydd, heb wneyd cam â'r gofynwr. Mae yn golchi yr aflan heb dryblu dwr y ffynon. (2.) Yn gyflawn yn ei chynwys. Mae “fel y môr, yn chwyddo byth i'r lan.” Mae yn cynwys ynddi bob peth sydd yn eisiau arnat am amser a thragywyddoldeb.

“I'r euog gyflawnhad,
I'r caeth rhyddhad o'i boen,
I'r hologedig lwyr lanhad,
Trwy rinwedd gwaed yr Oen.”

Mae llawer o son am *insuro* bywydau yn awr.— Dyma *office life insurance* y Cristion, yr iachawdwriaeth dragwyddol. Nid cael tipyn allan ar ol i *chwi farw* yw telerau yr *office* hon. ond y mae yn

sicrhau y bywyd ei hun. *Insurwch* yn *office* iachawdwriaeth, ac fe â Duw ei hun yn *responsible* i chwi am eich bywyd. Fe'i cuddir gyda Christ yn Nuw. "A minau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol, ac ni chyfrgollant byth." A oes neb yn yr oedfa yma *insuro* ei fywyd yn yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist Iesu? Mae yr *office* yn agored yn awr. Fe ddichon fod rhyw un am ofyn, A oes rhywbeth i dalu yn flynyddol? Oes, nid yn flynyddol, ond bob dydd. Beth sydd i'w dalu? Dyma *derms* yr *office*. "Gwadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awrhon."

Ac y mae yn dda genyf eich hysbysu fod yr *office* hon nid yn unig yn sicrhau gwneyd colled i fyny, os cymer damwain le, ond sicrhau rhag colled er i ddamwain gymeryd lle. Yr oedd y tri llanc wedi *insuro* cyn myned i'r ffwrn dân; ac am hyny daethant allan o honi heb golli camaint a blewyd o'u penau. Ond cofiwch, fy eneidiau, nid ar wely angau mae yr amser i *insuro*; bydd yn rhy ddiweddar yno. "Yn awr yw yr amser cymeradwy; heddyw yw dydd yr iachawdwriaeth."

(3.) Mae yn dragywyddol ei pharhad. Dim ond y tragywyddol sydd yn ddigonol i ddyn. I bwy y mae y rhagorfraint? "I'r rhai cll a ufuddhant iddo." "Does waeth bwy wyt ti, nac o ba le y daethost, dim ond i ti blygu i ufuddhau. Diolch i Dduw am ddrws digon llydan—"i'r rhai oll ufuddhant."

PREGETH XII.

Y GAIR YN RHEDEG A CHAEL GOGONEDD

“Bellach, frodyr, gweddiweh drosom ni, ar fod i air yr Arglwydd redeg a chael gogonedd, megys gyda chwithau,” 2 Thes. iii. 1.

YN y bennod o'r blaen mae yr apostol yn gweddio dros yr eglwys yn Thessalonica, am i'r Arglwydd ddyddanu a sicrhau eu calonau yn mhob gwerthred dda; yn yr adnod hon y mae yn hōni hawl yn gweddiau yr eglwys ar ei ran ef a'i frodyr yn y weinidogaeth, sef ar fod i'r gair redeg a chael gogonedd. Y dynion tebycaf i weddio yn effeithiol am llwyddiant y gwirionedd yw y rhai sydd wedi profi rhinwedd y gwirionedd eu hunain. Wedi i'r wraig ar lan ffynon Sychar gael profi rhinwedd geiriau Crist, mynai i bawb eraill gael yr un peth. Nid oes dim yn fwy o fraint i weinidogion yr efengyl na chael rhan yn gweddiau y dynion sydd ag *interest* mawr gyda Duw. Y peth nesaf at eiriolaeth Crist yn y nef yw gweddiau y saint ar y ddaear. Cynwys y testun hwn yw gweddi, a chynwys y weddi yw, ar fod i air yr Arglwydd redeg a chael gogonedd. Mi sylwaf oddiwrth y testun ar dri pheth:—Y gair, y gair yn rhedeg, a'r gair yn cael gogonedd.

I. Beth sydd i ni ddeall wrth air yr Arglwydd? Y mae tri pheth yn y Bibl yn cael eu galw yn air yr Arglwydd. 1. Y Gair tragwyddol, sef person Crist. “Yn dechreuad yr oedd y Gair.” “Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd.” 2. Yr holl ysgrythyr, yr hon sydd wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw. Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn, ac nid oes dim ond y rhai hyn yn eiriau Duw. 3. Pregethiad yr efengyl. “I chwi y pregethwyd yr efengyl, megys ag iddynt hwythau; eithr y gair a glybuwyd,” &c.

“Atoch chwi y daeth gair yr iachawdwriaeth hon.”

II. Beth ddeallir wrth fod y gair yn rhedeg? Mae yn rhaid i ni ddeall—

1. Danfoniad a lledaeniad yr ysgrythyrau trwy yr holl fyd. Mae mwy o hyn wedi ei wneyd yn ein hoes ni nag mewn unrhyw oes o'r blaen yn hanes y byd. Y mae Cymdeithas y bibl yn gweithio yn *beautiful* gyda hyn. Gweddiwch, frodyr ar fod i'r gair redeg i bob gwlad, i bod llwyth, i bob lliw, ac i bob llaw trwy yr holl fyd, nes byddo gwybodaeth yr A glwydd yn llenwi'r ddaear, fel y tîa y dyfroedu y mor. Un o brif rinweddau ein teyrnas ni yw yr yndrech sydd ynddi at ledaenu yr ysgrythau; ac y mae yn anhawdd meddwl na bydd amddiffyn yr Arglwdd ar Loegr, oblegyd y gwaith y mae wedi ymddiried iddi i'w gyflawni, set helpu y gair i redeg. Mae y dyddiau i ddyfod pan fydd cyfraith y Bibl yn *law of the land*. Yr wyf yn clywed llawer yn holi am *News of the World*. Y Bibl yw y *news of the world* a'r *news to the world* penaf a gafwyd erioed—“Newyddion da o lawenydd mawr, i'r holl bobl—Ceidwad wedi ei eni, yr hwn yw Crist yr Arglwydd.” Yn hwn chwi gewch hanes y byd yn ei ddechreu a'i ddiwedd, a'r hanes tu draw i'r diwedd hefyd. Wrth rediad y gair ddeallir hefyd—

2. Y pregethiad o hono. Nid yn unig mae y gair i gael ei ddsbarthu trwy yr holl fyd, ond i gael ei bregethu i'r holl fyd. “Yr efengyl hon am y deyrnas a bregethir trwy yr holl fyd.” Cynelir y byd i fyny er mwyn cyrhaedd amcanion Duw yn mhregethiad ei air. Pan fyddo dynion yn còdi colofn uchel, y maent yn defnyddio llawer o ysgaffaldiau: ond wedi gorphen y gwaith, tynir yr ysgaffaldiau ymaith. Ysgaffaldiau Duw i adeiladu ei eglwys yw yr hen fyd yma. “Pan adeilado yr Arglwydd Sïon, y gwelir ef yn ei ogoniant.” Golygfa ddychrynlyd fydd gweled Duw yn tynu pob ysgaffald i

lawr ar unwaith, pan fedd y gorchwyl ar ben. "Y ne oedd a ânt heibio gyda thwrf, a'r elfenau gan wir wres a doddant; a chan fod yn rhaid i hyn i gyd i ymol wng, pa ryw fath ddyinion a ddylech chwi fod meŵn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb?"

III. Beth yw fod y gair yn cael gogonedd?

Mae y Bibl wedi ei ddanfôn o ran y llythyren, ac yn y pregethiad o hono, i lawr man lle nad yw wedi caal gogonedd. Ei ddiystyru, ei ddirmygu, a'i losgi y mae wedi ei gael yn fynych, yn lle ei ogonedd.—Yr ydych yn digio Duw, bobl, wrth fod mor ddibris o'i air. Mae llawer o honoch yn darllen pob llythyr sydd yn dyfod i'ch ty ond llythyr Duw. Nid yw y gair yn cael y gogonedd lle nad yw yn cael ei gredu, Mae yn cael ei ogonedd yn mhob un a gredo, oblegyd credn ynddo, trwy ufudd-dod iddo, a thrwy enill i'r un ysbryd ag ef ei hun. "O'i wir ewyllys yr enillodd efe nyni, trwy air y gwirionedd, fel y byddem ryw flaen-ffrwyth o'i greaduriaid ef."

PREGETH XIII.

Y FFORDD, Y GWIRIONEDD A'R BYWYD.

"Yr Iesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw y fiordd, y gwirionedd, a'r bywyd; nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi," Ioan xiv. 6.

MAE yr Iesu yn nechreu y bennod yn son am ei ymadawiad; ac er mwyn eu cysuro, dywed mai myned yr oedd i barotoi lle iddynt hwy, ac y byddai ffordd yn agored iddynt hwythau fyned ar ei ol: "Y ffordd a wyddoch. Cododd Thomas i ateb, "Ni wyddom

ni i ba le yr wyt ti yn myned, a pha fodd y gallwn wybod y ffordd?" Ateb Iesu i eiriau Thomas yw y *text*. "Myfi yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd. Er fod y dysgyblion wedi eu goleuo yn gadwedigol am yr Arglwydd Iesu, fel yr unig Iachawdwr, eto yr oeddent yn bur dywyll am natur ei deyrnas. Yr oeddent, yn ddiamheu, yn dysgwyl y gwnelai yr Arglwydd osod teyrnas ddaearol i fyny, fuasai yn gwella tipyn ar eu hamgylchiadau hwy. Yr oedd adnod y *text* felly yn taro yn o ddyryslyd ar eu meddyliau hwy, er ei bod yn cynwys gwirionedd pwysig a phlaen, a gwirionedd ag sydd mor berthynasol i ni ag ydoedd iddynt hwy. Gan hyny, mi sylwaf oddiwrth y *text* ar—

Dystiolaeth Crist am dano ei hun.

1. "Myfi yw y ffordd." Mae llawer o son am ffordd yn y Bibl; am ffordd Duw, am ffordd dyn. "Nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd." Ffordd yr Arglwydd yw ei gynghor.—"Yr Arglwydd a'm meddianodd yn nechreuad ei ffordd, cyn ei weithredoedd." Ffordd yr Arglwydd weithiau yw ei oruchwyliaethau, neu ei waith. "Mae "ei ffordd yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd cryfion." Wrth ffordd dyn y deallir ei dueddiad a'i arferion. Yn y bregeth ar y mynydd gesyd Crist allau ddau garitor y byd fel dwy ffordd—un yn gul, a'r llall yn llydan; un yn arwain i fywyd, a'r llall i ddystryw.

Ond yn y *text*, Crist yw y ffordd, a'r unig ffordd at y Tad. Fe fu ffordd gan Dduw, heb hon, a chyn hon: sef ffordd y creadur at y Creawdwr; a diamheu ei bod yn ffordd hwylus, rydd, wastad, a hawdd ei thrafael. A thra y bu y dyn yn cerdded hono, yr oedd ei heddwch fel yr afon, a'i gyfiawnder fel tonau y môr. Ond pan droseddodd y creadur yn erbyn y Creawdwr, fe stopiwyd y ffordd.—

Cauwyd hi i fyny â "chleddyfau tanllyd ysgwyded-ig." Beth oedd y rhai hyny dda? Cadw ffordd pren y bywyd. Ond mae y *text* yn son am ffordd newydd yn lle hono—"newydd a bywiol." Galwyd hi yn newydd am mai wedi cau y gyntaf yr amlygyd ar ail; a 'does dim trydedd i fod byth i droi yr ail heibio. Mae Crist yn ffordd i'r pethau canlynol:—Yn gyntaf, Yn ffordd i gymodi y gelyn. Ffordd i adeal iddo ddianc? Nage, os gwelwch yn dda, ond ffordd cymod iddo. Dyma gomisiwn mawr yr efengyl, "Cymoder chwi â Duw." Pa fodd? "Crist yw y ffordd." Yn ail, Ffordd yr euog i gael el gyfiawnhau. "Wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef." Ai prynu eich cyfiawnhad wnaethoch? Nage, un arall brynodd: trwy y prynedigaeath sydd yn Nghrist Iesu." Yn drydydd, Ffordd i wneuthur y pell yn agos. Yn bedwerydd, Ffordd i buro yr halogedig. Mae Crist yn ffordd i'r pethau hyn oll. Mae dyniou yn cynyg llawer ffordd i geisio cyrhaedd un amcan, ac yn methu yn y diwedd. * Ond y mae Duw wedi cael hyd i un ffordd sydd yn cyrhaedd pob amcan. "Fel y gallai grynhoi yn nghyd yn Nghrist, yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear, ynddo ef." Iesu Grist yw ffordd "adferiad pob peth."

2. "Myfi yw y gwirionedd." Gwirionedd y prophwydoliaethau. "I'r hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth." Gwirionedd yr aberthau. Cysgod y daionas bethau a fyddent oedd y rhai hyny, "eithr y corph sydd o Grist." Gwirionedd yr holl ysgrythyrau. Yn yr Iesu yn unig y mae yr ysgrythyrau yn wirionedd. Ynddo y cyfiawnwyd y prophwydolaethau, y gwiriwyd y tystiolaethau, ac y sylweddwyd y seremonïau. "Iesu Grist sydd bob peth, ac yn mhob peth."

3. "Myfi yw y bywyd." Nid y ffordd i fywyd, ond y bywyd. "Yr hwn y mae y Mab ganddo, y

mae y bywyd ganddo." Mae bywyd gwir grefydd yn fywyd trwy Grist, yn fywyd sydd yn ymgynal ar Grist, yn fywyd i Grist, ac yn fywyd i fyw byth gyda Christ.

Cofiwch, gynulleidfa, nad oes un ffordd at y Tad end trwyddo. Y maent yn agor llawer o ffyrdd y dyddiau hyn i lawer man, ond 'does neb wedi agor ffordd at Dduw, ond yr hon agorwyd trwy Bethlehem a Chalfaria. Mae nhw'n dyweyd faint o bell-der sydd i'r haul, ond 'does dim ffordd o'ch ty chwi yno; ond y mae ffordd o'ch ty chwi at Dduw; trwy Grist. Gellwch fyned at y broffes. at yr ordin-hadau, y naill ochr i Grist, ond 'dall neb fyn'd at Dduw, ond trwyddo ef.

Cofiwch, mae un i'w ddefnyddio yw Crist yn yr holl gymeriadau hyn, fel ffordd, gwirionedd, a bywyd. Amcan ffordd ydyw ei thrafaelu; amcan gwirionedd yw ei gredu; ac amcan bywyd yw ei feddianu.

PREGETH XIV.

CANLYN CRIST.

"Yna y dywedodd yr Iesu wrth ei ddysgyblion, Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun, a chyfoded ei groes, a chanlyned fi," Mat. xvi. 21.

"Os myn." Chwi welwch nad oes na gorfod na thrais yn nghrefydd Crist. Nid oes neb yn gwir ganlyn Crist heb "fynu" myned ar ei ol; ac nid oes neb yn "mynu" caulyn Crist, yn methu myned ar ei ol. Dengys y Bibl fod Crist yn *enill* pob Cristion,

a bod pob Cristion yn *enill* Crist. Ydych chwi yn cofio adnod Iago? “O’i wir ewyllys yr *enillodd* efe nyni, trwy air y gwirionedd.” Ac y mae adnod Paul lawn cystal a hono: “Yr wyf yn cyfrif pob peth yn dom, fel yr *enillwyf* Grist.” Enill o bob ochr.

Mae yn ymddangos i mi fel ewyllys Duw yn iachawdwriaeth pechadur yn effeithio ar ewyllys y dyn, nes dwyn y ddwy ewyllys i berffaith gydgordiad. Nid Antinomiaeth yw dweyd fod iachawdwriaeth o benarglwyddiaethol ras Duw; ac nid Arminiaeth chwaith yw dweyd fod y Cristion yn cael ei ddwyn i ewyllysio ei iachawdwriaeth ei hunan. “Nid o’r hwn sydd yn ewyllysio y mae.” “Ond Duw sydd yn gweithio ynoch ewyllysio.” Mae priodas Isaac a Rebecca yn dangos hyn. Yr oedd yno “fyndu” o bob ty. Ond sylwaf yn mhellach—

I. Beth sydd yn gynwysedig mewn canlyn Crist?

1. Ei arddel mewn proffes. “Pwy bynag sydd â chywilydd ganddo Fab y dyn.” “Os gwadwn ef, yntau hefyd a’n gwad ninau.”

2. Dylyn siampl Crist. Gadawodd i ni “siampl fel y canlynem ei ol ef.” “Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf.”

3. Cymeryd gair Crist yn rheol ein bywyd. Dyma lusern bywyd y Crstion. “Llusern yw dy air i’m traed.” “A’r rhai a rodiant wrth y rheol hon, tangnefedd arnynt.”

4. Gwneyd gogoniant yr Arglwydd yn brif nod ein bywyd.

II. Beth yw ymwadu â ni ein hunain?

I. Ymwadu ag ef ei hun, am lwybr ei gyfiawnhad.

2. Am lwybr ei sancteiddiad. Duw sydd yn cyfiawnhau, ac yn sancteiddio. “Iddo ef yr hwn a’n *carodd*. ac a’n golchodd.”

3. Am ei gynaliaeth trwy yr anialwch.

4. Am nerth i orchfygu pob gelyn. Nid yn ar-fau a botasau Saul y gorchfygodd Dafydd y cawr, ond yn nerth Duw. Felly y sathr Duw satau dan eich traed chwi.

III. Beth yw cyfodi y groes? Dal yn awr y brofedigaeth. Nid gwneuthur profedigaeth; nid ysgoi profedigaeth; ond dal profedigaeth. "Gwyn fyd y gwr sydd yn goddef profedigaeth. "Mae genyf dri pheth i'w cynyg i'r Cristion er cynal ei feddwl dan y groes:—

1. Ystyria fod dy well di wedi bod dan y groes o dy flaen di. 2. Ystyria fod dy well di wedi bod ar y groes drostot ti 3. Mae hwnw wedi addaw bod gyda thi dan dy groes, hyd y dydd y bydd dy groes yn troi yn goron! ac yma—

"Dim achwyn mwy,
Ond canu am glwy' Calfaria fryn."

PENNOD XV.

COFIO YR ISEL-RADD.

"Yr hwn yn ein hisel-radd a'n coflodd ni, o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd," Salm cxxxvi.
23.

MAE y testun hwn yn cyfeirio at waredigaeth Isreal o'r Aipht, a hono fel cysgod o waredigaeth yr eglwys. Mae yn gwestiwn a all un dyn duwiol ddarllen yr hanes hono heb weled llawer o'i hanes ei hun ynddi. Cododd yr Arglwydd Moses yn waredwr i'r genedl, e dygodd ef i fyny ar draul y llywodraeth.

Pan darawodd Moses yr Aiphtiw'r oedd yn gwneyd i cam â'r Hebrewr, ofnodd Pharaoh, a ffodd i dir Midian. Yno fe briododd â merch y "ffeirad," a chafodd y mab ynghyfraith ei wneyd yn fugail ar y praidd.

Ond yn mhen deugain mlynedd, daeth amser Duw i waredu y genedl. Galwodd gyda Moses yn y berth danlyd, a cheisiodd ganddo fyned at Pharaoh.— "Pwy wyf fi," medd i Moses, "i fyned at Pharaoh? yr wyf yn nabod y gwr hwnw yn dda. Yr un peth i mi aros gartref. Gwell i ti ddanfôn fy nhad ynghyfraith; bydd y 'ffeirad' yn fwy tebyg o gael tro ar y brenin na'r hugail." "Cerdda, Moses, byddaf fi gyda thi. A rhyngom ein dau, ti gei wel'd, ni wnawn y *job*." Ac fellv bu. Mae y Salmydd yn troi yn ol y ffordd hono i weled a chanmol trugaredd Duw.

Yn bresenol, mi alwaf eich sylw at dri pheth oddiwrth y testun:—

I. Sefyllfa syrthiedig dyn: "isel radd." Mae pedwar peth yn dangos iselder ei sefyllfa. 1. Mae yn dlawd. 2. Wedi myned i ddyled, ac heb ddim i dalu. 3. Wedi troseddu cyfraith. 4. Wedi tynu afiechyd marwol i'w gyfansoddiad.

II. Ymgynabyddiaeth yr Arglwydd â'r isel-radd. "Efe a'n cofiodd ni" Enwaf i chwi amryw leodd y cofiodd yr Arglwydd ni yno. 1. Yn ei gariad atom er tragywyddoldeb. "A chariad tragywyddol y'th gerais." 2. Yn ngwaith Mab Duw yn cymeryd ein natnr. "Gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed," &c. 3. Yn ei farwolaeth drosom ar y pren. 4. Yn ein galwedigaeth trwy yr efengyl. 5. Trwy gymeryd ein gofal yn yr anialwch i'n dwyn adref yn ddyogel. 6. Gwna hyny eto yn ein harddeliad yn nydd y farn.

III. Y rheswm am ein cofio. "O herwydd fod ei

drugaredd yn dragywydd.”

1. Os yw ein hiachawdwriaeth yn codi o drugaredd Duw, nis gall neb arall ddyfeisio ffordd iachawdwriaeth.

2. Gan mai o drugaredd y mae, mae gobaith i'r pechadur penaf. 'Does neb yn ormod pechadur i drugaredd.

PREGETH XVI.

ADNABOD LLAW YR ARGLWYDD.

“Fel yr adnabyddo holl bobloedd y ddaear law yr Arglwydd, mai nerthol yw; fel yr ofnoch yr Arglwydd eich Duw bob amser,” Jos. iv. 24.

WEDI i Moses gwas yr Arglwydd ddwyn meibion Isreal i rosydd Moab, hysbysodd yr Arglwydd ef nad oedd i gael etifeddu y wlad, ond y byddai farw yn y mynydd. Ac wedi i Mosos esgyn i'r mynydd, a gweled y wlad, bu farw, a chladdodd yr Arglwydd ef. Yr oedd Moses eisoes, yn ol gorchymyn Duw, wedi ordeinio Josuah yn ei le, a'r Arglwydd wedi addaw bod gydag ef, fel y bu gyda Moses. Fe wna Josuah gystal *Commander in cheif* a Moses, ond cael Duw gydag ef.

Wedi galaru deng niwrnod ar ugain ar ol Moses, gorchymynodd yr Arglwydd i Josuah osod yr holl wersyll mewn trefn, y byddai iddynt yn mhen tridiau groesi yr Iorrdonen, a chanu yn iach i'r hen anialwch o'r diwedd, A dacw yr adeg wedi dyfod; yr holl bobl mewn trefn; yr offeiriad a'r arch yn cychwyn, gan adael dwy fil o guffyddau rhyngddynt

a'r bobl. A gyda fod traed y offeiriad yn cyffwrdd â dwrf yr afon, torodd yr Arglwydd y dyfroedd ar eu traws. Safodd y dwrf yr ochr uchaf yn bentwr, a chiliodd y tu arall i fôr y rhôs. Safodd yr offeiriad a'r arch ar dir sych yn ngwely yr afon, hyd nes i'r olaf fyned drosodd yn ddyogel. Codwyd deuddeg o geryg yr afon, lle y safai traed yr offeiriad oedd yn dwyn yr arch. a gosodwyd hwy i fyny yn Gilgal i fod yn goffadwriaeth o'r waredigaeth i oes-oedd dyfodol. Mae y testua yn dangos amcan y ceryg, ac amcan holli dyfroedd yr Iorddonen. sef dwyn y byd i adnabod llaw yr Arglwydd mai nerthol yw. Mae y testun yn cynwys gwirionedd pwy-sig ynddo ei hun, yn annibynol ar ei gysylltiad ag Israel yn croesi yr Iorddonen. Nid unrhyw amgylchiad sydd yn rhoddi pwys ar y geiriau hyn, ond y maent yn bwysig yn ol natur pethau, sef bod pawb i adnabod llaw yr Arglwydd, ei bod yn nerthol.—Sylwaf oddiwrth y testun ar y pethau canlynol:—Beth yw llaw yr Arglwydd—yr hyn briodolir i'r llaw—y daw pawb i adnabod y llaw—ac y bydd ei hadnabod yn peri i bawb ofni, y naill ffordd neu y llall.

I. Beth sydd i ddeall wrth llaw yr Arglwydd. Dylem gofio wrth son am ei law, mai ysbryd yw Duw, ae nad oes ganddo gnawd ac esgyrn fel sydd gyda ni. I ni ymaent yn gymhwysderau ynom i weithredu tuag at wahanol wrthdrysau. Ond nid oes ranau yn perthyn i Dduw: a phan sonir am danynt, meddylir ei gymhwysderau i weithredu yn mhob peth yn ol ei berffeithiau ei hun. Y mae ef yn gweled pob peth, yn gwybod pob peth. Mae tri pheth yn cael eu galw yn llaw yr Arglwydd:—

1. Rhagluniaeth Duw, yr hon yw cynllun ei holl weithredoedd. Yr oedd Judas yn bradychu, Pilat yn condemnio, a'r Iuddewon yn croeshoelio; ond dywedir nad oeddynt yn gwneuthur dim, ond a ragluni-

odd y llaw i'w wneuthur.

2. Llywodraeth Duw. Mae yn dal y greadigaeth ar gleidr ei law. Y mae gorddyfnderiau y ddaear yn ei law.

3. Goruchwyliaethau Duw. Gwardododd ei bobl o'r Aipht â llaw gref. Mae yn estyn ei law i daro. Mae yn agoryd ei law bob dydd i'n diwallu. Pan mae yu cau ei law, yr ydym yn trengu.

Yr hyn briodolir i'r llaw, "mai nerthol yw." Mae pob peth gan yr Arglwydd wrth law, yn ei law, ac at law, ac y mae hyn yn dangos ei nerth. Y mae llawer gwr cyfoethog wedi bod mewn taro lawer gwaith, am nad oedd ei feddianau wrth law. Y mae holl gyfoeth Duw yn wastad wrth law. Pan fydd eisiau gwynt, neu lyffaint, neu lau, y maent wrth law mewn mynyd. Y mae y gyfraith yn methu dal y troseddwr yn aml, ond yr wyt ti, enaid, wrth law—yn y llaw—pa bryd bynag y bydd galw am danat. "Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr, yno y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw." Rhaid i chwi fyned allan o derfynau ei ymerodraeth, cyn y galloch fyned o afael ei law. Blentyn Duw, cymer gysur! Y mae pob peth yn llaw dy Dad. Os bydd raid i ti fyned i'r ffau, mae y llewod dan ei law. Os bydd raid myned i'r ffwrn, mae y tân dan ei law. Os bydd raid myned dan ddwyllaw angau, mae hwnw dan ei law. "Mae agoriadau uffern a marwolaeth wrth ei wregys."

III. Daw pawb i adnabod y llaw, mai nerthol yw. Teimlir ei nerth gan bawb mewn arbed neu daro. Yr un llaw ag a holltodd y Môr Coch i'r genedl fyned allan o'r Aipht, hyrddiodd ddyfroedd y dyfnder mawr i foddi yr Aiphtiaid, Yr un llaw ag a dynodd Lot allan o Sodom wlawiodd y tân a'r brwmstan ar y dinasoedd, nes eu damnio â dymchweliad. Yr un llaw ag a gauodd ar Noah yn yr arch agor-

odd fenestri y nefoedd, ac a rwygodd ffynonau y dyfnder, nes ysgubo dyn ac anifail ymaith oddiar wydneb y ddaear. F'eneidiau anwyl, peidiwch codi yn erbyn y llaw nerthol hon! "Pwy a galedodd yn ei herbyn, ac a lwyddodd!" Y mae llawer wedi codi yn ei herbyn, ond cawsant oll ddeall er eu gofid mai anfad ynfydrwydd ydoedd. Edrychwch y darn llaw ar y pared yn gwywo ysbryd Belsassar. Edrychwch ar Pharaoh ar ol ei holl galedu, yn gwaeddi mewn dychryn, "Ffowr y mae Duw yn ymladd yn ein herbyn." Bobl! "peth ofnadwy yw syrthio yn nwyllaw y Duw byw." Mae yr Arglwydd heddyw "yn estyn ei law ar hyd y dydd, at bobl anufudd ac yn gwrth-ddywedyd." Plygwch iddi.—Cydnabyddwch hi. "Ymddarostyngwch dan alluog law Duw, fel eich dyrchafer mewn amser cyfaddas."

PREGETH XVII.

YR EFENGYL MEWN NERTH.

"Oblegyd ni bu ein hefengyl ni tuag atoch mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glan, ac mewn sicrwydd mawr," 1 Thes. i. 5.

MAE yn debyg mai at yr eglwys hon yr ysgrefenodd Paul ei lythyr cyntaf, er ei fod wedi ei osod i lawr yn olaf o'i lythyrau at yr eglwysi. Yn y testun y mae yn dangos ei hyder diffuant yn ngwirionedd crefydd y Thessaloniaid. Y mae yn seilio ei hyder hwn ar rasmusau yr efengyl ynddynt, a'u heffithiau arnynt, yr hyn sydd brawf anffaeledig o wir-

ionedd crefydd, Bu yr efengyl tuag atynt mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr. Gallai yr Ysbryd achub heb weinidogaeth yr efengyl, ond nis gall y weinidogaeth heb yr Ysbryd. Ceisiaf sylwi oddiwrth y testun ar dri pheth:—Yr efengyl—yr efengyl mewn gair—a'r efengyl mewn nerth, ac yn yr Ysbryd.

I. Yr efengyl. Ystyr mwyaf eang efengyl yw holl dystiolaeth Duw ani ifordd achub pechadur trwy gyfryngdod ei Fab, yn mhob oes a than-bod goruchwyliaeth. Yr un o ran egwyddor yw yr efengyl dan bob goruchwyliaeth, er nad yr un o ran ffurf. Tan yr cruchwyliaeth gyntaf yr oedd yn sefyll mewn *addewid*, mewn *prophwydoliaeth*, ac mewn *cysgod*. Ond dan yr oruchwyliaeth newydd mae yr addewid wedi ei gwirio, y brophwydoliaeth wedi ei chyflawni, a'r cysgod wedi ei sylweddoli. Dengys yn mai y newydd yw y buraf a'r olaf. "Duw a h'efarodd wrthym ni yn ei Fab."

II. Efengyl mewn gair yn unig. Efengyl mewn gair ydyw efengyl mewn tystiolaeth, mewn gweinidogaeth, ac mewn proffes. Gallai ei dylanwad felly wneyd ychydig i wella moesau y byd; ond tuag at oleuo y ddeall, plygu yr ewyllys, tyneru y gydwybod, dyrchafu y serch, a santeiddio y cof, rhaid ei chael mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glân.

III. Efengyl mewn nerth. Gosodir nerth efengyl allan trwy amryw gydmariaethau. 1. Nerth gorsedd. "Breniniaeth" ydyw. 2. Nerth goleuni. "Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu," &c. 3. Nerth bywyd. Mae yn rhoi bywyd lle nad yw, ac yn ei gynnal lle mae. Mae llawer dyfais yn y byd tuag at gynnal bywyd, ond 'does dim un tuag at roddi bywyd. "Minau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol." 4. Nerth elfenau. "*Gwynt*, yn chwythu lle y myno." "*Ddefr*, yn tarddu i fy-

wyd tragywyddol." *Tân*: "Onid yw fy ngair i megys tân?" 5. Nerth arfau. "Arfau ein milwr-iaeth nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw." Arfau yn lladd yr elyniaeth, heb ladd y gelyn. 6. Nerth cyfferi, i droi y clefvd yn ol. Mae meddygon weithiau yn rhoi cyfferi y maent yn dweyd sydd yn *kill or cure*. Ond nid oes y fath foddion yn siop yr efengyl. *Certain cure* ydyw y cwbl yma. "Efe a ddichon yn gwbl iachau." "Mewn sicrwydd mawr" hefyd. Mae yr etefeddiaeth yn sicr i'r plant. "Yn nghadw yn y nefoedd i chwi." Ac y mae y plant yr un mor sicr i'r etefeddiaeth, 'Does yr un yn marw cyn dyfod i'w oed. "A minau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol, ac ni chyfrgollant byth."

PREGETH XVIII.

GWNEUTHUR Y PELL YN AGOS.

"Eithr yr awrhon, yn Nghrist Iesu, chwychwi y rhaf oeddech gynt yn mhell, a wnaethpwyd yn agos trwy waed Crist," Eph. ii. 13.

Yr oedd yr apostol yn y charchar yn Rhufain yn ysgrifenu y llythyr hwn at eglwys Ephesus. Bu Paul yn pregethu llawer yno ei hunan, a llwyddodd yr Arglwydd ei weinidogaeth yn y fath fodd, fel y darfu iddo blanu yno eglwys flodeuog o Iuddewon a Chenedloedd. Mae yn debyg mai Cenedloedd oedd y nifer luosocaf o'r eglwys ag y mae yr apostol yma yn eu cyfarch; ac y mae y *text* yn cyfeirio *eu mbeddwl* at y sefyllfa druenus yr oedd yr Argl-

wydd wedi eu gwaredu hwynt o honi.

Mi sylwaf oddiwrth y testun ar dri pheth—y pell-der—yr agosâd—a moddion yr agosâd.

I. Y pellder yr aeth yr holl fyd iddo trwy y cwmp. “Canys ni a brofasom o’r blaen fod yr Iuddewon a’r Groegwyr dan bechod.” Nid felly yr oedd erioed, ond *cwmpo* i bechod wnaethant. Fe ddywedir i ni wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn; mor uniawn a bod “ar ei ddelw Ef ei hun.” Yr oedd y ddelw hono yn gynwysedig mewn “doethineb, cyfiawnder, a gwir santeiddrwydd.” Efe oedd “uchder llwch y byd.” Y tebycaf i’w Wneuthurwr o holl greaduriaid y ddaear. Ond er cwch gwr ydoedd yn ei greadigaeth, yr oedd yn annhraethol bell oddiwrth fod yn Dduw. Nid oedd uwchlaw bod yn gyfnewidiol. Mae Dduw yn ddigyfnewid, nis gall fod yn ddim i dragywyddoldeb, ond yr hyn ydyw er tragywyddoldeb. “Myfi yr Arglwydd ni’m newidir.” “Gyda’r hwn nid oes cyfnewidiad, na chysgod troedigaeth.”

Os mynwech weled pellder y cwmp, edrychwch ar yr hwn oedd mewn goleuni perffaith wedi cwmpo i dywillwch fel y fagddu; yr hwn oedd yn gyfaill Duw wedi myned yn elyn iddo; yr hwn oedd gyfiawn ger bron Duw dan gondemniad marwolaeth; a’r hwn oedd yn etifedd bywyd tragywyddol yn gorwedd yn farw mewn camwedd a phechod. Pwy all fesur y pellderoedd hyn?

Ceisias eich galw am ychydig fynyddau uwch ben codwm y ddynolaeth. Mae yr oes yn fawr am ddrychfeddylliau newyddion mewn pregethau. Yr wyf fi yn ofni fod y drychfeddwl am y cwmp a’i ganlyniadau yn beth pur newydd i lawer o’n gwrandawyr y dyddiau hyn. Gan hyny, sefwech uwch ben y cwmp yn awr, ac edrychwch, ystyriwch, pwyswch, a mesurwch y pellder y mae pechod wedi

ein treiglo iddo. Pa faint yw y pellder rhwng gol-euni a thywyllwch; rhwng bod yn gyfaill Duw a bod yn elyn iddo; rhwng bod yn ddyn cyfiawn, rhydd, a bod dan gadwynau y gollfarn? Dyn oedd a'i enaid yn rhydd, ac yn gallu edrych yn wyneb pawb yn ddiogfn, dan y farn, heb allu edrych i un man, ond i wyneb y gosp? Y pellder mwyaf mewn natur, yw pellder bywyd o marwolaeth. Mae hwn yn ysgar cymdeithas, perthynas, a theimlad. Mae y marw yn oeri at bawb, a phawb yn oeri ato yntau. "Cleddwch y marw allan o'm golwg." O ddyn! ti a'th ddinystriaist dy hun! "Syrthiodd ein coron oddiam ein pen; gwae ni bechu o honom!"

II. Yr agosiâd: "gwneuthur y pell yn agos." Mae hwn yn cael ei ddwyn yn agos mewn tair ystyr. 1. I berthynas. "Plant Dduw." "Ac os plant etifeddlion hefyd." 2. I gymdeithas. "Ein cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef, Iesu Grist." "Y mae i ni gymdeithas a'n gilydd." 3. I ddelw. "Yr un ffurf a delw ei Fab ef." Mae yr agosrwydd mor ogoneddus a bendigedig, ag ydyw y pellder o druenus a dychrynlyd.

III. Y moddion sydd yn effeithio yr agosâd hwn: gwaed Crist. Wrth waed Crist y mae i ni ddeall Crist ei hun, yn ei ddyoddefaint a digonolrwydd ei aberth i roddi iawn i Dduw, ac i ddwyn iachawdwr. iaeth i ddynion hyd eithaf y ddaear. Os gwnewch dŵl afiechyd y cwmp a iechydwriaeth Calfaría, y naill ar gyfer y llall, chwi a welwch eu bod yn cyfateb i'w gilydd i'r dim. Beth sydd yn narpariaeth y groes ar gyfer y dyn sydd wedi syrthio i dywyllwch, ac heb lewyrch iddo? Mi ddywedaf i chwi: "Duw yr hwn a barodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, yw yr hwn a lewyrchodd yn ein calonau ni, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist." Dyna ddigon i dy gadw dan

belydrau haul am dragywyddoldeb. Beth sydd yna ar gyfer yr hwn sydd wedi myned yn elyn Duw? Dyma sydd:—"Bod Duw yn Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." Beth sydd yn iechydwrriaeth y gwaed ar gyfer yr hwn sydd dan gondemniad? Mae cymaint a hyn: "Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau." "A nyni wedi ein cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Beth sydd ar gyfer yr hwn sydd yn farw mewn camwedd a phechod? Mae bywyd ar ei gyfer, canys dywed Crist, "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw." Dyna ddigon,

Diolch i Dduw! er pelled ydym wedi myned trwy y cwmp, nid ydym wedi myned yn rhy bell i ras ein cael yn ol. Trowch at y gwaed, f' eneidiau, yn awr, gael gwneyd yr hen golled fawr i fyny am byth. Gwylwch rhag myned dros derfyn amser cyn cael eich cymodi â Duw, trwy waed ei groes ef, neu chwi ewch rhy bell o gyrhaedd y gwaed i'ch cael yn ol am dragywyddoldeb: yna "ni'th wared iawn mawr."

PREGETH XIX.

HELAETHION YN NGWAITH YR ARLWYDD.

"Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sier, a diymod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur yn ofer yn yr Arglwyd." 1 Cor. xv. 58.

"PENNOD y gladdedigaeth" mae dynion yn galw

hon: wn i ddim pam. Byddai yn well genyf fi ei galw yn bennod yr adgyfodiad. Nid claddu yw ei phwnc, ond cyfodi. Mae yr apostol yma yn profi athrawiaeth yr adgyfodiad, am fod rhai yn Corinth yn ei gwadu. Dengys mai adgyfodiad Crist yw sail adgyfodiad y saint. Cawn ddesgrifiad gogoneddus yn nesaf o natur yr adgyfodiad trwy lawer o gydmariaethau naturiol; ac y mae y *text* yn gasgliad wedi ei dynu oddiwrth yr holl bennod. Gwelwn yma bedwar peth:—Cyfarchiad yr apostol—yr hyn y cyferchir hwy o'i blegyd—anogaethau taerion—a sail yr anogaethau.

I. Cyfarchiad caredig yr apostol i'r eglwys:—“Brodyr anwyl.” Mae yr holl saint yn gydradd yn y berthynas hon—brodyr. O'r un Tad yn cael eu geni, ar yr un bronau yn cael eu mhagu, yn yr teulu yn cael eu codi, yn yr un wisg yn cael eu dilladu, ar yr un bwrdd yn cael eu porthi, aci'r un etifeddiaeth yn cael eu cymhwyso. Nid rhyfedd fod Paul yn cyfarch mor gynnes, rhai oedd yn berthynasau mor agos—“brodyr anwyl.”

II. Yr hyn y cyferchir hwynt o'i herwydd, sef “gwaith yr Arglwydd.” Wrth waith yr Arglwydd gellir deall, 1. Gwaith yr Arglwydd yn iachawdwr-iaeth y saint; ac yn 2. Gwaith y saint yn ngwasanaeth yr Arglwydd.

Am y cyntaf, y mae yn waith drostynt, ac yn vaith ynddynt. Gwaith Crist dros ei hobl oedd y mwyaf a'r rhyfeddaf erioed. Cymerodd ein natur ni fel dillad cymhwys i'w waith. Dyoddefodd gospedigaeth ein heddwch ni yn ei gorph ar y pren.—Concrodd ei holl elynion. Pwrcasodd fywyd tra-gywyddol a theyrnas ddisiglyn etefeddiaeth i'w bobl dros byth. Yn y byd hwn yn fynych mae yr etefeddiaeth yn colli cvn marw yr etifedd, ac yn fwy mlynwch mae y etifedd yn marw tra byddo yr ete-

feddiaeth yn aros. Ond yn angau Crist fe sicrhawyd yr etifedd i'r *state*, a'r *state* i'r etefedd, a hyny am dragywyddoldeb. Mae gwaith mawr gan yr Arglwydd ynddynt hefyd—eu hadgenedlu i obaith bywiol, eu creu o newydd i weithredoedd da, eu cynnal, eu santeiddio, a'u cymhwyso i'r etefeddiaeth. Y mae natur y gwaith yn profi pwy raid fod y gweithiwr; ac y mae gwadu y Gweithiwr yr un peth a gwadu y gwaith.

2. Gwaith y saint yn ngwasanaeth eu Harglwydd. Bywyd i waith yw bywyd y Cristion. “Creu o newydd yn Nghrist Iesu i *weithredoedd da*” mae Duw. Nid oes y fath beth yn bod a Christion diwaith.—Mae ei waith yn gynwysedig mewn dyoddef dros ei Arglwydd, mewn cymhwyso ei hunan i'w Arglwydd, ac mewn helaethu teyrnas ei Arglwydd. “Mi a ym drechais ymdrech deg.”

III. Yr anogaeth a rydd yr apostol yn herwydd y gwaith. “Bod yn sicr.” Nid oes dim yn fwy anogaethol i ni i fod yn sicr mewn unrhyw beth na bod ynom gred fod y peth yn *sicr* ei hun. A welwch chwi y dyn yn croesi yr afon, a hitheu dros ei glanau gan y llifeiriant nerthol, a hyny yu berffaith ddiogel? Pa fodd y mae yn gallu gwneyd hyny? Credu yn sicrwydd y bont y mae. Mae hyny yn tynu pob dychryn o'i feddwl. O bob cyfunderaeth yn llywodraeth yr Anfeidrol, trefn yr iacliawdwriaeth yw y sicraf. Mae y môr i ferwi, y sêr i syrthio, y mynyddoedd i lamu, a'r elfenau i doddi; “ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd.” Mae pob hoel yma wedi ei sicrhau gan Feistr y gynulleidfa; mae ei Hawdwr yn ddigfnewid, mae y cyfamod yn hollol ac yn sicr; mae y pryndigaeth yn ddigonol, mae holl ddoniau y pryndigaeth yn ddiwedifarus. Mae y cwbl yma “yn sicr,” am hyny byddwch chwithau yn sicr.

Byddwch hefyd “yn ddiymod.” Peidio gwamalu, peidio *wawero*, onide ni wnewch chwi fawr gwaith. “Gwr dauddyblyg ei feddwl sydd anwastad yn ei holl ffyrdd.”

Byddwch “helaethion yn ngwaith yr Arglwydd.” Byddwch yn ymhelaethu. “Ychwanegwch at” o hyd. Ymhelaethwch yn eich myfyrdodau am Dduw, yn eich gweddïau, ac yn eich ymdrechion dros achos eich Arglwydd ar y ddaear. A digon o sail i'r anogaethau hyn oll yw. “gwybod nad yw eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd.”



PIGION O'I YSGRIFAU.

Yr anmhosibl a'r posibl.

“Gyda dynion anmhosibl yw hyn ond gyda Duw pob peth sydd bosibl,” Mat. xix. 26. Un o'r cwestynau trymaf a ofynwyd erioed, yw, “Pa beth a wnaif, fel yr etifeddwyf fywyd tragywyddol?” Ac y mae yr Iesu yn cau pob genau, ac yn gosod yr holl fyd dan farn Duw mewn un frawddeg brudd a therfynol. “*Gyda dynion anmhosibl yw hyn.*”—Mae “bod yn gadwedig” yn beth anmosibl gyda dynion. Mae anmhosibilrwydd dyn i gyrhaedd bywyd a dedwyddwch trwy ei gyflawniadau ei hun yn ymldangos yn ngwydeb tri pheth. (1.) Yn wyneb rhesymau. (2.) Yn wyneb ysgrythyrau. (3.) Yn wyneb profiadau. Ond os yw yn cau ffordd yma, mi'ch arweinïaf ehwi i fan y mae yn agor, ac yn agor na ddichon y cythraul ei hun byth ei chau:—“Gyda Duw pob peth sydd bosibl.” Mae f'enaïd yn barod i waeddi, diolch, mewn gwaed oer. Wedi dangos yr anmhosiblrwydd gyda dynion trwy dri pheth, mi amcanaf ddangos y posiblwrwydd gyda Duw trwy *bedwar* peth. (1.) Mae Duw wedi bwriadau cadw. Ni chyflawnodd ddim erioed heb fwriadu, ac ni fwrriadodd ddim erioed heb gyflawni. “Megys yr etholodd efe nyni ynddo ef er cyn seiliad y byd.” “Fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaif.” (2.) Y mae trwy Grist wedi agor ffordd i gadw. Ffordd gostus ydoedd—lawnaif o anhawsderau erioed: ond y maent oll wedi eu symud. Mae y gyfraith wedi ei hanrhydeddu, cyfiawnder wedi ei foddioni, uffern wedi ei mhaeddu, ac angau wedi ei lyncu. Mae

cadw yn bosibl gyda Duw, oblegyd mae yr hen ffordd at hyny wedi ei hagor a'i chysegru. (3) Mae Duw yn ymhyfrydu mewn cadw. Y pleser y mae yn gael yn y gwaith hwn barodd iddo gychwyn arno. Nid o'i fodd y blina efe; nid oes ganddo ewyllys yn marwolaeth yr annuwiol, ond y mae "yn achub dan ganu." (4) Mae yn alluog i gadw.—Nid yw cadw uwchlaw cyrhaedd ei allu. "Fe ddichon Duw o'r meini hyn gyfodi plant i Abraham." Y mae wedi treio ei law ar siamplau go ganolig, ond ni fethodd erioed. "Efe a ddichon yn gwbl iachau." Y mae yn achub "hyd yr eithaf;" ac y mae ganddo eithaf gallu, ac eithaf trefn at hyny. Anwyl eneidiau, ewch ato yn ei ffordd ei hunan, a threiwch ef am gael eich cadw. Penderfynwch ei dreio yn ysbryd Eſther, gan ddywedyd, "Os derfydd am danaf, darfydded."

Rhagluniaeth Duw.

(Sylwadau a wnaed mewn *society* Cyfarfod Misol yn Nghaerdydd, Hydref, 1860.)

Gelwir hwn yn gyfarfod cyffredinol, am ei fod yn agored i bawb aelodau eglwysig ddyfod iddo; ac ni feddyliwn y dylai yr ymdriniaeth fod yn gyffredinol—dylai pob brawd sydd â rhyw beth ar ei feddwl ar y mater, gael cenad i'w ddyweyd. Y mater sydd i fod dan sylw, yw: am ragluniaeth yr Arglwydd ar y byd. Wrth ragluniaeth Duw, meddylir weithiau, ei ragwybodaeth o'r hyn oll a gymér le mewn amser ac i' dragywyddoldeb. Y mae ef yn canfod y diwedd o'r dechreu. "Hysbys i Dduw ei weithredodd oll ericed." Bryd arall, byddwn yn deall, gwaith yr Arglwydd yn dwyn ei amcanion tragywyddol i ben mewn amser. Nid yn unig y mae wedi rhagweld pob peth, ond wedi bwriadu pob peth i fod. "Yr

hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun." Mae yr Arglwydd yn cadfod ei holl weithredoedd yn ei fwriadau; ond ein ffordd ni yw canfod y bwriad yn y weithred. Mae ef yn canfod yr adeilad yn y *plan*, ac nid y *plan* yn yr adeilad.

Mae perthynas rhwng rhagluniaeth yr Arglwydd a'r byd a'r oll sydd ynddo. Y mae yn berthynas gorsedd a deiliaid. "Yr hwn a barotodd ei orseddfa yn y nefoedd, a'i freniniaeth sydd yn llywodrrethu ar bob peth." Y mae deiliaid y llywodraeth yn dri dosbarth. (1.) Efenau y greadigaeth. (2.) Y greadigaeth ddireswn. (3.) Y dyn. Nid oes neb yn yr ymerodraeth hon yn rhy fawr i fod dan lywodraeth, na dim yn rhy fychan i ofalu am dano. "Mae yn llywodraethu ymehwydd y môr; pan gyfodo ei donau, efe a'i gostega. Tân a cheul lysg eira a tharth, gwynt ystormus yn gwneuthur ei air ef." Y mae "yn galw y ser wrth eu henwau, a chan amllder di rym a'i gadarn allu, ni phalla yr un."— Mae adar yr awyr, anifeiliaid y ddaear, a physgod y môr dan ei lywodraeth, ac yn wrthddrychau ei ofal. Nid oes yr un o'r rhai hyn yn hau nac yn medi, nac yn cywain i ysguboriau. Rhagluniaeth fawr Duw sydd yn eu cadw a'u porthu. Efe sydd yn agor ei law, ac yn diwallu pob peth byw a'i ewyllys. "A roddech iddynt a gasglant." Mae a fyfno rhagluniaeth Duw hefyd â phob dyn, a'i holl gysylltiadau. "Arno y bwriwyd ni o'r bru." Yr ydym y byw, symud, a bod ynddo. Efe sydd yn rhagosod terfyna ein preswylfod. Gallwn ddweyd am ragluniaeth Duw fel y dywedai Dafydd am ei holl-bresonoldeb:—"Amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen, a gosodaist dy law arnaf. Dyma wybodaeth rhy ryfedd i mi, uchel yw, ni fedraf oddiwrthi."— Ofnwch y Duw hwn, fy eneidiau, a dysgwch gyd-nabod yn wastad ei ragluniaeth ef.

Cyfrif ein dyddiau

“Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau,” &c. Y peth sydd yn roddi y gwerth mawr ar dyddiau dyn yw y cysylltiad sydd rhyngddynt a iachawdwriaeth dyn. Nid amser dyn yw ein iachawdwriaeth, ond ei amser yw *dydd* iachawdwriaeth; a phwy bynag a esgeuluso ddydd iachawdwriaeth sydd rwym o golli yr iachawdwriaeth ei hun. Os collwch yr adeg, chwi gollwch y farchnad. Os collwch y llong, fe gollir y llwyth. Os collwch y ffordd sydd yn arwain adref, chwi gollwch eich cartref. Os collwch ddydd efengyl, chwi gollwch yr enaid. Y peth sydd wedi rhoddi y gwerth mwyaf ar amser a'r cwbl a berthyn iddo yw, fod Duw wedi agor marchnad efengyl ynddo i gyfranau trysorau iachawdwriaeth i fyd colledig. Diolch i'r nefoedd, mae y dydd heb ddarfod, mae y farchnad heb gau. “Wele yn awr yr amser cymeradwy, wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth.” Dyma fywyd tragwyddol i chwi “heddyw, os gwrandewch ar ei leferyd ef.”

Pob peth yn dda.

“Hithau a ddywedodd, Pob peth yn dda,” 2 Bren. iv. 23. Mae y geiriau hyn yn rhan o ymddyddan fu rhwng gwr a gwraig mewn awr o brofedigaeth. Yr oedd y ddau yn grefyddol, ac y mae yn debyg fod y ddau yn dduwiol; ond yr oedd gwell crefydd gan y wraig na'r gwr. Mae hyn yn dygwydd weithiau, fod y llestr gwanaf y cryaf mewn ffydd. Felly yr oedd gyda gwraig Manoah.

“Paham yr âi di ato ef heddyw?” meddai y gwr. “Am mai heddyw y mae *eisiau* myn'd ato, bid *siwr*.” “Pa'm fuaset yn myned ddoe?” “Yr oedd yn rhy gynar.” “Wel, aros hyd yfory.” “Na,

bydd yfory yn rhy ddiweddar."

Ymddyddan yw hwn, os mynwch chwi rhwng ffydd a rheswm cnawdol. "Paham yr ei di ato heddyw?" meddai'r cnawd; "nid yw na newyddloer na Sabbath." "O, meddai ffydd. "nid wrth y lloer yr wyf fi yn gwneyd fy marchnad, ond wrth yr argen." 'Dyw ffydd ddim yn cylymu ei hunan wrth y gwyliau, ond hi wna ei mharchnad pan fydd galw, o ffau y llewod, o'r ffwrn dân, ac o fol y pysgodyn.

Ymddatodiad Paul.

"Canys myfi yr awrhon a aberthir, ac amser fy ymddatodiad i a nesaodd. Mi a ymdrechais," &c. Y mae rhywbeth yn ffurf y llythyr hwn yn debyg i ddyn yn gwneyd ei ewyllys. Mae Paul ar ymadael, ac y mae yn rhoi gofal yr achos i ddwyllaw Timotheus, a gofal ei hunan i Grist. Yn yr anod o flaen y testun y mae yn rhoi *charge* i'r *trustee*; ond yn y testun y mae yn sefyll uwch ben ei achos ei hun: edrycha arno mewn tair ffordd—yn mlaen, yn ol, ac i fyny.

Wrth edrych yn mlaen, canfydda ddau beth.—
1. Ei aberthiad. 2. Ei ymddatodiad. Wrth edrych yn ol y mae yn gweled tri pheth. 1. Ei fod wedi ymladd ymdrech deg. 2. Wedi gorphen ei yrfa. 3. Wedi cadw y ffydd. Wrth edrych i fyny y mae yn canfod coron yn ei aros. Caif y testun wasanaethu i'r tri sylw canlynol:—

I. Y disgrifiad o fywyd Christian—"gyrfa."

II. Carictor ei lasur—"ymdrech deg."

III. Gwobr yr ymdrech—"coron cyflawnder."

Rhosydd Moab.

“Ar ol yr Arglwydd eich Duw yr ewch,” Deut. xiii. 4. Cynghor Moses i'r genedl o “rosydd Moab” yw hwn, pan oedd ef ar ymadael. Y mae yn gyng-hor mor briodol i bobl yr Arglwydd heddyw ag ydoedd y pryd hwnw. Nid wyf finau heb ystyried mai yn rhosydd Moab yr wyf fi yn adrodd y cyng-hor, ac yn wir, y mae amryw o honoch chwithau yn rhosydd Moab yn ei wrando. Ond y mae yr ad-nod yn cynwys digon i chwi ac i minau i fyned dros y rhos i'r afon, a thrwy yr afon i wlad yr addewid.

PENILL.

Boed Iesu i chwi'n gyfaill
 Yn yr anialwch maith,
 A goleu'r golofn arnoch
 Nes cyrhaedd pen eich taith;
 A boed i'r Arch-offeiriad
 Ymaflyd yn eich llaw,
 A'ch dwyn trwy yr Iorddonen
 Yn iach i'r ochr draw.













3 2044 021 174 610

Rees, Thomas

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.

WIDENER

WIDENER
FEB 10 1996

AUG 10 1995
BOOK DUE

CANCELLED

